Cod Deunydd Ar-lein y BBC

Rhoi trefn safonau cynnwys newydd ar waith ar gyfer deunydd ar-lein y BBC

Datganiad

Cyhoeddwyd ar 19 Tachwedd 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i ofcom.org.uk

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg 3
2. Cefndir 6
3. Ein Dull Gweithredu 10
4. Rheolau Cod Deunydd Ar-lein y BBC 17
7. Gweithdrefnau 63

Atodiad

A1. Fframwaith Statudol 81
A2. Cod Deunydd Ar-lein y BBC 85
A3. Cymhwyso'r Cod Tegwch 86
A4. Gweithdrefnau 96
A5. Asesiadau o'r effaith 97

1. Trosolwg

1.1 Fel rheoleiddiwr annibynnol y DU ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu, mae gan Ofcom gyfrifoldebau rheoleiddio dros ddarlledu, ymysg sectorau eraill. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau rheoleiddio mewn perthynas â'r BBC. Mae sail gyfansoddiadol y BBC wedi'i nodi yn ei Siarter Frenhinol ac yn y Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC ("y Cytundeb Fframwaith"), sy'n bodoli ochr yn ochr ag ef. Mae'r Siarter a'r Cytundeb Fframwaith yn nodi gwahanol rolau a dyletswyddau'r BBC ac Ofcom.

1.2 Mae Ofcom wedi bod yn rheoleiddio safonau cynnwys ar gyfer gwasanaethau teledu, radio ac ar-alw y BBC o dan y Cod Darlledu llawn ers 2017, pan ddaeth y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith presennol i rym. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw Ofcom wedi cael y pŵer i osod a gorfodi rheolau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC.

1.3 Ym mis Rhagfyr 2025 newidiodd hyn, wrth i'r Cytundeb Fframwaith gael ei ddiweddaru yn dilyn Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o Siarter y BBC. Fel rhan o'r diweddariad hwn, rhoddwyd rhagor o swyddogaethau i Ofcom, a oedd yn cynnwys dyletswydd i osod rheolau o dan God Deunydd Ar-lein newydd y BBC ("y Cod"). Mae'r Cod yn sefydlu trefn newydd ar gyfer rheoleiddio deunydd ar-lein y BBC a fydd yn disodli'r Trefniant Ar-lein presennol, sydd wedi bodoli ers 2017.

1.4 Yn gynharach eleni, fe wnaethom ddrafftio'r Cod hwn ac ymgynghori â'r BBC ar y safonau roeddem yn eu cynnig. Yna, fe wnaethom gyhoeddi Ymgynghoriad ("yr Ymgynghoriad") ar y Cod drafft, yn ogystal ag ar Weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC. Cawsom 14 ymateb i'r Ymgynghoriad hwnnw, ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus, ynghyd â sylwadau a thystiolaeth ychwanegol a ddaeth i law drwy ein hymgynghoriad blaenorol â'r BBC. Rydym bellach wedi cwblhau'r Cod a'r Gweithdrefnau yn derfynol ac wedi nodi ein penderfyniadau a'n rhesymeg yn y datganiad hwn ("y Datganiad").

1.5 Ochr yn ochr â'r Cod, mae'r Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC yn cynnwys Gweithdrefnau ar gyfer:

a) ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys;
b) ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd; ac
c) ystyried sancsiynau am achosion o dorri safonau cynnwys yng ngwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw a deunydd ar-lein y BBC.

1.6 Ar gyfer cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd, mae Cod Tegwch eisoes mewn grym o dan y Cod Darlledu, y mae'n rhaid i'r BBC ei ddilyn.[1] Yn yr Ymgynghoriad roeddem hefyd wedi gofyn am safbwyntiau ar ein cynnig ynghylch sut dylai'r Cod Tegwch fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC, ac rydym hefyd wedi cwblhau'r cynnig hwnnw yn derfynol yn y Datganiad hwn.

1.7 Ochr yn ochr â'r Datganiad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi Canllawiau i'r Cod ("y Canllawiau"), sy'n egluro sut bydd Ofcom yn rhoi'r rheolau ar waith yn ymarferol gyda'r BBC. Er nad oeddem wedi ymgynghori ar Ganllawiau drafft, roeddem wedi gofyn am safbwyntiau a mewnbwn yn ein Hymgynghoriad ar ein dull gweithredu ar gyfer hyn a'r meysydd posibl lle byddai'n ddefnyddiol darparu canllawiau ychwanegol i'r BBC.

[1] Mae hyn yn cael ei nodi yn adrannau Saith (Tegwch) ac Wyth (Preifatrwydd) y Cod Darlledu.

Ein penderfyniadau – yn gryno

Cod Deunydd Ar-lein y BBC

Yn unol â'r Cytundeb Fframwaith[2] wedi'i ddiweddaru, mae'r safonau y mae'n rhaid i Ofcom eu gosod o dan God Deunydd Ar-lein y BBC yn seiliedig ar yr un amcanion â'r safonau cyfatebol o dan y Cod Darlledu.[3] Felly, rydym wedi ceisio gwneud y rheolau mor gyson â phosibl â'r rheini yn y Cod Darlledu. Fodd bynnag, pan fo angen, mae'r rheolau wedi cael eu teilwra i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cynnwys darlledu a deunydd ar-lein y BBC. Rydym wedi ystyried natur benodol deunydd ar-lein drwy addasu neu hepgor rhai rheolau a chysyniadau lle nad ydynt yn berthnasol ar-lein.

Dyma ein dull gweithredu ar gyfer pob Adran o'r Cod newydd:

- **Adran Un** (Diogelu pobl dan ddeunaw oed): rydym wedi addasu a chrynhoi rheolau o Adran Un y Cod Darlledu, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd ar-lein sy'n anaddas iddynt. Nid ydym wedi ailadrodd rheolau nad ydynt yn berthnasol i ddeunydd ar-lein, er enghraifft ar amserlennu priodol ("y trothwy"). Rydym hefyd wedi rhoi enghreifftiau o ddeunydd ar-lein anaddas i'r BBC mewn canllawiau, yn hytrach na chynnwys rheolau sy'n benodol i faterion, er enghraifft ynghylch iaith dramgwyddus, trais, deunydd rhywiol neu noethni, sy'n adlewyrchu ein dull gweithredu ar gyfer y Cod Darlledu.
- **Adran Dau** (Niwed a thramgwydd): rydym wedi cynnwys rheolau sy'n cyfateb i'r rheini yn Adran Dau o'r Cod Darlledu ond wedi'u haddasu i adlewyrchu'r profiad ar-lein. Rydym wedi addasu ystyr "cyd-destun" i gynnwys ffactorau ar-lein fel fformat a math yr eitem ar-lein, oedran y deunydd a'r amser y mae deunydd wedi bod ar gael ar-lein.
- **Adran Tri** (Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin): yn yr un modd, rydym wedi addasu ystyr "cyd-destun" i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein ar gyfer rheolau sy'n ymwneud ag iaith casineb neu driniaeth ddifrïol neu sarhaus.
- **Adran Pedwar** (Crefydd): rydym wedi cynnwys rheolau sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol, sydd, yn ein barn ni, yn briodol mewn cyd-destun ar-lein ar gyfer cynnwys crefyddol sydd wedi'i gynnwys yn neunydd ar-lein y BBC: arfer cyfrifoldeb priodol mewn rhaglenni crefyddol, osgoi camfanteisio'n amhriodol ar deimladau cynulleidfaoedd ac osgoi trin safbwyntiau a chredoau crefyddol mewn modd difrïol.
- **Adran Pump** (Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy); mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu'r rheolau didueddrwydd dyladwy yn y Cod Darlledu, gan addasu cyfeiriadau at "raglen" neu "gyfres o raglenni gyda'i gilydd" i "eitem ar-lein" a "chyfres o eitemau sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd" ar gyfer y cyd-destun ar-lein.
- **Adran Chwech** (Etholiadau a Refferenda): mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu'n fras y rheolau yn y Cod Darlledu ynghylch sylw yn ystod cyfnodau etholiadau, gan addasu cysyniadau lle bo angen i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein. Nid ydym wedi ailadrodd y rheolau sy'n ymwneud â sylw etholaethol ac etholiadol mewn etholiadau, gan nad

[2] Diweddariadau i Gytundeb Fframwaith y BBC: Rhagfyr 2025 – gov.uk

[3] Mae amcanion perthnasol y safonau wedi'u cynnwys yn adran 319(2)(a), (b), (c) (gan gynnwys y gofynion didueddrwydd arbennig yn adran 320) a (d) i (f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

yw'r rhain wedi cael eu mabwysiadu gan y BBC yn hanesyddol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Cwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd

- Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn nodi bod yn rhaid i'r BBC lynu wrth y Cod Tegwch, cyn belled ag y bo'n berthnasol i ddeunydd ar-lein. Mae'r cod hwn eisoes mewn grym drwy adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu. Am y rheswm hwn, mae'r Cod Tegwch wedi cael ei addasu i fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Bydd defnyddio'r Cod Tegwch gyda Deunydd Ar-lein y BBC yn cael ei gyhoeddi fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

Roedd yr ymatebion i'n cynigion yn cefnogi ein dull gweithredu ar y cyfan. Rydym nawr yn cyhoeddi'r Cod, y Gweithdrefnau a'r Canllawiau, yn ogystal â'r ddogfen defnyddio'r Cod Tegwch gyda deunydd ar-lein y BBC, i nodi bod Ofcom yn dechrau rhoi safonau rheoleiddio newydd ar waith o dan God Deunydd Ar-lein y BBC.

Crynodeb syml ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae ein penderfyniadau a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

2. Cefndir

Ofcom yn rheoleiddio Deunydd Ar-lein y BBC

2.1 Fel rhan o'i waith yn rheoleiddio'r BBC, mae Ofcom yn gorfodi safonau cynnwys ar gyfer gwasanaethau rhaglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC drwy'r Cod Darlledu. Ar ben hynny, mae allbwn y BBC yn dod o dan ei Ganllawiau Golygyddol ei hun, sy'n ymgorffori gofynion y Cod Darlledu ond yn ymestyn ymhellach mewn rhai meysydd o bolisi ac ymarfer golygyddol y BBC.

2.2 Hyd yma, mae Ofcom wedi cael rôl orfodi mewn perthynas â safonau ar gyfer gwasanaethau darlledu a rhaglenni ar-alw y BBC, ond nid yw wedi chwarae rôl debyg mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Yn hytrach, mae rôl Ofcom yn y maes hwn hyd yma, wedi'i nodi mewn Trefniant Ar-lein sydd wedi cyfyngu Ofcom i ystyried deunydd ar-lein y BBC a rhoi barn, a all gynnwys argymhelliad, ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth y Canllawiau Golygyddol perthnasol. At y dibenion hyn, mae'r Trefniant Ar-lein wedi diffinio "deunydd ar-lein" fel deunydd a ddarperir ar-lein (ar unrhyw wefan, rhaglen neu ryngwyneb ar-lein) yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU,[4] gan gynnwys testun ysgrifenedig, delweddau, cynnwys clyweledol a sain, ond heb gynnwys (ymhlith pethau eraill): rhaglenni ar wasanaethau rhaglenni ar-alw; cynnwys BBC World Service; cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, deunydd corfforaethol ac adnoddau addysgol a dysgu (sef BBC Bitesize); a deunydd y BBC ar lwyfannau ar-lein trydydd parti a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

2.3 O dan y Trefniant Ar-lein, mae angen i gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC ddilyn dull gweithredu 'BBC yn Gyntaf', lle mae'n rhaid eu cyflwyno i'r BBC yn y lle cyntaf. Os nad oedd y sawl a oedd yn cwyno yn fodlon ar ymateb terfynol y BBC i gŵyn am ddeunydd ar-lein, gallai wedyn gyfeirio'r gŵyn at Ofcom i'w hystyried.

2.4 Fel rhan o Adolygiad Canol Tymor[5] y Llywodraeth ym mis Ionawr 2024, argymhellodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y dylid cryfhau dull gweithredu'r BBC yng nghyswllt safonau golygyddol, didueddrwydd a delio â chwynion. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid ymestyn cyfrifoldebau Ofcom i elfennau o ddeunydd gwasanaeth cyhoeddus ar-lein y BBC i adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion a chynnwys arall fwyfwy ar-lein. Bwriad hyn oedd galluogi Ofcom i ddal y BBC i gyfrif yn fwy effeithiol, gan gynnwys ar faterion fel didueddrwydd dyladwy.[6] Ymrwymodd y Llywodraeth i'r argymhelliad hwn ac, mewn ymgynghoriad ag Ofcom a'r BBC, diweddarodd y Cytundeb Fframwaith i adlewyrchu'r cam hwn o ehangu cylch gwaith rheoleiddio Ofcom.[7]

---

[4] O dan Baragraff 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, mae'n rhaid i'r BBC gynnal a chyhoeddi rhestr o wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Mae'r rhestr gyfredol ar gael ar-lein: https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/updated-list-of-uk-public-services-september-2025.pdf.

[5] Roedd Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC, gan ddefnyddio ymgysylltiad wedi'i dargedu a thystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Ofcom.

[6] Gweler paragraff 9 o Adolygiad Canol Tymor y BBC 2024 - GOV.UK.

[7] Cafodd y Cytundeb dyddiedig Tachwedd 2016 rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y "Cytundeb Fframwaith") ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2025 (y "diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith"). Rydym yn cyfeirio at hyn fel y "Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru".

2.5 Wrth nodi'r gofyniad i safonau newydd fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn mynnu bod Ofcom yn llunio cod newydd ar gyfer deunydd ar-lein y BBC ("y Cod") sy'n seiliedig ar is-set o'r un amcanion statudol sy'n sail i'r Cod Darlledu, gan gael ei addasu i adlewyrchu nodweddion penodol deunydd ar-lein. Mae'r fframwaith statudol sy'n sail i'r Cod ar gael yn Atodiad A1.

2.6 Fel sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, ymgynghorodd Ofcom â'r BBC ynghylch y safonau roeddem yn cynnig eu cynnwys yn y Cod, cyn paratoi a chyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Cod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ("yr Ymgynghoriad").

2.7 Roedd Ymgynghoriad Ofcom yn gofyn am safbwyntiau ar y Cod arfaethedig ac ar y canlynol:

a) Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys arfaethedig;
b) Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd arfaethedig; ac
c) Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC: Gwasanaethau darlledu'r BBC, gwasanaethau rhaglenni ar-alw'r BBC a deunydd ar-lein y BBC arfaethedig.

2.8 Cawsom 14 o ymatebion i'n Hymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys ymateb ffurfiol gan y BBC, yn ogystal ag ymatebion eraill gan: Trans Advocacy and Complaints Collective ('TACC'), News-watch, Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon ('ACNI Ofcom') y Pwyllgor dros Gywirdeb mewn Adrodd a Dadansoddi ar y Dwyrain Canol ('CAMERA.org'), No Bars Ltd t/A Digital Rehabilitation Infrastructure Framework and Training ('No Bars Ltd T/A DRIFT'), a the Writers' Guild of Great Britain ('WGGB'). Hefyd cawsom ymatebion gan saith unigolyn. Mae'r fersiynau anghyfrinachol o'r ymatebion hyn wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad hwn.

2.9 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl wybodaeth a gawsom mewn ymateb i'n Hymgynghoriad ac wedi penderfynu cwblhau'r Cod a'r Gweithdrefnau'n derfynol heb ddiwygio eu ffurf drafft. Mae'r Datganiad hwn yn egluro ein penderfyniadau a sut rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom. Mae Cod a Gweithdrefnau terfynol Ofcom ar gael yn Atodiad A2 ac Atodiad A4.

Cwmpas y Cod

2.10 Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn diffinio cwmpas y Cod ac yn nodi'r math o ddeunyddiau a gwasanaethau a fyddai'n dod o dan y rheolau newydd a'r deunyddiau a'r gwasanaethau sydd y tu allan i'r cylch gwaith hwn. Mae hyn yn wahanol mewn rhai ffyrdd i'r diffiniad o ddeunydd ar-lein a nodwyd yn y Trefniant Ar-lein blaenorol.

2.11 Fel y dangosir yn Ffigur 1 isod, mae Deunydd Ar-lein y BBC sy'n dod o dan y Cod ("Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU" yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru) yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei ddarparu fel rhan o Wasanaethau Cyhoeddus y DU gan y BBC ar-lein ac sydd wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr yn y DU (neu unrhyw ran o'r DU).[8] Mae hyn yn cynnwys, am y tro cyntaf, cynnwys brand y BBC ar wefannau, rhaglenni a rhyngwynebau trydydd parti. Mae hefyd yn cynnwys deunydd sydd wedi'i gynnwys yn y canlynol:

a) Gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC;
b) Apiau'r BBC ar ffôn clyfar, set deledu neu ddyfais arall;

[8] Paragraff 3A(9), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

c) unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC[9] (gan gynnwys pan fydd un o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y BBC yn ail-bostio unrhyw gynnwys sy'n cael ei bostio ar unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol arall, gan gynnwys un unrhyw unigolyn sy'n gweithio i'r BBC); neu

d) Adnoddau addysgol a dysgu'r BBC.

2.12 Mae "cynnwys" yn ymgorffori testun ysgrifenedig a delweddau llonydd neu symudol, gyda sain neu hebddo, a chynnwys sain yn unig.

2.13 Nid yw deunydd ar-lein y BBC yn cynnwys unrhyw gynnwys i'r graddau y mae:

i) yn cael ei ddarparu gan y BBC fel rhan o'r World Service neu mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw (gan gynnwys BBC iPlayer neu BBC Sounds);[10]

ii) yn cynnwys deunyddiau corfforaethol y BBC, gan gynnwys adroddiadau a gyhoeddir gan y BBC, areithiau neu ddatganiadau gan unigolion sy'n gweithio i'r BBC a chyhoeddiadau mewnol;

iii) yn cael ei bostio ar fwrdd negeseuon neu dudalen sylwadau'r BBC;

iv) yn gynnwys rhyngweithiol a gynhyrchir gan ddefnyddwyr nad yw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU; neu

v) yn cael ei ddarparu gan unrhyw un ar wahân i'r BBC fel rhan ddatgysylltiol o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y BBC.[11]

[9] Mae "cyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC" yn golygu cyfrif ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud ag unrhyw un o raglenni, gwasanaethau neu genres y BBC ac sy'n cael ei frandio a'i weithredu gan y BBC fel cyfrif y BBC (ac, yn unol â hynny, nid yw'n cynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol unrhyw unigolyn sy'n gweithio i'r BBC) (paragraff 3A(11), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru).

[10] Fodd bynnag, rydym yn nodi, lle mae gwasanaeth rhaglenni ar-alw y BBC yn cynnwys gwasanaethau datgysylltiol eraill, fel gwasanaethau rhaglenni teledu sy'n cael eu ffrydio'n fyw, y gallai'r rheini gael eu hystyried yn ddeunydd ar-lein y BBC. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai hyn yn cynnwys deunydd ffrydio byw ar BBC iPlayer nad yw'n cael ei ddarlledu ar yr un pryd.

[11] Paragraff 3A(10), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

Ffigur 1: Cwmpas Deunydd Ar-lein y BBC



2.14 Mae'r amcanion safonau y mae'n rhaid i reolau Ofcom eu gosod ar gyfer deunydd ar-lein y BBC yn deillio o'r set ehangach o amcanion sy'n berthnasol i wasanaethau teledu a radio o dan adran 319(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). O dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yn benodol yr amcan y dylai'r safonau mae'n eu gosod o dan y Cod fod yn gyson (i'r graddau sy'n briodol) â'r safonau cyfatebol o dan y Cod Darlledu.[12]

Canllawiau

2.15 Yn ein Hymgynghoriad, rydym yn nodi ein bwriad i gyhoeddi Canllawiau i'r BBC ar ddefnyddio'r Cod ("y Canllawiau"). Ni wnaethom ymgynghori ar y Canllawiau. Yn hytrach, fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer canllawiau lle roeddem yn credu ei bod yn arbennig o bwysig helpu i ddeall y Cod drafft a gwahodd sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig. Er tegwch, rydym hefyd wedi rhannu fersiwn ddrafft o'r Canllawiau â'r BBC cyn eu cyhoeddi, er gwybodaeth.

2.16 Rydym wedi ystyried sylwadau gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y BBC, yn ein Canllawiau terfynol, a byddwn yn eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad hwn, y Cod terfynol, y Gweithdrefnau a'r ddogfen ar ddefnyddio'r Cod Tegwch.

2.17 Bydd y Canllawiau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru o bryd i'w gilydd lle bo angen.

[12] Paragraff 3A(4)(b), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

3. Ein Dull Gweithredu

Cyflwyniad

3.1 Mae'r Cod (sydd wedi'i atodi i'r Datganiad hwn yn Atodiad A2) yn cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw mewn perthynas â chynnwys deunydd ar-lein yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

3.2 Cafodd y Cod ei ddrafftio yng ngoleuni Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn), yn enwedig Erthyglau 9, 10 a 14 o'r Confensiwn. Roedd Ofcom hefyd wedi rhoi sylw dyledus i'r materion a bennir yn adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998. Gweler Atodiad A1 (Fframwaith Statudol) ac Atodiad A5 (Asesiadau o'r Effaith) i gael rhagor o wybodaeth.

3.3 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem wedi amlinellu'r rheolau o'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn y Cod, yn ogystal â'r rheolau roeddem yn cynnig peidio â'u hadlewyrchu. Er mwyn deall sail resymegol sylfaenol yr hyn roeddem yn ei gynnig, edrychwch ar ein Hymgynghoriad.

3.4 Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau cyffredinol ar ein dull gweithredu ar gyfer y Cod a'r rheolau arfaethedig. Rydym yn crynhoi'r rhain ac yn ymateb iddynt isod.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.5 Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu cyflwyno Cod newydd, er bod rhai yn nodi rhai mannau y dylid eu hegluro a'u gwella.[13]

3.6 Awgrymodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon Ofcom (ACNI Ofcom) y dylai safonau fodoli ni waeth ble mae cynnwys y BBC yn cael ei ddefnyddio, ac roedd yn cefnogi dod â chynnwys brand y BBC ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos o fewn y cwmpas.[14] Ategwyd y farn hon gan News-watch, a oedd o blaid rheoleiddio gwefannau, apiau a chyfrifon a reolir gan y BBC ar lwyfannau trydydd parti am y tro cyntaf.[15] Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at bwysigrwydd dibynadwyedd, hygrededd a chywirdeb newyddion y BBC a sicrhau bod gwefan y BBC o ansawdd uchel.[16]

3.7 Roedd Trans Advocacy and Complaints Collective (TACC) hefyd yn croesawu cyflwyno'r Cod arfaethedig. Nododd y "dylai cynulleidfaoedd gael gwarchodaeth reoleiddiol ystyrlon p'un a ydynt yn dod ar draws newyddiaduraeth y BBC drwy ddarlledu traddodiadol neu ar-lein."[17]

3.8 Awgrymodd TACC, ynghyd ag ymatebydd unigol, y dylai Ofcom ystyried patrymau ar draws darpariaeth ac effaith gronnus cynnwys, gan fod problemau'n gallu dod i'r amlwg drwy ddewis effeithiau fframio neu iaith dro ar ôl tro dros amser.[18] Yn yr un modd, roedd News-watch yn dadlau y dylid asesu cynnwys yn gronnus, gan ystyried amlygrwydd ac ailadrodd.[19]

---

[13] Corvelo, D t.3, ACNI Ofcom t.1, Trans Advocacy & Complaints Collective, t.1, Elliott, E. P.1, the Writer's Guild of Great Britain t.3.
[14] Ymateb ACNI Ofcom, t.1
[15] Ymateb News-watch, t.1
[16] Enw wedi'i atal ymateb 2 drwy e-bost; Enw wedi'i atal ymateb 1 drwy e-bost
[17] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.1
[18] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.2; ymateb E. Elliott, t.2
[19] Ymateb News-watch, t.5

3.9 Ymhelaethodd yr ymatebydd unigol ar y pwynt hwn, gan ddweud y dylid cydnabod darpariaeth gronnus gan fod potensial i eitemau o gynnwys y gellir eu hamddiffyn yn unigol fod "yn gamarweiniol, yn anghymesur neu y gellir rhagweld eu bod yn niweidiol drwy ailadrodd, amlygrwydd o'r newydd a'u hehangu ar draws llwyfannau".[20]

3.10 Gofynnodd y BBC i Ofcom egluro ei ddull o asesu darnau o gynnwys (fel penawdau a mân-luniau) heb ragor o gyd-destun, hynny yw, a fyddai darn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun yr eitem sylfaenol y mae'n berthnasol iddi yn unig. [21] Dywedodd:

> "O ystyried arwyddocâd y darnau hyn o gynnwys, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch sut mae Ofcom yn bwriadu eu hasesu o dan y Cod. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol deall a fydd darn yn cael ei ystyried yn gyffredinol yng nghyd-destun yr eitem ar-lein sylfaenol y mae'n berthnasol iddi yn unig, neu a allai, mewn rhai amgylchiadau, ddenu craffu ar wahân at ddibenion cywirdeb, tegwch, preifatrwydd, niwed a thramgwydd, neu ddidueddrwydd dyladwy".[22]

3.11 Gofynnodd pum ymatebydd i Ofcom ymhelaethu ar ei ddull o asesu darnau ar-lein (er enghraifft, mân-luniau, clipiau a phenawdau annibynnol), gan ddadlau y gellir ailddosbarthu'r rhain yn aml mewn ffyrdd sy'n eu tynnu o'r cyd-destun golygyddol cyfagos ac y dylai fod yn ofynnol i'r rhain hefyd gydymffurfio â'r Cod newydd. [23] Dywedodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau ystyried ffactorau fel priodoli ac agosrwydd,[24] ond roedd dau ymatebydd yn galw'n benodol am asesu deunydd o'r fath wrth ddod ar ei draws.[25] Tynnodd CAMERA.org sylw at bwysigrwydd canllawiau mewn amgylchedd lle gellir dod ar draws darnau a'u dosbarthu'n annibynnol.[26]

3.12 Yn yr un modd, awgrymodd ymatebydd arall y dylai'r BBC fod yr un mor atebol am gynnwys ar draws ei holl lwyfannau, gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol, ac y dylid ystyried penawdau a chapsiynau cyfryngau cymdeithasol fel eitemau annibynnol.[27]

3.13 Roedd y BBC yn croesawu cynigion Ofcom ac yn gefnogol ar y cyfan i'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Cod.[28] Er bod y BBC yn cefnogi nifer o gynigion roeddem wedi ymgynghori arnynt, gofynnodd am ragor o eglurder, er enghraifft ynghylch: ein cynigion i ystyried didueddrwydd dyladwy ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd; mesurau i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed; labelu cynnwys newyddion; y dull gweithredu ar gyfer darnau o gynnwys ar-lein; a therfynau rheolaeth olygyddol ynghylch deunydd y BBC ar lwyfannau trydydd parti.

3.14 Roedd unigolyn yn croesawu creu Cod y gellir ei orfodi. Fodd bynnag, roedd yn awgrymu y dylai Ofcom gyhoeddi "fframwaith penderfyniadau gan wasanaethau amrywiol ar gyfer tudalennau neu bostiadau sy'n cyfuno deunydd ar-lein y BBC â Gwasanaethau Darlledu/Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw ("ODPS"), World Service, deunydd allanol

---

[20] Ymateb Elliot, E. t.2
[21] Ymateb y BBC, t.2
[22] Ymateb y BBC, t.2-3
[23] Trans Advocacy & Complaints Collective, t.6, Elliot, E, t2-8, Corvelo, D, t.7, ACNI Ofcom, t.1-2 a CAMERA.org, t.4.
[24] Ymateb Corvelo, D. t.11
[25] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.5; Ymateb News-watch, t.6
[26] Ymateb CAMERA.org t.6
[27] Enw wedi'i atal ymateb 3 drwy e-bost
[28] Ymateb y BBC, t.1

cysylltiedig neu drydydd parti datgysylltiol." [29] Roeddent yn nodi y gellid codi materion lle mae'r cynnwys yn dod o dan y Cod Darlledu a'r Cod ac yn annog Ofcom i ystyried y ffordd orau o egluro pa god y byddai cwyn yn dod oddi tano.

3.15 Awgrymodd yr un unigolyn hefyd y dylai Ofcom wahaniaethu rhwng cwmpas y Cod a lefel y rheolaeth ar lwyfannau, ac y dylai deunydd o fewn y cwmpas aros o fewn y cwmpas hyd yn oed pan fydd yn cael ei ddosbarthu neu ei argymell gan lwyfannau trydydd parti.[30]

Ein hymateb

3.16 Mae llawer o'r sylwadau hyn yn ymwneud â chwmpas y Cod terfynol. Fodd bynnag, mae'r cwmpas wedi'i ragnodi yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, fel rydym yn ei egluro yn ein Hymgynghoriad. Mae'r Cod yn adlewyrchu'r safonau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC sy'n ymddangos i Ofcom fel y deunydd gorau i sicrhau amcanion perthnasol y safonau o dan y Ddeddf.[31] Fel sy'n ofynnol gan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, wrth osod safonau o'r fath, rhaid i Ofcom ystyried yn benodol (i) y materion yn adran 319(4) o'r Ddeddf sy'n ymddangos yn berthnasol i ddeunydd ar-lein a (ii) yr amcan bod y safonau'n gyson â'r rheini sydd wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu i'r graddau sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol. Nid oes gan Ofcom unrhyw bwerau i ymestyn cwmpas y Cod yn ehangach na'r hyn sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Rydym felly'n nodi'r ymatebion a gawsom ar hyn ond nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau yn hyn o beth.

3.17 Mewn perthynas â'r sylwadau ar benawdau a chapsiynau cyfryngau cymdeithasol, fel y nodir yn yr Ymgynghoriad, mae'r diffiniad o "gynnwys" fel y mae'n berthnasol i ddeunydd ar-lein yn cynnwys testun ysgrifenedig a delweddau llonydd neu symudol. Felly, mae capsiynau a phenawdau eisoes o fewn cwmpas y Cod. Rydym wedi nodi ein dull gweithredu ar gyfer sut dylai'r BBC ystyried darnau unigol o gynnwys fel penawdau a mân-luniau yn ein Canllawiau.

3.18 Rydym wedi ystyried cais y BBC am ragor o eglurder ynghylch rhai materion ac rydym yn trafod hyn yn fanylach ym mharagraffau 3.39-3.41, 4.29, 4.46 a 4.205-4.207. Ar ben hynny, rydym wedi nodi esboniadau pellach ar weithredu'r Cod yn ein Canllawiau cysylltiedig.

3.19 Er ein bod yn nodi'r cais gan un ymatebydd i gynnwys fframwaith penderfyniadau ar gyfer deunydd sy'n cyfuno cynnwys sydd y tu mewn a'r tu allan i'r cwmpas, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud hyn. Rydym yn cydnabod y gallai cynnwys tebyg fod ar gael ar wahanol lwyfannau'r BBC a bod posibilrwydd o rywfaint o ddryswch ynghylch pa god fydd yn berthnasol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd y Cod, y Gweithdrefnau a'n Canllawiau cysylltiedig yn rhoi digon o eglurder ar y mater hwn. Ar ben hynny, bydd ein gwefan yn darparu gwybodaeth berthnasol i gynulleidfaoedd mewn perthynas â llwybrau cwyno sy'n ymwneud â gwahanol lwyfannau a gwasanaethau'r BBC.

Strwythur y Cod

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

3.20 Yn ein Hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y byddai'r Cod drafft yn cynnwys chwe adran. Bwriad y rhain oedd nodi'r rheolau perthnasol at ddibenion amcanion y safonau y mae'n

[29] Ymateb Corvelo, D. t.7
[30] Ymateb Corvelo, D, t.3
[31] Mae amcanion perthnasol y safonau wedi'u cynnwys yn adran 319(2)(a), (b), (c) (gan gynnwys y gofynion diduedrwydd arbennig yn adran 320) a (d) i (f) Deddf Cyfathrebiadau 2003

rhaid i ni eu sicrhau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Roedd yr adrannau hyn yn cyfateb i'r adrannau cyfatebol o dan y Cod Darlledu ac yn defnyddio'r un teitlau, rhifau a chronoleg, sef:

1. Diogelu Pobl Dan Ddeunaw Oed
2. Niwed a thramgwydd
3. Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin
4. Crefydd
5. Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy
6. Etholiadau a refferenda

3.21 Mae'r Cod Darlledu hefyd yn cynnwys rheolau ar Gyfeiriadau masnachol ar y teledu (Adran Naw) a Chyfathrebiadau masnachol ar y radio (Adran Deg). Gan fod y rheolau hyn yn seiliedig yn bennaf ar amcanion safonau nad ydynt yn berthnasol i'r Cod, nid oeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn y Cod.[32] Yn hytrach, fe wnaethom nodi'r rheolau hynny ar gyfeiriadau masnachol a allai, yn ein barn ni, fod yn berthnasol i amcanion y safonau sy'n berthnasol i ddeunydd ar-lein, ac egluro yn ein Hymgynghoriad pam ein bod yn credu y byddai'r rheolau yn y Cod yn ddigonol i ddarparu'r mesurau diogelu angenrheidiol.[33] Roeddem hefyd yn ymwybodol, yn wahanol i ddarlledwyr masnachol, bod gan y BBC gyfyngiadau ar ddefnyddio hysbysebion neu nawdd fel rhan o'i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded.

3.22 Fe wnaethom amlygu yn ein Hymgynghoriad bod yn rhaid i'r BBC hefyd lynu wrth y Cod Tegwch sydd mewn grym o dan Adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 (sef Adran Saith (Tegwch) ac Adran Wyth (Preifatrwydd) o'r Cod Darlledu), i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC. Pan wnaethom ymgynghori ar ein Cod drafft, roeddem wedi ystyried pa addasiadau oedd eu hangen i ddefnyddio Adrannau Saith (Tegwch) ac Wyth (Preifatrwydd) y Cod Darlledu at y diben hwn ac wedi gofyn am fewnbwn ar y newidiadau arfaethedig.

3.23 Fel o dan y Cod Darlledu, roedd pob adran arfaethedig o'r Cod yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i'r rheolau yn yr adran honno, ynghyd â'r ystyron perthnasol. Bwriad yr egwyddorion hyn oedd cefnogi dealltwriaeth darllenwyr o amcanion y safonau a chymhwyso'r rheolau, yn ogystal â sicrhau bod pawb yn deall y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Cod.

3.24 Fel yr amlinellwyd uchod, nid oeddem yn adlewyrchu rhai rheolau neu eiriau penodol rhwng y Cod drafft a'r Cod Darlledu lle roeddem o'r farn bod y rhain yn anghymesur neu'n ddiangen. Serch hynny, hyd yn oed pan oedd rhai adrannau arfaethedig o'r Cod drafft yn cynnwys llai o reolau neu eiriad gwahanol i'w hadrannau cyfatebol yn y Cod Darlledu, y bwriad oedd cynnal yr un lefel o amddiffyniad i gynulleidfaoedd. Pan oedd y newidiadau hyn yn sylweddol, fe wnaethom egluro ein rhesymeg yn ein Hymgynghoriad.

---

[32] Yn benodol, nid yw amcanion y safonau o dan adrannau 319(2)(fa), (i) a (j) sy'n ymwneud â gofynion gosod cynnyrch, rhwymedigaethau rhyngwladol mewn perthynas â hysbysebu mewn gwasanaethau teledu a radio, a nawdd anaddas, yn berthnasol i'r Cod.

[33] Yn benodol, amcanion y safonau o dan adrannau 319(2)(a) ac (f) sy'n ymwneud â diogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed a defnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredinol er mwyn diogelu pobl yn ddigonol rhag deunydd tramgwyddus a niweidiol.

3.25 Roeddem hefyd yn cynnig newid rhai ystyron penodol lle'r oeddem yn credu y byddai angen eglurhad ychwanegol neu wahanol ar y cyd-destun ar-lein, neu lle'r oedd y rheolau neu'r telerau arfaethedig a oedd yn cael eu hegluro wedi cael eu newid o'r Cod Darlledu.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.26 Roedd y BBC yn croesawu cynnig Ofcom i gysoni'r Cod â'r Cod Darlledu sydd wedi'i sefydlu, gan sicrhau y byddai'r egwyddorion cydnabyddedig yn cael eu diweddaru i adlewyrchu nodweddion unigryw cynnwys ar-lein a'r ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu ag ef.[34]

3.27 Roedd un ymatebydd yn cytuno â chadw strwythur chwe adran y Cod, ynghyd â'r Cod Tegwch, ond awgrymodd fod angen eglurhad pellach ar gyfer y meysydd arfaethedig hynny.[35] Rydym yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn unigol mewn rhannau eraill o'r Datganiad hwn.

Ein penderfyniad

3.28 Rydym wedi penderfynu cadw strwythur y Cod a gynigir yn ein Hymgynghoriad, sy'n cynnwys chwe adran ac yn cadw teitlau, rhifau a chronoleg y Cod Darlledu. Yn ein barn ni, mae hyn yn gyson â'r gofyniad yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru i'r Cod gael ei ategu gan is-set o'r un amcanion statudol sy'n sail i'r Cod Darlledu. Rydym felly'n nodi'r ymateb, gan awgrymu egluro ymhellach, ond nid ydym wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau yn hyn o beth.

Deunydd ar-lein y BBC ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

3.29 Fe wnaethom amlinellu yn ein Hymgynghoriad nad yw Ofcom wedi cael unrhyw rôl hyd yma o ran gosod a gorfodi safonau cynnwys ar gyfer deunydd ar-lein y BBC ac mai yn y Cod drafft y byddem yn cael unrhyw oruchwyliaeth reoleiddiol dros ddeunydd y BBC ar lwyfannau ar-lein trydydd parti am y tro cyntaf.[36]

3.30 Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn diffinio deunydd ar-lein i ymgorffori unrhyw gynnwys sydd â brand y BBC arno ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC (gan gynnwys ail-bostio unrhyw gynnwys sy'n cael ei bostio ar unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol arall gan gynnwys un unrhyw unigolyn sy'n gweithio i'r BBC). Fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein bod yn dehongli hyn i olygu y byddai'r Cod yn berthnasol yn yr un ffordd i ddeunydd ar-lein y BBC lle mae'n cael ei ddarparu fel rhan o Wasanaethau Cyhoeddus y DU ac ar gyfer lle byddai'n berthnasol i gynnwys sydd â brand y BBC arno ar wefannau, rhaglenni a rhyngwynebau trydydd parti. Fe wnaethom egluro ein bwriad na fyddai lefel y diogelwch yn wahanol.

3.31 Fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein bod o'r farn bod gan y BBC reolaeth olygyddol dros ddeunydd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys brand y BBC (gan gynnwys cynnwys wedi'i ail-bostio). Yn dibynnu ar y llwyfan trydydd parti unigol, roeddem hefyd o'r farn yn fras y byddai gan y BBC rywfaint o allu i reoli cymedroli ei gyfrifon (er enghraifft, galluogi neu analluogi sylwadau neu rwystro cyfrifon). Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod

[34] Ymateb y BBC, t.1
[35] Ymateb Corvelo, D, t.26
[36] Fel y nodwyd ym mharagraff 2.2, nid yw rôl bresennol Ofcom mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC o dan y Trefniant Ar-lein yn ymestyn i ddeunydd y BBC ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein trydydd parti.

efallai na fydd gan y BBC reolaeth ehangach dros amgylchedd y llwyfan lle gallai ei ddeunydd ar-lein ymddangos, gan gynnwys elfennau fel polisïau a chanllawiau'r llwyfan trydydd parti, neu algorithmau a systemau argymell.

3.32 Yng ngoleuni'r her ymarferol hon, fe wnaethom ddweud yn ein Hymgynghoriad y byddem yn ystyried ymhellach a allai canllawiau ar ddeunydd ar-lein y BBC, sy'n ymddangos ar lwyfannau trydydd parti, helpu i egluro sut gallai'r rheolau arfaethedig fod yn berthnasol i gyfrifon brand a gweithredol y BBC ar gyfryngau cymdeithasol a/neu lwyfannau rhannu fideos.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.33 Roedd y BBC yn croesawu cydnabyddiaeth Ofcom nad oes ganddo reolaeth dros systemau argymell ac algorithmau llwyfannau trydydd parti.[37] Nododd mai ychydig iawn o ddylanwad sydd gan y BBC ar benderfyniadau dosbarthu gweithredwyr llwyfannau a galwodd am fwy o eglurder ynghylch y ffin rhwng cyfrifoldeb golygyddol y BBC a chyfrifoldeb llwyfan. Awgrymodd hefyd y byddai mwy o eglurder yn adlewyrchu realiti'r gofod ar-lein ac yn sicrhau bod atebolrwydd yn parhau i fod yn gymesur. Ychwanegodd:

> "byddai'n ddefnyddiol deall a yw Ofcom yn disgwyl i ystyriaeth olygyddol gael ei chyfyngu i'r cynnwys penodol y mae'n gysylltiedig ag ef, neu a yw'n ymestyn yn ehangach i ddeunydd o'i amgylch, gan gynnwys cynnwys cyfagos, hysbysebion, cynnwys a argymhellir, sylwadau defnyddwyr, neu ddeunydd deinamig arall a allai ymddangos ar y dudalen gyrchfan".[38]

3.34 Awgrymodd TACC na ddylai'r BBC fod yn gyfrifol am gamau gweithredu pob trydydd parti ond yn hytrach dylai fod yn atebol am ei ddewisiadau golygyddol a dosbarthu ei hun.[39]

3.35 Mynegodd un sefydliad ei gefnogaeth gref i gynnwys deunydd cyfryngau cymdeithasol o dan y Cod newydd, a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â "mynegiant golygyddol camarweiniol neu leddfol".[40]

3.36 Roedd un ymatebydd yn cytuno y dylai Ofcom annog gwahaniaethu rhwng ymyriad golygyddol y BBC a diddordeb o'r newydd mewn darn o ddeunydd ar-lein y BBC, neu hyrwyddo darn o ddeunydd ar-lein y BBC drwy gyfrwng peiriant chwilio trydydd parti. Dywedodd yr ymatebydd hwn fod hyn yn ganolog i ryddid mynegiant a chadwraeth archifol.[41]

3.37 Awgrymodd unigolyn fod ystyried rheolaeth olygyddol resymol ar lwyfannau trydydd parti yn berthnasol i'r canlynol:

> "a oes modd priodoli gweithred ddosbarthu neu hyrwyddo ar wahân i'r BBC, i'r cyd-destun y mae'r defnyddiwr yn dod ar draws y deunydd, i'r camau lliniaru sydd ar gael yn rhesymol i'r BBC ac i ddichonoldeb a chwmpas unrhyw gyfarwyddyd. Ni ddylai fod yn gyfyngiad cyffredinol ar atebolrwydd am gynnwys o fewn y cwmpas y BBC ei hun."[42]

---

[37] Ymateb y BBC, t.1
[38] Ymateb y BBC, t.1
[39] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.8
[40] Enw wedi'i atal 3 ymateb drwy e-bost
[41] Ymateb No Bars Ltd T/A DRIFT, t.6
[42] Ymateb Corvelo, D, t.6

3.38 Roedd hefyd yn awgrymu, er efallai y bydd Ofcom yn gofyn am gamau gweithredu penodol fel tynnu neu newid darn o ddeunydd ar-lein "sy'n cael ei reoli gan y BBC", y dylid bod yn ofalus na ddylid fframio cyfarwyddyd o'r fath "fel gwarant y bydd storfeydd trydydd parti neu ailddosbarthu heb awdurdod yn diflannu." Dywedodd yr ymatebydd hefyd ei bod yr un mor bwysig nodi na ddylai diffyg rheolaeth gan y BBC dros argymhellwr awtonomaidd dynnu cynnwys sylfaenol allan o'r cwmpas.[43]

Ein penderfyniad

3.39 Fe wnaethom amlinellu yn ein Hymgynghoriad ein bod o'r farn bod gan y BBC reolaeth olygyddol dros ddeunydd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys brand y BBC (gan gynnwys cynnwys wedi'i ail-bostio). Yn dibynnu ar y llwyfan trydydd parti unigol, roeddem hefyd o'r farn yn fras y byddai gan y BBC rywfaint o allu i reoli cymedroli ei gyfrifon (er enghraifft, galluogi neu analluogi sylwadau neu rwystro cyfrifon). Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod efallai na fydd gan y BBC reolaeth ehangach dros amgylchedd y llwyfan lle gallai ei ddeunydd ar-lein ymddangos, gan gynnwys elfennau fel polisïau a chanllawiau'r llwyfan trydydd parti, neu algorithmau a systemau argymell.

3.40 Rydym wedi ystyried yr ymatebion a ddaeth i law ac rydym yn dal o'r un farn. Fodd bynnag, rydym wedi egluro ein safbwynt ar hyn yn y Canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod. Yn ein Canllawiau sy'n cyd-fynd â hyn, rydym wedi nodi bod y BBC yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Cod mewn perthynas â chynnwys ar lwyfannau trydydd parti y mae ganddi reolaeth olygyddol drostynt. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gall cynulleidfaoedd ymgysylltu â chynnwys y BBC a gyhoeddir ar lwyfannau sy'n cael eu gweithredu gan sefydliadau eraill. Felly, rydym wedi egluro yn ein Canllawiau, os yw algorithmau llwyfan yn argymell deunydd ar-lein y BBC i ddefnyddwyr ar ei wasanaeth, nid yw hyn yn golygu y dylai'r BBC ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ei ledaenu'n ehangach ar draws y llwyfan. Serch hynny, rydym o'r farn mai'r BBC sy'n gyfrifol yn olygyddol am gyhoeddi ei ddeunydd, am y ffordd mae'r deunydd yn cael ei gyflwyno ar y llwyfan, ac am brofiad defnyddwyr sy'n ymgysylltu â'i ddeunydd o fewn paramedrau y gallai'r BBC eu rhagweld a'u rheoli (er enghraifft, cymedroli sylwadau sy'n gysylltiedig â phostiadau'r BBC).

3.41 I gael rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau hyn, darllenwch ein Canllawiau.

[43] Ymateb Corvelo, D t.6

4. Rheolau Cod Deunydd Ar-lein y BBC

4.1 Fel sy'n cael ei amlinellu uchod, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn mynnu bod Ofcom yn llunio'r Cod ar sail is-set o'r un amcanion statudol sy'n sail i'r Cod Darlledu, gan ei addasu i adlewyrchu nodweddion penodol deunydd ar-lein. Felly, rydym wedi ceisio sicrhau yn ein Hymgynghoriad bod Rheolau'r Cod arfaethedig mor gyson â phosibl â'r rheini yn y Cod Darlledu. Fodd bynnag, pan fo angen, roedd y Rheolau wedi cael eu teilwra i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cynnwys darlledu a deunydd ar-lein y BBC.

4.2 Yn yr adran hon rydym yn rhoi sylw manwl i adrannau'r Cod, gan amlinellu'r cynigion roeddem wedi'u cynnwys yn ein Hymgynghoriad ar yr adrannau penodol, yr ymatebion a gawsom a'n penderfyniadau.

Adran Un: Diogelu Pobl Dan Ddeunaw Oed

Egwyddor: Sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu.[44] Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Un o'r Cod wedi'u cynnwys ar dudalennau 6 i 7 o Atodiad A2.

4.3 Dylid darllen Adran Un ac Adran Dau (Niwed a Thramgwydd) o'r Cod gyda'i gilydd.

4.4 O dan Adran Un arfaethedig y Cod drafft, roeddem wedi addasu'r dull gweithredu yn y Cod Darlledu i wneud y rheolau hyn yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Fe wnaethom ystyried a chrynhoi rhywfaint o'r mesurau diogelu cyffredinol i reolau pobl dan ddeunaw oed, yn ogystal â'r rhai sy'n diogelu hawliau cyfreithiol a lles pobl dan ddeunaw oed.

Rheolau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Un

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

4.5 Roeddem yn cynnig y byddai dwy reol gyffredinol i sicrhau bod pobl ifanc dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu yn y Cod, fel a ganlyn:

- **Rheol 1.1** – roedd y rheol gyffredinol hon yn gwahardd deunydd a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan ddeunaw oed. **Rheol 1.2** – roedd y rheol hon yn adlewyrchu geiriad presennol Rheol 1.2 yn y Cod Darlledu, sy'n nodi'r gofyniad bod yn rhaid i ddarlledwyr "gymryd pob cam rhesymol" i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed. Roedd Rheol arfaethedig 1.2 hefyd yn ymgorffori bwriad Rheol 1.3 y Cod Darlledu, sy'n mynnu bod plant (a ddiffinnir yn y cyd-destun darlledu fel "plant dan bymtheg oed") yn cael eu diogelu rhag deunydd anaddas drwy amserlennu priodol. Gan fod amserlennu yn gysyniad llinol, roedd y rheol arfaethedig yn mynnu bod y BBC yn rhoi "mesurau priodol" ar waith i sicrhau bod cynnwys yn briodol i oedran pobl dan ddeunaw oed.

4.6 Roeddem hefyd yn cynnig y rheolau canlynol:

[44] Mae hyn yn unol ag Adran 319(2)(a) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i'r BBC gadw at adran 319 yn unol â pharagraff 3A(2) o Atodlen 3 i Gytundeb Fframwaith y BBC wedi'i ddiweddaru..

- **Rheolau 1.3** ac **1.4** – mae'r rheolau hyn yn bodoli yn y Cod Darlledu i ddiogelu lles a hawliau cyfreithiol pobl ifanc dan ddeunaw oed sy'n rhan o achosion troseddol neu ymchwiliadau cysylltiedig a allai ddod o dan y BBC. Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi ein barn y byddent yn dal yn bwysig ac yn berthnasol yn yr amgylchedd ar-lein.
- **Rheolau 1.5** i **1.7** – roedd y rheolau hyn yn mynnu bod gofal dyladwy yn cael ei gymryd dros les ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu sy'n ymwneud fel arall â deunydd ar-lein y BBC, ni waeth am unrhyw ganiatâd a roddir gan y cyfranogwr neu gan riant, gwarcheidwad neu berson arall yn lle rhiant. Roeddem hefyd yn cynnig cynnwys rheol ar briodoldeb oedran gwobrau sydd wedi'u hanelu at blant.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.7 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â chynnig Ofcom ar gyfer Adran Un o'r Cod. Fodd bynnag, tynnodd rhai sylw at yr angen am gymesuredd a dod o hyd i gydbwysedd rhwng diogelu a mynediad i bobl dan ddeunaw oed at wybodaeth a allai fod yn fuddiol.[45]

4.8 Rhybuddiodd rhai ymatebwyr yn erbyn dulliau a allai: gyfyngu ar fynediad at wybodaeth addysgol werthfawr; cyfyngu ar fynediad at gynnwys sy'n ymwneud ag iechyd neu gymorth; neu greu rhwystrau diangen i newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.[46] Yn benodol, mynegodd dau ymatebydd bryderon ynghylch y diffiniad o "ddatblygiad moesol"[47] ac a ellid ei ddefnyddio i gyfiawnhau eithrio rhai pynciau o ddeunydd ar-lein y BBC.[48]

4.9 Awgrymodd TACC:

> "ni ddylid trin gwybodaeth gywir sy'n briodol i oedran am bobl draws, hunaniaeth o ran rhywedd, iechyd, diogelu neu gymorth fel gwybodaeth anaddas dim ond oherwydd bod y pwnc yn destun dadlau gwleidyddol. I'r gwrthwyneb, gall trin pobl ifanc draws mewn ffordd syfrdanol, gamarweiniol neu ddiraddiol ynddo'i hun achosi niwed. Felly, dylai'r Cod neu'r canllawiau fynnu asesiad o'r risg o ddod i gysylltiad a'r risg sy'n cael ei chreu drwy gyfyngu ar fynediad." [49]

4.10 Dywedodd y BBC fod BBC News ar-lein wedi'i anelu'n bennaf at gynulleidfa o oedolion ac, er bod rhai erthyglau'n cynnwys rhybuddion cyfarwyddyd, nad yw'r gwasanaeth wedi'i anelu at gynulleidfaoedd ifanc.[50]

4.11 Awgrymodd un ymatebydd:

> "Mae angen pwyslais ar wahân ar newyddion a materion cyfoes. Gall deunydd sy'n peri gofid fod o werth gwirioneddol i fudd y cyhoedd, a gallai rhwystr cyffredinol rwystro pobl ifanc rhag cael gafael ar wybodaeth bwysig. Gall rhybudd clir neu ragolwg llai amlwg fod yn ddigon mewn un achos; gellir cyfiawnhau rheolaeth gryfach lle mae'r deunydd yn ddifrifol, yn hawdd dod ar ei draws allan o'i gyd-destun

[45] Trans Advocacy & Complaints Collective, Corvelo, D., The Writers' Guild of Great Britain.
[46] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.2 a 4 ; Ymateb Corvelo, D, t.3 ; Ymateb The Writers' Guild of Great Britain, t.3
[47] Roedd yr ymadrodd hwn wedi'i gynnwys yn Rheol arfaethedig 1.1 Ofcom – "Rhaid i ddeunydd a allai gael effaith niweidiol ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol, neu foesegol pobl ifanc dan ddeunaw beidio â chael ei gynnwys yn Neunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU y BBC."
[48] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.5 ; Ymateb The Writers' Guild of Great Britain, t.3
[49] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.4
[50] Ymateb y BBC, t.2

ac nad oes ganddo lawer o werth fel gwybodaeth. Dylai'r Cod reoleiddio'r canlyniad yn hytrach na rhagnodi un ymateb". [51]

4.12 Awgrymodd TACC hefyd y dylai Ofcom ddarparu canllawiau i egluro sut bydd y gwahanol ffactorau'n cael eu pwyso a'u mesur yn ymarferol wrth roi'r rheolau hyn ar waith, yn enwedig pan fydd gwrthdaro rhwng diogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed a phreifatrwydd, mynediad at wybodaeth werthfawr neu ystyriaethau lles eraill.[52]

Ein penderfyniad

4.13 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â geiriad a strwythur arfaethedig Adran Un y Cod.

4.14 Rydym yn cydnabod y gallai cydbwyso mesurau diogelu i bobl dan ddeunaw oed â mynediad at wybodaeth a allai fod yn fuddiol fod yn her i'r BBC. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod ein Canllawiau cysylltiedig, sy'n nodi enghreifftiau o ddeunydd ar-lein anaddas, yn cefnogi'r BBC yn ddigonol yn hyn o beth.

4.15 Mewn perthynas â sylwadau ar "ddatblygiad moesol", dim ond un rhan o Reol 1.1 yw'r geiriad hwn. Mae'n adlewyrchu geiriad y rheol debyg sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn y Cod Darlledu, sy'n seiliedig ar gyfraith yr UE a ddargedwir,[53] a'r ddyletswydd y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw gydymffurfio â hi o dan adran 368E o'r Ddeddf. Gan fod y rheol hon wedi'i chynllunio i fod yn gymesur ac yn seiliedig ar gyd-destun wrth ei defnyddio, rydym wedi penderfynu cadw'r geiriad hwn yn y Cod.

Rheolau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig peidio â'u hadlewyrchu yn Adran Un

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

4.16 Roeddem yn cynnig peidio ag adlewyrchu'r diffiniad darlledu o "blant" (o dan 15 oed) ar gyfer deunydd ar-lein, gyda'r Cod yn cyfeirio at "bobl o dan ddeunaw oed" yn unig. Roedd hyn oherwydd nad oedd trothwy 9pm cyfatebol fel sydd ar y teledu ar gyfer deunydd ar-lein, sef yr hyn roedd y diffiniad yn ei gefnogi fel trothwy oedran ar gyfer amserlennu darlledu priodol.

4.17 Roeddem yn cynnig peidio ag adlewyrchu nifer o reolau o Adran Un y Cod Darlledu sydd wedi'u gwreiddio mewn amserlennu darlledu llinol a mynd i'r afael yn fanwl â rhai materion thematig mewn cynnwys, er enghraifft, iaith dramgwyddus, deunydd rhywiol neu noethni.

4.18 Roeddem yn cynnig addasu rhestr o ffactorau sydd wedi'u cynnwys o dan ystyr "amserlennu priodol" yn y Cod Darlledu i gefnogi ystyr cyd-destunol "mesurau priodol [i ddiogelu pobl o dan ddeunaw oed rhag deunydd sy'n anaddas iddynt]" yn y Cod.

4.19 Roeddem yn cydnabod yn ein Hymgynghoriad bod deunydd ar-lein y BBC ynghylch newyddion a materion cyfoes o fudd pwysig i'r cyhoedd, sy'n gyd-destun perthnasol wrth ystyried cynnwys sy'n peri gofid ac sy'n heriol yn y byd go iawn. Felly, fe wnaethom ddweud na fyddem yn disgwyl gormod o gyfyngiadau neu fesurau heb fod angen, ynghylch newyddion neu faterion cyfoes, a fyddai'n ymddangos yn anghymesur neu'n afresymol yn yr amgylchedd ar-lein.

---

[51] Ymateb Corvelo, D. t.7
[52] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.5
[53] Darllenwch Erthygl 6a(1) EUR-Lex - 02010L0013-20181218 - EN - EUR-Lex

4.20 Fe wnaethom hefyd ddweud ein bod o'r farn y byddai'r ffactorau arfaethedig i farnu pa mor briodol yw'r mesurau yn Adran Un (gweler paragraff 4.18 uchod) yn rhoi digon o hyblygrwydd. Fe wnaethom ddweud y byddai hyn yn caniatáu i'r BBC ystyried natur y cynnwys, natur y llwyfan a disgwyliadau tebygol rhieni a gofalwyr, ymysg ffactorau eraill, wrth ystyried pa mor briodol yw mesurau (er enghraifft, rhybuddion neu labelu).

4.21 Roeddem yn cynnig nodi'n fanylach ein dull gweithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes yn y Canllawiau.

4.22 Yn dilyn ein cynnig i addasu a chyfuno Rheolau 1.2 ac 1.3 o'r Cod Darlledu yn un rheol (**Rheol 1.2**), fe wnaethom ddweud, yn ein barn ni, y byddai'r rheol hon yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu'n ddigonol ar gyfer y mathau o ddeunydd y cyfeirir atynt yn Rheolau 1.10 – 1.21 y Cod Darlledu[54]. Felly, roeddem yn cynnig peidio ag ailadrodd y rheolau hyn yn y Cod. Fodd bynnag, er mwyn helpu'r BBC i ddehongli **Rheol 1.2**, roeddem hefyd yn cynnig cynnwys rhestr (heb fod yn gynhwysfawr) yn y Canllawiau hyn o ddeunydd ar-lein a allai fod yn anaddas, y dylai pobl dan ddeunaw oed gael eu diogelu rhagddynt.

4.23 Roeddem yn cynnig peidio ag ailadrodd Rheolau 1.4 - 1.7 y Cod Darlledu yn y Cod gan eu bod yn benodol i'r trothwy ac amserlennu teledu a radio, yn hytrach na'r amgylchedd ar-lein.

4.24 Roeddem hefyd yn cynnig peidio ag ailadrodd Rheolau 1.22 i 1.26 y Cod Darlledu gan eu bod yn mynd i'r afael â ffilmiau a mesurau diogelu gorfodol yn ystod y dydd ar wasanaethau darlledu ac yn benodol i ffilmiau a dosbarthiadau ffilmiau'r BBFC, ac felly nid ydynt yn uniongyrchol berthnasol i ddeunydd ar-lein.

4.25 Yn olaf, roeddem yn cynnig peidio ag adlewyrchu Rheol 1.27 y Cod Darlledu sy'n ymwneud ag arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol. Yn yr Ymgynghoriad, rydym yn nodi ein barn y byddai **Rheol 1.2** gyffredinol y Cod drafft yn debygol o ymdrin ag unrhyw niwed posibl i bobl dan ddeunaw oed sy'n deillio o unrhyw bortreadau o'r fath mewn deunydd ar-lein.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.26 Croesawodd The Writers' Guild of Great Britain ein cynnig i beidio â chyfyngu'r Cod i'r diffiniad penodol o "blant" sy'n ymwneud â darlledu, a dywedodd:

> "Rydym yn croesawu'r penderfyniad i ehangu'r diffiniad o 'blant' i gynnwys pobl dan 18 oed, ond rydym yn credu bod hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach bod rheolau penodol sy'n gysylltiedig ag oedran yn cael eu gosod a'u llywodraethu gan Ofcom, yn hytrach na gadael i'r BBC eu diffinio. Credwn y byddai hyn yn helpu'r BBC i gynnal ymddiriedaeth plant a rhieni". [55]

4.27 Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylai Ofcom fynnu mesurau cydymffurfio penodol i warantu lefel sylfaenol o ddiogelwch, yn hytrach nag awgrymu camau posibl y gallai'r BBC eu cymryd. [56]

4.28 Roedd y BBC yn croesawu esboniad Ofcom yn yr Ymgynghoriad na fyddem yn disgwyl i'r BBC osod gormod o gyfyngiadau neu fesurau heb fod angen, ynghylch newyddion neu

[54] Y Cod Darlledu, Adran Un: Diogelu pobl dan ddeunaw oed (gweler Rheolau 1.10 – 1.21).
[55] Ymateb The Writers' Guild of Great Britain, t.3
[56] Ymateb The Writers' Guild of Great Britain, t.3

faterion cyfoes, a fyddai'n ymddangos yn anghymesur neu'n afresymol yn yr amgylchedd ar-lein.[57]

Ein penderfyniad

4.29 Rydym wedi penderfynu cynnal y sefyllfa a nodir yn ein Hymgynghoriad y bydd dwy reol gyffredinol i sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu. Felly, mae Rheolau 1.2 ac 1.3 presennol y Cod Darlledu wedi cael eu cyfuno yn ein Cod terfynol a byddant yn eu diogelu'n ddigonol rhag y mathau o ddeunydd y cyfeirir atynt yn Rheolau 1.10 – 1.21 ac 1.27 y Cod Darlledu. Am y rhesymau a amlinellir uchod, nid ydym wedi ymgorffori Rheolau 1.4 - 1.7 na Rheolau 1.22 i 1.26 y Cod Darlledu yn y Cod terfynol.

4.30 I gael rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau Ofcom ar gyfer y BBC ynghylch y dull gweithredu ar gyfer mesurau priodol sy'n ymwneud â deunydd newyddion a materion cyfoes a'r rhestr arfaethedig (heb fod yn gynhwysfawr) o enghreifftiau o ddeunydd anaddas, darllenwch ein Canllawiau ("Adran Un: Diogelu Pobl Dan Ddeunaw Oed").

Adran 2: Niwed a Thramgwydd

4.31 Bwriad Adran Dau arfaethedig o'r Cod oedd diogelu aelodau'r cyhoedd rhag deunydd ar-lein y BBC sydd â'r potensial i achosi niwed a/neu dramgwydd. Roeddem yn cynnig adlewyrchu'r rheolau perthnasol o'r Cod Darlledu ond roeddem wedi addasu ystyron i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein yn well ac nid oeddem yn cynnig dyblygu rheolau lle roeddem o'r farn na fyddent naill ai'n berthnasol i ddeunydd ar-lein neu y byddent yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y rheolau cyffredinol.

Egwyddor: sicrhau y bydd y safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at ddeunydd ar-lein y BBC er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus. Mae'r rheolau ar gyfer Adran Dau o'r Cod wedi'u cynnwys ar dudalennau 8 i 10 o Atodiad A2.

Rheolau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Dau

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

Safonau a dderbynnir yn gyffredinol

4.32 Roeddem yn cynnig y dylai **Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3** y Cod drafft adlewyrchu geiriad eu Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3 cyfatebol yn y Cod Darlledu.

4.33 Roedd **Rheol arfaethedig 2.1** yn mynnu bod y safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at ddeunydd ar-lein er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus.

4.34 Roedd **Rheol arfaethedig 2.2** yn mynnu nad yw deunydd neu bortreadau o faterion ffeithiol yn camarwain y gynulleidfa'n sylweddol. Mae'r rheol darlledu gyfatebol wedi'i chynllunio i ddelio â chynnwys sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol er mwyn achosi niwed a thramgwydd ac roeddem yn credu y byddai'r un rhesymeg yn berthnasol i ddeunydd ar-lein. Felly roeddem yn cynnig adlewyrchu'r rheol hon yn y Cod. Pan fydd y Cod Darlledu yn

[57] Ymateb y BBC, t.1

cyfeirio at “raglenni neu eitemau ffeithiol”, roeddem yn cynnig addasu hyn a defnyddio’r term “deunydd ffeithiol” i adlewyrchu’r amgylchedd ar-lein.

4.35 Roedd **Rheol arfaethedig 2.3** yn mynnu bod yn rhaid i’r BBC, wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd yn cael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun, ac y dylid cyhoeddi gwybodaeth briodol hefyd lle byddai hynny’n helpu i osgoi neu leihau tramgwydd. Mae’r un rhesymeg dros ddyblygu’r geiriad hwn o’r Cod Darlledu yn berthnasol i’r rheol hon ag ar gyfer Rheol 2.1 a Rheol 2.2.

4.36 Roedd Adran Dau o’r Cod drafft yn cynnwys rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol roeddem yn cynnig fyddai’n berthnasol i’n hystyriaeth o **Reol 2.3** (a rheolau eraill sy’n gofyn am ystyried cyd-destun) ac a oedd yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar faterion yn ymwneud â chyd-destun y mae’n rhaid i Ofcom roi sylw iddynt o dan adran 319(4) o’r Ddeddf.[58] Yn y Cod Darlledu, mae “cyd-destun” perthnasol yn cynnwys elfennau sy’n nodweddiadol o amgylcheddau darlledu llinol ar gyfer nifer o ddarlledwyr (neu wasanaethau). Felly, nid oeddem wedi trosglwyddo’r ffactorau cyd-destunol penodol hyn o’r Cod Darlledu.

4.37 Roeddem hefyd yn cynnig cynnwys rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol roeddem yn credu fyddai’n berthnasol wrth asesu a gydymffurfiwyd â **Rheol 2.3** (a rheolau eraill sy’n gofyn am ystyried cyd-destun). Roedd y ffactorau cyd-destunol newydd hyn yn cynnwys: fformat a math yr eitem ar-lein; y ffordd y bydd y cynnwys yn cael ei gyflwyno a sut bydd pobl yn dod ar ei draws; oedran y deunydd; ac am ba hyd y mae’r deunydd ar gael.

Trais ac ymddygiad peryglus

4.38 Roedd **Rheol arfaethedig 2.4** y Cod yn ymwneud â deunydd sy’n cymeradwyo neu’n glamoreiddio ymddygiad treisgar neu beryglus neu wrthgymdeithasol difrifol ac sy’n debygol o annog eraill i efelychu ymddygiad o’r fath. Roeddem yn cynnig na ddylid cynnwys deunydd o’r fath yn neunyddiau ar-lein y BBC. Felly, roeddem yn cynnig adlewyrchu’n fras eiriad Rheol 2.4 gyfatebol o’r Cod Darlledu sy’n gwahardd y math hwn o ddeunydd mewn rhaglenni, gan addasu'r geiriad i gynnwys “deunydd” i gyd-fynd â'r amgylchedd ar-lein.

Hunanladdiad a hunan-niwed

4.39 Roedd **Rheol arfaethedig 2.5** y Cod yn gwahardd cynnwys dulliau hunanladdiad a hunan-niwed mewn deunydd ar-lein y BBC, ac eithrio lle mae cyfiawnhad golygyddol drostynt a lle mae’r cyd-destun hefyd yn eu cyfiawnhau. Roeddem yn cynnig adlewyrchu’r diogelwch penodol hwn a throsglwyddo Rheol 2.5 gyfatebol o’r Cod Darlledu. Yn yr un modd ag enghreifftiau eraill yn y Cod drafft, roeddem yn cynnig addasu’r rheol honno a defnyddio “deunydd ar-lein” yn lle “rhaglenni” er mwyn adlewyrchu’r amgylchedd ar-lein. O ystyried pwysigrwydd y rheol hon ar gyfer deunydd ar-lein, roeddem hefyd yn cynnig newid bach i ddull gweithredu’r Cod Darlledu drwy gynnwys pennawd penodol sy’n tynnu sylw at y mater sy’n cael sylw yn y rheol arfaethedig, sef “Hunanladdiad a hunan-niwed”.

Epilepsi ffotosensitif

4.40 Roedd **Rheol arfaethedig 2.6** yn ailadrodd Rheol 2.12 (Epilepsi Ffotosensitif) o’r Cod Darlledu, sy’n ceisio diogelu pobl ag epilepsi ffotosensitif. Fodd bynnag, roeddem yn cynnig dileu’r cyfeiriad penodol at ganllawiau Ofcom mewn perthynas â delweddau sy’n fflachio

[58] Nid yw hon yn rhestr unigryw o faterion, gan fod Adran 319(4) o’r Ddeddf yn datgan bod y rhain yn faterion y mae’n rhaid i Ofcom eu hystyried yn benodol ac i’r graddau y mae’n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau.

gan ein bod yn cydnabod bod deunydd ar-lein y BBC yn cael ei gyrchu drwy amrywiaeth eang o ddyfeisiau a fformatau, ac efallai na fydd canllawiau o'r fath yn berthnasol yn yr amgylchedd ar-lein. Mae ein Canllawiau ("Adran Dau: Niwed a thramgwydd") yn adlewyrchu ein barn, oherwydd gwahaniaethau technolegol, efallai na fydd y profion ar gyfer delweddau sy'n fflachio sy'n berthnasol yn y maes darlledu yn diogelu rhag epilepsi ffotosensitif ymysg y rheini sy'n defnyddio deunydd ar-lein ar draws gwahanol arddangosfeydd ac amgylcheddau gwylio.

Cystadlaethau a phleidleisio

4.41 Roedd **Rheolau arfaethedig 2.7 a 2.8** yn cael eu trosglwyddo o Reolau 2.13 a 2.15 y Cod Darlledu sy'n ymwneud â Chystadlaethau a Phleidleisio.

a) Roedd **Rheol arfaethedig 2.7** wedi'i chynllunio i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag y niwed a allai ddeillio o gystadlaethau annheg neu ymarferion pleidleisio.
b) Roedd **Rheol arfaethedig 2.8** yn mynnu bod y BBC yn llunio rheolau clir a thryloyw ar gyfer cystadleuaeth neu bleidlais er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa'n gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch cymryd rhan.

4.42 Roeddem o'r farn y byddai'r ddwy reol yn berthnasol mewn cyd-destun ar-lein ac roeddem yn cynnig eu cynnwys gydag addasiadau angenrheidiol i gyfeirio at bleidleisio a chystadlaethau "ar-lein".[59]

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

Dull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom ar gyfer Adran Dau

4.43 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno'n fras â chynnig Ofcom y dylai Adran Dau o'r Cod, lle bo hynny'n berthnasol, adlewyrchu geiriad y rheolau cyfatebol yn y Cod Darlledu.[60]

4.44 Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai Ofcom ystyried "niwed cronnus" a phatrymau ar draws deunydd cysylltiedig (er enghraifft, fframio a therminoleg dro ar ôl tro, yn ogystal â dewis ffynonellau dro ar ôl tro) yn hytrach nag asesu eitem ar-lein ar ei phen ei hun.[61]

Ein penderfyniad

4.45 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â geiriad a strwythur arfaethedig Adran Dau y Cod.

4.46 Rydym wedi penderfynu darparu eglurhad pellach yn y Canllawiau ar ein dull gweithredu ar gyfer eitemau ar-lein a chyflwyno cynnwys, gan gynnwys darnau o gynnwys (er enghraifft, penawdau a mân-luniau) (darllenwch "Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein" yn y Canllawiau cysylltiedig).

4.47 O ran yr hyn roedd un ymatebydd yn ei alw'n "niwed cronnus",[62] mae Ofcom yn asesu cwynion am gynnwys darlledu yn erbyn y rheolau yn Adran Dau o'r Cod Darlledu fesul achos ac nid yw'n ystyried effaith gronnus enghreifftiau tebyg o ddeunydd sy'n cael ei ddarlledu dros gyfnod hirach yn gyffredinol. Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r un dull gweithredu ar gyfer rheolau Adran Dau yn y Cod. Fodd bynnag, rydym yn comisiynu ac yn cyhoeddi ymchwil cynulleidfa ar faterion safonau cynnwys ehangach o

[60] BBC, t.1, Corvelo, D. T.9-10, Elliott, E. T.7-8, CAMERA.org, t.4, ACNI Ofcom, t.2, Trans Advocacy & Complaints Collective, t.5.
[61] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.6
[62] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.5

bryd i'w gilydd.[63] Byddwn yn cynnwys deunydd ar-lein y BBC mewn unrhyw waith ymchwil perthnasol o'r fath yn y dyfodol, a allai fynd i'r afael â'r pwynt hwn. Yn yr un modd, bydd dehongliad Ofcom o "safonau a dderbynnir yn gyffredinol" yn gyson ar draws y ddwy set o reolau.

4.48 Rydym hefyd wedi penderfynu darparu eglurhad pellach yn y Canllawiau ar ein dull gweithredu ar gyfer cyfrifoldeb golygyddol y BBC am ddolenni trydydd parti (darllenwch "Themâu cyffredinol ar gyfer deunydd ar-lein" yn y Canllawiau cysylltiedig).

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3

4.49 Dywedodd un ymatebydd na ddylid trin "safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol" fel barn y cyhoedd ar y pryd yn unig ac y dylai Ofcom roi sylw i ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol wrth ddefnyddio Rheol 2.1.[64]

4.50 Tynnodd ymatebydd arall sylw at bwysigrwydd cael canllawiau ategol ar gyfer Rheol 2.2 ynghylch cywiriadau, gan awgrymu y byddai'r amseroldeb a'r lefel ofynnol o amlygrwydd yn dibynnu ar ffactorau fel arwyddocâd y camgymeriad, cyrhaeddiad yr eitem a'r tebygolrwydd o niwed i gynulleidfaoedd. [65] Roedd TACC yn dadlau y dylai gwybodaeth y bwriedir iddi leihau niwed neu dramgwydd fod yn amlwg lle mae'r gynulleidfa'n dod ar draws y deunydd am y tro cyntaf, yn hytrach nag ar ffurf goleddfiad yn nes ymlaen yn yr eitem.[66]

4.51 Rhoddodd pum ymatebydd sylw i'r rhestr anghyflawn o enghreifftiau o ffactorau cyd-destunol yn Rheol 2.3 arfaethedig yn ein Hymgynghoriad.[67] Er bod pawb yn cytuno eu bod yn berthnasol, awgrymodd rhai fod Ofcom yn sicrhau eglurder drwy naill ai eu grwpio i atal camddehongli neu restru rhagor o enghreifftiau sy'n ymwneud yn benodol â deunydd ar-lein.[68] Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: Cyflwyno gallu i chwilio, ailbostio a lleoli a reolir gan y BBC; ailadrodd yr un honiad, delwedd neu fframio i raddau helaeth; bregusrwydd hysbys, anabledd neu iechyd meddwl; digonolrwydd her neu amod; a'r effaith ar gymunedau yn y DU ar adegau pan fo tensiwn cymunedol cynyddol.[69] Dywedodd un ymatebydd, pe bai deunydd yn cael ei ailddosbarthu yn dilyn diddordeb newydd, na fyddai oedran y deunydd o reidrwydd yn lleihau ei effaith ar gynulleidfaoedd. Felly, roedd yr ymatebydd hwn yn argymell bod Ofcom yn darparu canllawiau i wahaniaethu rhwng proses ailgylchredeg weithredol y BBC a thon newydd o ddefnyddwyr yn arwain y broses. [70]

---

[63] Byddwn yn cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwn ar ein gwefan. Mae enghreifftiau'n cynnwys Agweddau'r cyhoedd tuag at iaith sarhaus ar y teledu, a radio a Mesurau diogelu cynulleidfaoedd ar waith: Adolygiad o Fesurau Diogelu Cynulleidfaoedd ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alw.
[64] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, tt.5-6
[65] Ymateb Corvelo, D. tt.10-11
[66] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.7
[67] Corvelo, D, CAMERA.org, Trans Advocacy & Complaints Collective, Ymateb E. Elliott, ACNI Ofcom.
[68] Ymateb Corvelo, D, t.10; Ymateb CAMERA.org, t.4-5; Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.6; Ymateb Elliott, E. tt.4-5
[69] Ymateb Corvelo, D t.10; Ymateb CAMERA.org, tt.4-5; Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.6; Ymateb Elliott, E. tt.4-5
[70] Ymateb Corvelo D. t.10

4.52 Dywedodd yr un ymatebydd y dylai Ofcom egluro'r berthynas rhwng Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3 y Cod ac osgoi defnyddio'r un rhesymeg i gofnodi achosion o dorri nifer o reolau yn erbyn un eitem ar-lein.[71]

4.53 Ni chafodd Ofcom unrhyw ymatebion a oedd yn cyfeirio'n benodol at ein cynigion ar gyfer Rheolau 2.4 -2.8 y Cod.

Ein penderfyniad

4.54 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3 yn y Cod terfynol.

4.55 Rydym yn cydnabod y dylai cynulleidfaoedd, lle bo'n briodol, elwa o wybodaeth neu labelu ynghylch cynnwys er mwyn deall ystyr a chyd-destun priodol deunydd ffeithiol a allai fel arall fod mewn perygl o fod yn sylweddol gamarweiniol ac achosi niwed a/neu dramgwydd. Rydym wedi penderfynu peidio â darparu canllawiau ar gywiriadau mewn perthynas â Rheol 2.2 gan fod y rheol a'r amcan safonau perthnasol yn seiliedig ar safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol yn hytrach na phennu mesurau adfer fel cywiriadau. Mae ein Canllawiau ar "Adran Dau: Niwed a thramgwydd" yn nodi hyn yn fanylach.

4.56 Er ein bod yn cydnabod ceisiadau ymatebwyr i ehangu'r rhestr o ffactorau cyd-destunol yn Rheol 2.3, rydym o'r farn mai adlewyrchu ffactorau cyd-destunol o'r Cod Darlledu a'u diwygio dim ond lle bo angen (er enghraifft, ar gyfer perthnasedd) yw'r ffordd orau o sicrhau dull gweithredu cyson rhwng cynnwys ar-lein a chynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Rydym hefyd wedi egluro nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac, er ein bod yn nodi gwerth rhai o'r ffactorau y mae ymatebwyr wedi awgrymu eu cynnwys, rydym yn credu eu bod yn benodol i fater ac yn fanwl mewn ffordd a fyddai'n awgrymu ein bod yn ailaddasu safonau o amgylch yr hyn a allai fod yn gyfiawnhad posibl dros dramgwydd. Gan na fyddai hyn yn cyd-fynd â'n nod canolog o adlewyrchu rheolau presennol y Cod Darlledu i gyflawni'r un amcanion safonau sylfaenol, byddwn yn bwrw ymlaen â'r ffactorau cyd-destunol sydd wedi'u nodi yn y Cod.

4.57 Mae ein Canllawiau'n cadarnhau bod y materion sy'n cael sylw yn rheolau'r Cod Darlledu, rydym wedi penderfynu peidio â'u hefelychu yn y Cod, yn dal i gael eu cynnwys yn yr egwyddorion cyffredinol sy'n cael eu hadlewyrchu yn Rheolau 2.1. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, mae Canllawiau Ofcom yn egluro bod Rheol 2.1 yn adlewyrchu egwyddor gyffredinol Adran Dau, sef sicrhau mesur diogelwch digonol i'r cyhoedd drwy gymhwyso safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Bydd rheolau eraill fel Rheolau 2.2 a 2.3 hefyd yn adlewyrchu'r un egwyddor, ond yn canolbwyntio ar feysydd penodol, a dyna pam y gallai achos posibl o dorri'r Cod ddefnyddio'r rheol benodol a'r rheol gyffredinol ym mhenderfyniad Ofcom.

Rheolau'r Cod Darlledu na fyddwn yn eu hadlewyrchu yn Adran Dau

4.58 Yn ein Hymgynghoriad, rydym yn cynnig peidio â throsglwyddo Rheolau 2.6 i 2.11 o'r Cod Darlledu i'r Cod. Roedd hyn oherwydd, fel roeddem wedi'i ddweud yn ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Cod drafft, ein bod yn credu nad oedd rhai rheolau darlledu yn berthnasol nac yn angenrheidiol i sicrhau amcan y safonau fel y mae'n berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Roeddem hefyd wedi dweud, lle rydym yn credu y gallai rheol

[71] Ymateb Corvelo, D, t.11

gyffredinol mewn unrhyw adran ddiogelu deunydd ar-lein yn ddigonol, roeddem yn cynnig peidio â chadw'r rheol fwy penodol neu ragnodol. Roeddem yn defnyddio'r rhesymeg hon gyda rheolau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig peidio â'u hadlewyrchu yn Adran Dau o'r Cod.

4.59 Cafodd Rheolau 2.6, 2.7 a 2.8 y Cod Darlledu (arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol) eu datblygu ar gyfer cyd-destun darlledu penodol, lle mae genres a oedd yn cynnwys arddangosiadau goruwchnaturiol neu ocwlt yn fwy cyffredin ac a allai beri risg o niwed a/neu gamarwain cynulleidfaoedd. Nid yw cynnwys o'r fath yn nodwedd reolaidd yn neunydd ar-lein y BBC, sydd o natur ffeithiol, golygyddol a newyddion yn bennaf. O ganlyniad, rydym o'r farn bod y tebygolrwydd y bydd pobl yn dod ar draws y math hwn o ddeunydd yn isel ac, os bydd unrhyw niwed posibl, gallai hyn gael sylw o dan **Reolau 2.1 a 2.2** ac Adran Un yn ehangach.

4.60 Cafodd Rheol 2.9 y Cod Darlledu (Hypnotiaeth) ei throsglwyddo'n wreiddiol o hen godau ar sail ragofalus.[72] Mae'r rheol hon yn mynd i'r afael â'r lefel briodol o gyfrifoldeb sy'n ofynnol mewn deunydd sy'n arddangos technegau hypnotig. Mae Rheol 2.10 (Newyddion dynwaredol) y Cod Darlledu yn rhoi sylw i newyddion dynwaredol (er enghraifft, mewn dramâu neu mewn rhaglenni dogfen) sy'n cael eu darlledu yn y fath fodd fel nad oes posibilrwydd rhesymol y bydd y gynulleidfa'n cael ei chamarwain i gredu ei bod yn gwylio neu'n gwrando ar newyddion go iawn. Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.58, roeddem yn cynnig peidio â chario'r rheolau hyn o'r Cod Darlledu drosodd.

4.61 Mae Rheol 2.11 yn y Cod Darlledu yn nodi bod yn rhaid i ddarlledwyr beidio â defnyddio technegau sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges isganfyddol i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd. Mae'r rhesymeg a nodir ym mharagraff 4.58 hefyd yn berthnasol yma, er bod Rheol 2.11 o'r Cod Darlledu hefyd yn seiliedig ar amcan safonau nad oes angen ei sicrhau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.[73] Felly, nid oeddem yn cynnig trosglwyddo Rheol 2.11 o'r Cod Darlledu drosodd i'r Cod.

4.62 Hefyd, nid oeddem yn bwriadu trosglwyddo Rheolau 2.14 (cystadlaethau/pleidleisio camarweiniol) a Rheol 2.16 (disgrifiad cywir o wobrau) o'r Cod Darlledu. Mae'r ddwy reol hyn yn mynd i'r afael â'r risg o niwed i'r gynulleidfa sy'n deillio o wybodaeth ffeithiol gamarweiniol mewn cystadlaethau neu bleidleisiau. Mae fformatau cystadleuaeth ar-lein y BBC yn gyfyngedig ac fel arfer yn cael eu rheoli gan delerau cystadleuaeth a gyhoeddir. Felly, roeddem o'r farn y byddai ailadrodd y rheolau hyn yn arwain at ddyblygu diangen. Roeddem hefyd o'r farn bod y niwed hwn eisoes yn cael sylw gan y **Rheolau 2.1 a 2.2** cyffredinol arfaethedig.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.63 Ni wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr sylwadau ar y cynnig i beidio ag adlewyrchu'r Rheolau adran dau hyn o'r Cod Darlledu yn y Cod. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r cynnig i beidio â chynnwys rheolau Cod Darlledu sy'n fwy penodol i genre, dywedodd un ymatebydd y dylai canllawiau gadarnhau y bydd y materion sy'n cael sylw yn y rheolau hyn yn y Cod Darlledu

[72] Ymgynghoriad ar God Darlledu arfaethedig Ofcom (2004).

[73] Edrychwch ar adran 319(2)(l) o'r Ddeddf, sy'n gofyn, mewn perthynas â gwasanaethau radio a theledu, nad yw technegau'n cael eu defnyddio sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd.

yn dod o dan egwyddorion cyffredinol Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3 os bydd y rheol gyffredinol yn mynd i'r afael â'r mater. Ychwanegodd, pe bai atebolrwydd fel arall yn dibynnu ar "ddehongliad newydd ac ansicr", yna mewn achosion o'r fath "ni ddylai canllawiau fynd ati'n dawel i adfer rheol sydd wedi'i dileu". [74]

Ein penderfyniad

4.64 Rydym wedi penderfynu cynnal ein safbwynt yn yr Ymgynghoriad ac nid ydym wedi ymgorffori Rheolau 2.6 i 2.11, na Rheolau 2.14 a 2.16 yn y Cod. Ein rhesymeg o hyd yw y gallai fod yn ddigon i reol gyffredinol ddarparu digon o ddiogelwch mewn rhai achosion. Mewn achosion eraill, efallai na fydd rheolau neu faterion penodol nad ydym wedi'u hadlewyrchu yn y Cod yn berthnasol nac yn briodol yn amgylchedd ar-lein y BBC.

4.65 Mae'r Canllawiau (Adran Dau: Niwed a thramgwydd) cysylltiedig yn cadarnhau bod egwyddorion cyffredinol Rheol 2.1 yn berthnasol i unrhyw fath o ddeunydd a allai fod yn niweidiol a/neu'n dramgwyddus, p'un a gyfeirir at y math o ddeunydd mewn rheol benodol yn y Cod ai peidio.

Adran 3: Trosedd, Casineb, Anhrefn a Chamdriniaeth

Egwyddor: nid yw deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn wedi'i gynnwys[75]; a bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu defnyddio gyda Deunydd Ar-lein y BBC er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol.[76]

4.66 Mae Adran Tri o'r Cod Darlledu yn ymdrin â deunydd sy'n debygol o ysgogi troseddu neu anhrefn, gan adlewyrchu dyletswydd Ofcom i wahardd darlledu'r math hwn o raglenni.

4.67 Gan fod amcan y safonau sylfaenol yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC, roeddem yn credu bod y mesurau diogelu a roddir drwy bob un o'r rheolau yn Adran Tri o'r Cod Darlledu yn berthnasol iawn yn yr amgylchedd ar-lein. Felly, roeddem yn cynnig adlewyrchu'r rheolau hyn heb unrhyw newidiadau sylweddol ar gyfer Adran Tri o'r Cod. Fodd bynnag, roeddem yn cynnig addasu rhywfaint o'r iaith ac addasu rhai ystyron er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein yn well.

Y dull gweithredu cyffredinol arfaethedig a rheolau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Tri

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

4.68 Roedd **Rheol arfaethedig 3.1** y Cod yn gwahardd deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn rhag cael eu cynnwys mewn deunydd ar-lein y BBC. Roedd hyn yn efelychu Rheol 3.1 yn y Cod Darlledu, gyda'r addasiad angenrheidiol i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein.

4.69 Mae'r Adran arfaethedig hon yn cynnwys rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol sylweddol roeddem yn credu allai fod yn berthnasol wrth i ni ystyried **Rheol arfaethedig 3.1**. Wrth nodi'r ffactorau arfaethedig hyn, rydym wedi adlewyrchu geiriad y Cod Darlledu,

[74] Ymateb Corvelo, D. t.11
[75] Adran 319(2)(b) o'r Ddeddf
[76] Adran 319(2)(f) o'r Ddeddf.

gydag addasiadau angenrheidiol i gyd-fynd ag amgylchedd ar-lein y BBC. Roedd y rhain yn cynnwys:

- diben golygyddol yr eitem ar-lein;
- statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd; a/neu
- a oes digon o her yn cael ei ddarparu i'r deunydd.

4.70 O ystyried y gall deunydd ar-lein gynnwys nifer o eitemau ar-lein amrywiol a darniog y gallai'r gynulleidfa ddod ar eu traws mewn gwahanol ffyrdd, roeddem yn cydnabod y gallai'r ffactorau cyd-destunol hyn weithredu'n eithaf gwahanol i'r amgylchedd darlledu yn ymarferol. Felly, roeddem yn gofyn am ymatebion ar ba ganllawiau allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi'r BBC a chynulleidfaoedd i ddeall sut gallai'r ffactorau cyd-destunol hyn weithio'n ymarferol ar gyfer deunydd ar-lein y BBC.

4.71 Gan gofio bod gwahanol fathau o ddeunydd ar-lein, fel erthyglau testun neu glipiau fideo, fe wnaethom amlinellu yn ein Hymgynghoriad y byddai canllawiau'n rhoi rhagor o fanylion am sut dylid asesu ffactorau cyd-destunol, fel "diben golygyddol", "statws neu safle unrhyw un dan sylw" ac y "cynigir digon o her", ar gyfer eitemau ar-lein. Fe wnaethom hefyd ofyn a allai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau awgrymu ffactorau cyd-destunol eraill a allai hefyd fod yn berthnasol mewn amgylchedd ar-lein.

4.72 Roedd **Rheol arfaethedig 3.2** (iaith casineb) a **Rheol arfaethedig 3.3** (triniaeth ddifrïol neu ddirmygus) yn adlewyrchu amcan y safonau o ran diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol. Yn yr un modd â'r Cod Darlledu, roedd y rheolau hyn wedi'u cynllunio i ddiogelu pobl rhag iaith casineb a rhag trin unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau'n ddifrïol neu'r ddirmygus. O dan y rheolau arfaethedig, ni ddylid cynnwys deunydd sy'n cynnwys yr elfennau hyn yn neunydd ar-lein y BBC ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn cyfiawnhau hynny. Roeddem yn credu bod y rheolau hyn yn berthnasol iawn i'r amgylchedd ar-lein.

4.73 Mae rheolau cyfatebol y Cod Darlledu yn cynnwys rhestr (nad yw'n gynhwysfawr) o ffactorau cyd-destunol roeddem yn credu fyddai'n berthnasol wrth asesu cydymffurfiad â **Rheolau 3.2 a 3.3**. Gan ddefnyddio'r ffactorau yn adran 319(4), fe wnaethom nodi rhestr wedi'i haddasu, nad yw'n gynhwysfawr, o ffactorau cyd-destunol allweddol i helpu i egluro ystyr "cyd-destun" wrth gymhwyso'r rheolau hyn i ddeunydd ar-lein.[77]

4.74 Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cydnabod gwerth budd y cyhoedd mewn newyddion a materion cyfoes ac yn dweud, pan fydd y math hwn o ddeunydd yn cael ei ystyried o dan y rheolau hyn, y byddem yn ystyried pwysigrwydd genre a chyd-destun golygyddol eitem ar-lein o'r fath (neu gyfres o eitemau ar-lein gyda'i gilydd). Felly, roeddem yn cynnig cynnwys newyddion a materion cyfoes (ochr yn ochr â genres eraill fel drama, comedi neu ddychan) yn y rhestr heb fod yn gynhwysfawr o ffactorau cyd-destunol, fel enghraifft o genre o'r fath lle gallai fod cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys safbwyntiau heriol neu eithafol.

4.75 Dyma ffactorau cyd-destunol eraill roeddem yn cynnig eu cynnwys:

- y graddau y cynigiwyd digon o her;
- statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd ar-lein;
- y ffordd roedd y cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod;
- natur y mynediad i'r cynnwys; a

[77] Roeddem wedi ystyried y materion a nodir yn Adran 319(4) o'r Ddeddf wrth gynnig y rhestr hon o ffactorau cyd-destunol.

- maint a chyfansoddiad tebygol a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa.

4.76 Roedd y ffactorau cyd-destunol arfaethedig hyn yn adlewyrchu ystyriaethau presennol yn y Cod Darlledu roeddem o'r farn oedd yn dal yn berthnasol i'r amgylchedd ar-lein, gyda rhai addasiadau i adlewyrchu'r newid o ddarlledu. Fel y cyfeirir ato eisoes yn yr adran hon, roeddem yn cynnig defnyddio canllawiau i roi manylion ynghylch sut gallai'r rhain, a ffactorau eraill, weithio'n ymarferol ar gyfer deunydd ar-lein y BBC.

4.77 Roedd **Rheolau arfaethedig 3.4 i 3.8** yn ymwneud â phortreadau o droseddu ac achosion troseddol. Roeddent yn adlewyrchu'n fras y rheolau cyfatebol yn y Cod Darlledu, gan addasu terminoleg i ddeunydd ar-lein, gan ein bod o'r farn bod y mesurau diogelu hyn yr un mor berthnasol mewn cyd-destun ar-lein.

4.78 Roedd **Rheol arfaethedig 3.4** yn gwahardd rhag deunydd ar-lein y BBC, unrhyw ddisgrifiadau neu arddangosiadau o dechnegau troseddol sy'n cynnwys manylion hanfodol a allai arwain at droseddu, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

4.79 Roedd **Rheol arfaethedig 3.5** yn gwahardd gwneud taliadau uniongyrchol neu anuniongyrchol i droseddwyr sydd wedi cyfaddef i drosedd neu a gafwyd yn euog o drosedd mewn cysylltiad â'u cyfraniad at gynhyrchu deunydd ar-lein sy'n ymwneud â'u trosedd(au). Yr unig eithriad roeddem yn ei gynnig oedd pan fyddai hynny er budd y cyhoedd.

4.80 Roedd **Rheolau arfaethedig 3.6 a 3.7** yn adlewyrchu cyfyngiadau ar dalu troseddwyr sydd wedi cyfaddef i drosedd neu a gafwyd yn euog o drosedd am gyfraniad at raglen, yn ogystal â thystion mewn achosion gweithredol ac unigolion y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddod yn dystion. Bwriad y rheolau hyn oedd amddiffyn uniondeb y broses cyfiawnder troseddol a thegwch achosion.

4.81 Roedd **Rheol arfaethedig 3.8** yn mynnu bod y BBC yn gwneud pob ymdrech i beidio â phostio deunydd a allai beryglu bywydau neu arwain at ymdrechion llwyddiannus i ddelio ag achos o gipio neu herwgipio.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

Dull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom ar gyfer Adran Tri

4.82 Roedd pedwar ymatebydd yn cytuno â chynnig Ofcom y dylai'r rheolau yn Adran Tri o'r Cod Darlledu gael eu hailadrodd yn y Cod, gan gynnwys newidiadau angenrheidiol i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein.[78]

4.83 Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau arfaethedig nodi ffactorau cyd-destunol penodol yn ei ddull gweithredu ar gyfer Adran Tri. Dywedodd, "dylai Ofcom gydnabod bod modd creu triniaeth ddifrïol neu ddirmygus drwy ailadrodd, cyfosod a mynegiant penodol hyd yn oed pan nad yw'r BBC ei hun yn defnyddio sarhad." [79]

4.84 Gofynnodd un ymatebydd i Ofcom egluro ei ddull gweithredu ar gyfer "gorgyffwrdd". Dywedodd y gellid "honni bod un darn yn sarhaus, yn ddifrïol ac yn annog cynnwys anghyfreithlon". Yn y sefyllfa hon, roedd yn dadlau mai "dim ond pan fydd elfennau a niwed penodol yn cael eu sefydlu y gellir cyfiawnhau canfyddiadau ar wahân."[80]

[78] Corvelo, D. CAMERA.org, ACNI Ofcom, Trans Advocacy & Complaints Collective.
[79] Ymateb Elliott, E. t.5
[80] Ymateb Corvelo, D. t.12

4.85 Awgrymodd yr un ymatebydd hefyd y byddai “her ddigonol” fel ffactor cyd-destunol yn “dibynnu ar fformat: gall cyfweliad byw, adroddiad testun, dyfyniad byr, eitem archifol a rhaglen ddogfen gyflawni'r diben golygyddol mewn ffyrdd gwahanol. Dylai Ofcom asesu'r trefniant golygyddol cyflawn a'r darn a reolir gan y BBC sydd wedi'i ddosbarthu mewn gwirionedd”.[81]

4.86 Gofynnodd dau ymatebydd i'r canllawiau gydnabod ac ystyried y risg y gallai dod i gysylltiad ag eitemau ar-lein dro ar ôl tro arwain at greu argraff gronnus, a allai fod yn wahanol i bob eitem ar ei phen ei hun.[82]

4.87 Dadleuodd CAMERA.org y dylai'r canllawiau fynd ymhellach drwy gydnabod y risg o ddarparu “llwyfan anfeirniadol i ffigur awdurdodol wneud honiadau eithafol, ymfflamychol neu niweidiol ynghylch grŵp cenedlaethol, ethnig neu grefyddol adnabyddadwy”.[83]

Ein penderfyniad

4.88 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â geiriad a strwythur arfaethedig Adran Tri y Cod. O ran yr hyn roedd un ymatebydd yn ei alw'n “argraff gronnus”, fel y nodir yn yr adran penderfyniad ynghylch Adran Dau y Cod, mae Ofcom yn asesu cwynion am gynnwys darlledu yn erbyn y rheolau yn Adran Tri o'r Cod Darlledu fesul achos, ac nid yw'n ystyried effaith gronnus enghreifftiau tebyg o ddeunydd sy'n cael ei ddarlledu dros gyfnod hirach yn gyffredinol.

4.89 Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y ffordd y ceir gafael ar ddeunydd ar-lein a deunydd a ddarlledir. Felly, mae ein Canllawiau yn datgan y bydd ffactorau fel i ba raddau y rhoddir digon o her i ddeunydd yn amrywio yn dibynnu ar a yw'n erthygl ysgrifenedig neu'n glip clyweledol tebyg i raglen, er enghraifft.

4.90 Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r un dull o weithredu rheolau Adran Tri yn y Cod. Fodd bynnag, mae ein Canllawiau yn egluro y byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried nid yn unig natur y deunydd, ond hefyd brofiad y gynulleidfa ar-lein o ran sut mae'n dod ar draws y deunydd ar wahanol wasanaethau, llwyfannau a dyfeisiau.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

Rheol 3.1

4.91 Roedd dau ymatebydd yn cytuno'n fras â chynnwys y tri ffactor cyd-destunol arfaethedig a oedd wedi'u trosglwyddo o'r Cod Darlledu mewn perthynas â'n Rheol arfaethedig 3.1.[84] Roedd eraill hefyd yn cytuno ond yn dweud y byddai rhagor o eglurder ynghylch sut byddai Ofcom yn ystyried y ffactorau cyd-destunol hyn yn werthfawr mewn canllawiau.[85] Er enghraifft, awgrymwyd bod y canllawiau'n tynnu sylw at y ffaith y byddai statws neu awdurdod canfyddedig siaradwr yn ffactor perthnasol, ond nid pendant, ac y dylid gwahaniaethu rhwng arbenigedd perthnasol ac awdurdod sefydliadol neu statws byd-enwog.[86]

4.92 Argymhellodd un ymatebydd fod y canllawiau'n tanlinellu pwysigrwydd bod cynulleidfaoedd yn gallu cydnabod y gwahaniaeth rhwng cyflwyno safbwynt dadleuol i'w

[81] Ymateb Corvelo, D. t.11
[82] Ymateb Corvelo, D t.21; Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.7
[83] Ymateb CAMERA.org, t.5
[84] Ymateb Corvelo, t.11; Ymateb ACNI Ofcom, t.2
[85] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.7; Ymateb CAMERA.org, t.5
[86] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.7

archwilio a'i ddewis neu ei gymeradwyo.[87] Roedd ffactorau cyd-destunol ychwanegol eraill a awgrymwyd ar gyfer y canllawiau yn cynnwys: difrifoldeb a sail dystiolaethol yr honiadau; bodolaeth tensiynau cymunedol dwysach; a defnyddio trosiadau cas neu niweidiol cydnabyddedig.[88]

4.93 Gofynnodd nifer o ymatebwyr i Ofcom roi rhagor o arweiniad ar yr hyn mae'n ei ystyried yn "her ddigonol"[89] [90], gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu bod Ofcom yn cynnwys ffactorau fel agosrwydd ac amseru, fformat yr eitem (fel a yw'n fyw neu'n ddeunydd sy'n cael ei ddiweddaru'n gyflym) a chryfder yr her ei hun.[91]

Ein penderfyniad

4.94 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheol 3.1. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, rydym wedi egluro yn y Canllawiau cysylltiedig sut gallai'r ffactorau cyd-destunol sylweddol sy'n cefnogi Rheol 3.1 fod yn berthnasol mewn amgylchedd ar-lein. Rydym hefyd wedi egluro rhywfaint yn y Canllawiau ar ddefnyddio "her ddigonol" yn wahanol fel y nodir yn ein penderfyniad ar y dull cyffredinol o ymdrin ag Adran Tri ym mharagraffau 4.89-4.90.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

Rheolau 3.2 a 3.3

4.95 Mynegodd tri ymatebydd gefnogaeth gyffredinol i'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 3.2 a 3.3[92] a gwnaeth rhai awgrymiadau ynghylch beth ddylai'r canllawiau cysylltiedig ar y rheolau hyn ei gynnwys.[93] Argymhellwyd y dylai'r canllawiau egluro'r ffin rhwng beirniadaeth gadarn a thriniaeth ddifrïol,[94] gydag un ymatebydd yn dadlau bod canllawiau manwl yn bwysig oherwydd "y bydd yr eithriad cyd-destunol yn effeithio'n sylweddol ar Reolau 3.2 a 3.3".[95]

4.96 Dywedodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau gadarnhau y byddai Rheolau 3.2 a 3.3 yn ymdrin â thriniaeth ddifrïol ar draws amrywiaeth o fformatau a mynegiadau gan gynnwys delweddau, capsiynau, cymariaethau, ensyniad neu gwestiynu dilysrwydd grŵp dro ar ôl tro.[96]

4.97 Mynegodd ymatebydd arall bryder nad oedd cynnwys dramatig ac wedi'i sgriptio wedi'i wahanu'n ddigonol oddi wrth newyddion a materion cyfoes yn y rhestr arfaethedig o ffactorau cyd-destunol ar gyfer Rheolau 3.2 a 3.3. Roedd yn awgrymu y gallai diffyg eglurder arwain at gymhwyso rheoleiddio'n amhriodol er mwyn cyfyngu ar gynnwys cyfreithlon.[97]

---

[87] Ymateb Corvelo, D, t.12
[88] Ymateb CAMERA.org, t.5
[89] Roedd hyn yn gysylltiedig ag ystyr arfaethedig Ofcom yn y rhan o Reol 3.1 a oedd yn cyfeirio at ddeunydd a oedd yn "debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn". Roedd ystyr arfaethedig Ofcom o hyn yn ein Hymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriad at y ffactor cyd-destunol arfaethedig sef "a oes digon o her yn cael ei rhoi i'r deunydd."
[90] Ymateb CAMERA.org, t.6
[91] Ymateb Corvelo, D, t.12; Ymateb Trans Advocacy & Collective, t.8
[92] Ymateb Corvelo, D, tt.11-12; Ymateb Elliott, E t.5; Ymateb ACNI Ofcom, t.2
[93] Ymateb Corvelo, D , tt.11-12; Ymateb Elliott, E. t.5; Ymateb ACNI Ofcom, t.2; Ymateb CAMERA.org, tt.5-6; Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, tt.7-8
[94] Ymateb Corvelo, D, t.12
[95] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.7
[96] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.8
[97] Ymateb The Writers' Guild of Great Britain, t.3

Ein penderfyniad

4.98 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 3.2 a 3.3 yn y Cod. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, mae Canllawiau Ofcom i Reolau 3.2 a 3.3 yn adlewyrchu ein disgwyliad y dylai'r BBC, wrth ystyried cyd-destun, ddeall natur benodol y deunydd ei hun, fel a yw'n erthygl ysgrifenedig neu'n glip fideo, yn ogystal â phrofiad y gynulleidfa ar-lein a sut mae'n dod ar draws y deunydd ar draws gwahanol wasanaethau, llwyfannau a dyfeisiau.

4.99 Roedd y ffactorau cyd-destunol arfaethedig ar gyfer Rheolau 3.2 a 3.3 yn nodi genres ar wahân lle byddai cyfiawnhad golygyddol tebygol dros safbwyntiau mwy heriol neu eithafol. Nid ydym yn credu bod y cyfosodiad arfaethedig o "newyddion a materion cyfoes" gyda "drama, comedi neu ddychan" yn awgrymu bod y genres hyn yn rhoi'r un lefel o gyd-destun neu fod ganddynt ddisgwyliadau tebyg ymysg cynulleidfaoedd. Felly, rydym wedi penderfynu cwblhau'r rhestr o ffactorau cyd-destunol fel y'i cynigir yn y Cod drafft.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr – Rheolau 3.4 – 3.8

4.100 Nid oedd ymatebwyr i'r Adran hon o'r Cod drafft yn cyfeirio'n benodol at ein cynigion ar gyfer Rheolau 3.4 – 3.8.

Ein penderfyniad

4.101 Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 3.4 – Rheol 3.8 y Cod.

Adran Pedwar: Crefydd

Egwyddor: sicrhau bod y BBC yn arfer cyfrifoldeb priodol mewn perthynas â deunydd ar-lein sy'n eitemau crefyddol ar-lein[98]; nad yw eitemau crefyddol ar-lein yn camfanteisio'n amhriodol ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa[99]; ac nad yw safbwyntiau a chredoau crefyddol y rheini sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol yn cael eu trin yn ddifrïol.[100] Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Pedwar y Cod wedi'u cynnwys ar dudalen 14 yn Atodiad 2.

Yr hyn roeddem yn ei gynnig – dull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom ar gyfer Adran Pedwar

4.102 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom egluro bod amcanion y safonau sy'n sail i Adran Pedwar o'r Cod Darlledu yn gymwys ac yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Roeddem yn cynnig y dylai'r amcanion hynny gael eu hadlewyrchu mewn tair rheol gyffredinol (Rheolau 4.1, 4.2 a 4.3) yn y Cod i ddarparu mesurau diogelu digonol a chymesur i gynulleidfaoedd ar-lein.

4.103 Roeddem yn cynnig defnyddio'r term "eitemau crefyddol ar-lein" ar draws y rheolau cyffredinol hyn i ymdrin â deunydd sy'n delio â chrefydd fel pwnc canolog, neu fel rhan sylweddol o hynny. Byddai hyn yn golygu y byddai eitemau sy'n cynnwys deunydd defosiynol yn unig, gweithredoedd addoli neu fyfyrio gweddïol, yn ogystal ag eitemau eraill, fel materion cyfoes neu gynnwys hanesyddol lle mae crefydd neu gred yn rhan sylweddol o hynny, o fewn y cwmpas. Roeddem yn cydnabod nad yw'r math hwn o ddeunydd yn

[98] Adran 319(2)(e) o'r Ddeddf.
[99] Adran 319(6)(a) o'r Ddeddf.
[100] Adran 319(6)(b) o'r Ddeddf.

nodweddiadol o allbwn ar-lein y BBC, ac mai ychydig iawn o eitemau crefyddol ar-lein roeddem yn disgwyl iddynt ddod o dan y rheolau arfaethedig hyn.

4.104 Fe wnaethom egluro nad oedd ein cynigion yn adlewyrchu rheolau presennol yn Adran Pedwar o'r Cod Darlledu, sy'n mynd i'r afael â phryderon neilltuol sy'n ymwneud yn arbennig â mathau penodol o raglenni arbenigol sydd ar gael ar wasanaethau darlledu.[101] Roeddem o'r farn, pe bai unrhyw bryderon o'r fath yn codi mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC, y gellid mynd i'r afael â nhw o dan gwmpas Rheolau arfaethedig 4.1, 4.2 a 4.3 y Cod ac Adran Un arfaethedig y Cod. Fe wnaethom rannu ein barn y byddai'r dull hwn yn ddigon i alluogi'r BBC i arfer ei gyfrifoldebau priodol dros eitemau crefyddol ar-lein ac i sicrhau mesurau diogelu ar gyfer cynulleidfaoedd rhag camfanteisio amhriodol a thriniaeth ddifrïol ar sail eu barn a'u credoau crefyddol.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.105 At ei gilydd roedd yr ymatebwyr yn cefnogi dull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom ar gyfer Adran Pedwar o'r Cod, gyda rhai awgrymiadau pellach ar gyfer cymwysterau'n cael eu darparu.[102] Roedd TACC yn cytuno bod cael tair rheol gyffredinol yn Adran Pedwar yn rhoi sail gymesur i'r Cod fod yn effeithiol o ran amddiffyn "rhag triniaeth amhriodol a difrïol a chynnal beirniadaeth, dadl a rhyddid mynegiant dilys ar yr un pryd".[103]

4.106 Roedd ymatebydd arall yn cytuno â'n cynnig y dylai'r term "eitemau crefyddol ar-lein" fod yn berthnasol i gynnwys cwbl ddefosiynol, gweithredoedd addoli neu fyfyrio gweddïol, yn ogystal â mathau eraill o ddeunydd, fel "materion cyfoes neu gynnwys hanesyddol lle mae crefydd yn rhan sylweddol o hynny".[104] Ychwanegodd y dylai'r cyfle i asesu deunydd o'r fath ystyried ffactorau cyd-destunol, fel "beirniadaeth, dychan ac adroddiadau er budd y cyhoedd". Roedd hefyd yn awgrymu na ddylai'r Cod "ddod yn bŵer cyffredinol i fynnu cydbwysedd diwinyddol neu i atal ymdriniaeth feirniadol". Eglurodd, "pan fydd effeithiau ar gydraddoldeb yn cael eu hystyried, dylai Ofcom brofi a yw'r un egwyddorion yn gwarchod crefyddau lleiafrifol a chredoau nad ydynt yn rhai crefyddol heb ddefnyddio trothwy is ar gyfer safbwyntiau dadleuol neu anghyfarwydd." Awgrymodd yr ymatebydd hwn ymhellach y dylid darparu canllawiau i egluro: pryd bydd eitemau ar-lein yn cael eu hystyried fel rhai sy'n mynd i'r afael â chrefydd fel pwnc canolog neu fel arall; trin eitemau ar-lein sy'n cael eu defnyddio'n annibynnol ar eu deunydd gwreiddiol; a sut mae gwahaniaethu rhwng cyfrifon personol neu ddatganiadau cred a hawliadau diamod a allai achosi niwed.[105]

4.107 Dywedodd ymatebydd arall fod y diffiniad arfaethedig o "eitem grefyddol ar-lein" yn rhy eang ac y gellid ei ddeall mewn ffyrdd "y gellid ei ddefnyddio i fygu beirniadaeth ddilys o grwpiau ac arferion crefyddol." Roedd yr ymatebydd hwn hefyd yn poeni nad oedd ein cynigion yn gwahanu cynnwys dramatig a dogfennol yn ddigonol oddi wrth fathau eraill o raglenni. Ychwanegodd y gallai hyn arwain at osgoi risg a bod yn niweidiol i fudd y cyhoedd.[106]

---

[101] Yn benodol, mae gan y Cod Darlledu reolau ar: nodi crefyddau neu enwadau penodol ar gyfer y gynulleidfa wrth ddelio â phynciau crefyddol (Rheol 4.3); gwahardd hyrwyddo safbwyntiau neu gredoau crefyddol yn llechwraidd (Rheol 4.4); gwahardd "ceisio recriwtio" i grefyddau ar rai rhaglenni (Rheol 4.5); a diogelu plant rhag rhaglenni crefyddol sy'n cynnwys honiadau bod gan bobl sy'n fyw bwerau arbennig (Rheol 4.7).
[102] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.9; ymateb Corvelo, D, tt.12-13, CAMERA.org, t.6-7
[103] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.9;
[104] Ymateb Corvelo, D. t.12
[105] Ymateb Corvelo, D. t.12
[106] Ymateb The Writers' Guild of Great Britain, t.73

Ein penderfyniad

4.108 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i gael tair rheol gyffredinol yn Adran Pedwar y Cod. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn ddigon i sicrhau mesurau diogelu digonol a chymesur i gynulleidfaoedd ar-lein.

4.109 Rydym yn cydnabod bod dehongli a chymhwyso'r Cod i ddarnau o ddeunydd ar-lein yn cyflwyno set wahanol o heriau i'r rheini sy'n gysylltiedig â chyfryngau darlledu o dan y Cod Darlledu. Felly, rydym wedi cynnwys adran ar "Themâu Cyffredinol ar gyfer Deunydd Ar-lein" yn ein Canllawiau cysylltiedig. Mae'r adran hon yn mynd i'r afael yn fras â'r materion a godwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'n cynigion o dan Adran Pedwar yr Ymgynghoriad, yn ogystal â nifer o rai eraill a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas ag Adrannau eraill o'r Cod hwn sy'n delio ag "eitemau ar-lein" drwy ddisgrifio set nad yw'n gynhwysfawr o ffactorau y gallai Ofcom eu hystyried wrth asesu darnau, yn dibynnu ar y cyd-destun.

Rheolau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Pedwar

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

4.110 Roedd **Rheol arfaethedig 4.1** yn adlewyrchu amcan y safonau bod y BBC yn arfer y lefel briodol o gyfrifoldeb mewn perthynas â chynnwys ar-lein sy'n cael ei ystyried yn eitem grefyddol ar-lein. Roedd y rheol arfaethedig hon yn ailadrodd Rheol gyfatebol 4.1 yn y Cod Darlledu.

4.111 Roedd **Rheol arfaethedig 4.2** yn adlewyrchu amcan y safonau yn adran 319(6) ac wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw eitemau crefyddol ar-lein yn ymwneud â thrin mewn modd difrïol safbwyntiau a chredoau crefyddol y rheini sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol. Roedd y rheol arfaethedig yn adlewyrchu Rheol 4.2 y Cod Darlledu yn agos, sy'n sicrhau'r un amcan. Wrth ystyried trin mewn modd difrïol, fe wnaethom amlinellu yn ein Hymgynghoriad bod Ofcom yn disgwyl mabwysiadu dull tebyg i'r hyn a gynigir yn Rheol 3.3 (gweler paragraff 4.72). Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, ystyried a oedd y deunydd yn cynnwys datganiadau a oedd yn ceisio sarhau safbwyntiau crefyddol a safbwyntiau sy'n perthyn i grefydd neu enwad penodol, eu beirniadu'n ffyrnig neu ymosod arnynt, heb gyfiawnhad digonol gan y cyd-destun.

4.112 Roedd **Rheol arfaethedig 4.3** hefyd yn adlewyrchu amcan y safonau o dan adran 319(6) o'r Ddeddf, sydd hefyd wedi'i dylunio i sicrhau nad yw eitemau crefyddol ar-lein yn camfanteisio'n amhriodol ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa. Roedd y rheol hon hefyd yn adlewyrchu Rheol 4.6 y Cod Darlledu yn agos, sy'n sicrhau'r un pwrpas.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.113 Dywedodd TACC y dylai Rheol 4.2 gael ei defnyddio'n gyson ag Adran Tri o'r Cod ac na ddylai "warchod sefydliadau crefyddol, athrawiaethau na safbwyntiau polisi cyhoeddus rhag beirniadaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth". [107] Roedd yn awgrymu y dylai Ofcom ddatblygu canllawiau i gefnogi'r nod hwn. Ychwanegodd y dylai Ofcom "ystyried cyflwyno eitemau ar-lein yn llwyr, gan gynnwys penawdau, delweddau, capsiynau a darnau wedi'u dosbarthu ar wahân, a chydnabod y gall triniaeth ddifrïol godi drwy fynegi a chyflwyno dro ar ôl tro, yn hytrach na thrwy iaith benodol yn unig". [108]

[107] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.9
[108] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.9

4.114 Tynnodd CAMERA.org sylw at y ffaith y gall datganiadau am gred grefyddol "fod yn dechnegol gywir" ond "drwy gyd-destun dethol" gall hefyd gyflwyno "hunaniaethau hanesyddol, diwylliannol neu genedlaethol cymhleth fel honiadau afresymol neu athrawiaethol yn unig". [109] Dywedodd hefyd y dylai Ofcom roi arweiniad i fynd i'r afael â chynrychioli a chyd-destunoli cred grefyddol ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt efallai'n rhannu, neu'n gyfarwydd â'r bydolwg crefyddol sy'n cael ei ddisgrifio.[110]

Dywedodd ymatebydd y dylid darllen y Rheolau yn Adran Pedwar ochr yn ochr ag Erthyglau 9 (Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) a 10 (Rhyddid mynegiant) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan y gallant "ddiogelu cynulleidfaoedd rhag camfanteisio amhriodol a thriniaeth ddifrïol heb ynysu credoau na sefydliadau rhag beirniadaeth, dychan, newyddiaduraeth ymchwiliol neu drafodaeth ar bolisi". [111]

4.115 Ychwanegodd efallai na fyddai tramgwydd "ynddo'i hun yn brawf o driniaeth ddifrïol neu gamfanteisio amhriodol". Roedd hefyd yn cynghori, mewn achosion lle mae Adran Pedwar yn gorgyffwrdd ag Adran Dau (Niwed a Thramgwydd) ac Adran Tri (Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamddefnyddio'r Cod), y dylid adlewyrchu achosion amryfal o dorri amodau yn null rheoleiddio Ofcom o dan y Cod.[112]

Ein penderfyniad

4.116 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 4.1 - 4.3 y Cod.

4.117 Nododd nifer o ymatebwyr bryderon am y ddealltwriaeth briodol o gyd-destun mewn perthynas â'r adran arfaethedig hon o'r Cod. Mae cyd-destun yn elfen ganolog o asesu cydymffurfiad drwy gydol y Cod (er enghraifft, gweler ein penderfyniadau ynghylch y rheolau arfaethedig yn Adrannau Dau, Tri a Phump) a gall ein Canllawiau cysylltiedig helpu rhanddeiliaid i ddeall y gwahanol ffyrdd y dylid eu hystyried mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Mae paragraffau 2.10 - 2.14 a 3.2 - 2.2 o'r Canllawiau hynny yn amlinellu ystyriaethau arbennig o berthnasol mewn perthynas â'r math o bryderon a allai godi o dan Adran Pedwar.

4.118 Rydym yn cydnabod bod ymatebwyr wedi gweld gwerth mewn cymhwyso'r Cod yn gyson ar draws ei adrannau amrywiol ac i achosion posibl o dorri rheolau a allai gwmpasu nifer o adrannau gael eu hystyried yn eang. Rydym wedi dilyn dull gweithredu o'r fath wrth orfodi'r Cod Darlledu ac rydym yn bwriadu gwneud yr un fath gyda'r Cod hwn, gan asesu achosion posibl o dorri safonau cynnwys yn neunyddiau ar-lein y BBC ar draws nifer o feysydd niwed lle bo hynny'n briodol, yn gymesur ac yn angenrheidiol.

4.119 Rhaid i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r hawliau sydd wedi'u nodi yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Cod wedi cael ei ddrafftio yng ngoleuni'r rhain, yn enwedig Erthyglau 9, 10 a 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n cynnwys rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd, rhyddid mynegiant, a diogelu rhag gwahaniaethu. Bydd Ofcom yn rhoi sylw gofalus i hawliau perthnasol y partïon pan fydd yn asesu cydymffurfiad â safonau perthnasol. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Cod yn gwahardd beirniadaeth ddilys o unrhyw grefydd na'i sylfaenydd. Mae hyn yn golygu bod lle i ddadl grefyddol, dychan ac i ddilynwyr un grefydd feirniadu crefyddau

[109] Ymateb CAMERA.org, t6-t7
[110] Ymateb CAMERA.org, t6-t7
[111] Ymateb Corvelo, D. t.12
[112] Ymateb Corvelo, D. t.12

eraill, ar yr amod nad yw beirniadaeth o'r fath yn gyfystyr â cham-drin difrïol. Ar ben hynny, fel corff cyhoeddus, mae Ofcom yn rhwym wrth ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, lle mae'n rhaid i Ofcom ystyried, wrth arfer ei swyddogaethau, y ffactorau sydd wedi'u nodi yn is-adran (1). Mae'r nodweddion gwarchodedig yn cynnwys crefydd neu gred. Mae asesiad Ofcom o hawliau ar gael yn Atodiad A5.

Rheolau'r Cod Darlledu na fyddwn yn eu hadlewyrchu yn Adran Pedwar

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

4.120 Mae gan y Cod Darlledu reolau ar nodi crefyddau neu enwadau penodol ar gyfer y gynulleidfa wrth ddelio â phynciau crefyddol (Rheol 4.3), gwahardd hyrwyddo safbwyntiau neu gredoau crefyddol yn llechwraidd (Rheol 4.4), gwahardd "ceisio recriwtio" i grefyddau ar rai rhaglenni (Rheol 4.5) a diogelu plant rhag rhaglenni crefyddol sy'n cynnwys honiadau bod gan bobl sy'n fyw bwerau arbennig (Rheol 4.7).

4.121 Roeddem wedi disgrifio yn ein Hymgynghoriad fod y rheolau hyn yn deillio o bryderon penodol am rai mathau o raglenni darlledu arbenigol (fel rhaglen grefyddol sydd wedi'i hanelu at grefydd benodol), nad yw efallai mor berthnasol i gynulleidfa eang ac amrywiol y BBC ar-lein. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, roeddem o'r farn y byddai cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag unrhyw niwed posibl sy'n gysylltiedig â'r rheolau hyn o dan Reolau 4.1, 4.2 a 4.3, yn ogystal ag Adran Un y Cod.

4.122 Fe wnaethom ddweud y gallem ystyried a allai fod yn ddefnyddiol darparu canllawiau ychwanegol i'r BBC ar y rheolau hyn a nodi, yn yr un modd â'r Cod Darlledu, nad yw'r Cod drafft yn gwahardd beirniadaeth ddilys o unrhyw grefydd na'i sylfaenydd. Mae hyn yn golygu bod lle i ddadl grefyddol ac i ddilynwyr un grefydd feirniadu crefyddau eraill, ar yr amod nad yw beirniadaeth o'r fath yn gyfystyr â cham-drin difrïol.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.123 Nid oedd ymatebwyr i'r Ymgynghoriad wedi rhannu unrhyw safbwyntiau penodol ar ein cynigion i beidio ag adlewyrchu Rheolau 4.4, 4.5, 4.6 a 4.7 y Cod Darlledu fel y disgrifir.

4.124 Roedd ymatebwyr wedi cynnig safbwyntiau am ein cynigion ar gyfer Rheolau 4.1, 4.2 a 4.3 y Cod ac rydym wedi crynhoi'r rhain uchod ym mharagraffau 4.113 – 4.115. Mae'r safbwyntiau hyn yn berthnasol i ddeall sut rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen i ffurfio Adran Pedwar o'r Cod yn derfynol.

Ein penderfyniad

4.125 Rydym wedi penderfynu peidio ag adlewyrchu Rheolau 4.4, 4.5, 4.6 a 4.7 y Cod Darlledu yn y Cod, gan ein bod o'r farn y bydd Rheolau 4.1, 4.2 a 4.3 yn ddigonol i sicrhau mesurau diogelu effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd. Rydym hefyd wedi penderfynu cynnwys canllawiau ar weithredu Adran 4 o'r Cod yn ein Canllawiau cysylltiedig.

Adran Pump: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy

Egwyddorion: sicrhau bod Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU sy'n newyddion, ym mha bynnag ffurf, yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy; ac y cydymffurfir â gofynion y Ddeddf o ran didueddrwydd

arbennig. Mae'r rheolau ar gyfer Adran Pump o'r Cod wedi'u cynnwys ar dudalennau 15 i 17 yn Atodiad A2.

5.126 Mae Adran Pump y Cod Darlledu yn ymwneud â'r cysyniad o "ddidueddrwydd dyladwy" fel y mae'n berthnasol i newyddion a rhaglenni eraill.

5.127 Yn ein Hymgynghoriad, rydym yn cynnig adlewyrchu'r holl reolau yn Adran Pump o'r Cod Darlledu, ond gan gynnwys rhai addasiadau arfaethedig i iaith a diffiniadau, fel y bo'n briodol, er mwyn ystyried yr amgylchedd ar-lein a nodweddion fel ei natur aml-fformat, aflinol a deinamig.

Rheolau a diffiniadau'r Cod Darlledu roeddem yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Pump

Ystyr "didueddrwydd dyladwy"

5.128 Roedd y Cod arfaethedig yn cynnwys diffiniad o "ddidueddrwydd dyladwy" a oedd yn adlewyrchu'r diffiniad yn y Cod Darlledu, ond gydag addasiadau cyfyngedig i sicrhau y byddai'n gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd ar-lein. Roeddem yn cynnig cadw'r geiriad "mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall" a bod "dyladwy" yn ddisgrifiad pwysig o'r cysyniad o ddidueddrwydd, sy'n golygu "digonol neu briodol i destun a natur" y deunydd ar-lein penodol (gweler y diffiniad o "eitem ar-lein"). Fodd bynnag, roeddem yn cynnig egluro'r diffiniad i dynnu sylw at y ffaith nad yw didueddrwydd dyladwy, yn ogystal ag amser, yn golygu bod yn rhaid rhannu "ffocws" yn gyfartal i bob barn. Roedd hyn yn cydnabod y gellir cyfleu pwyslais golygyddol mewn deunydd ar-lein mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys drwy strwythur, cynllun, amlygrwydd a fformat, yn hytrach na thrwy amser ar ei ben ei hun. Roedd yr addasiad arfaethedig hwn hefyd yn egluro nad yw didueddrwydd dyladwy yn gofyn am gymesuredd o ran nifer geiriau, gofod sgrin, hyd nac amlygrwydd, ar yr un pryd â chynnal y safon didueddrwydd sylfaenol.

5.129 Roedd y diffiniad arfaethedig hefyd yn adlewyrchu rôl ffactorau cyd-destunol wedi'u diweddaru a'u diwygio wrth ddefnyddio didueddrwydd dyladwy. Yn ogystal â'r ffactorau hynny sydd eisoes yn cael eu cydnabod yn y Cod Darlledu, roedd y Cod drafft yn egluro y gall ystyriaethau perthnasol yng nghyswllt deunydd ar-lein y BBC mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy hefyd gynnwys fformat a math yr eitem ar-lein a'r ffordd mae cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod. Roedd yr ychwanegiadau hyn yn cydnabod yr amrywiaeth o fformatau a mathau o gynnwys a geir mewn deunydd ar-lein, yn ogystal â'r amrywiaeth o wasanaethau y mae ar gael drwyddynt (gan gynnwys llwyfannau trydydd parti) a'r gwahanol ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar Ddeunydd Ar-lein y BBC ac yn ymgysylltu ag ef.

Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion

5.130 Roedd **Rheol arfaethedig 5.1** yn mynnu bod "rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy". Roedd hyn yn seiliedig ar eiriad yr amcan safonau ar gyfer newyddion yn y Ddeddf ac roedd yn adlewyrchu Rheol 5.1 y Cod Darlledu. Roeddem yn cynnig yn ein Hymgynghoriad y byddem, wrth asesu cydymffurfiad â'r rheol hon, yn ystyried nodweddion eitemau ar-lein, yn benodol, y ffaith y gallai deunydd newyddion barhau i fod ar gael ar ôl i ddigwyddiadau ddatblygu, a allai, yn ein barn ni, fod yn rhan o'r asesiad cyd-destunol o gywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy.

5.131 Wrth ddefnyddio **Rheol arfaethedig 5.1**, roeddem hefyd yn cynnig ystyried fesul achos a yw eitem o ddeunydd ar-lein yn newyddion, gan gydnabod yr amrywiaeth o gynnwys ar wasanaethau brand newyddion y BBC.

5.132 Roedd **Rheol arfaethedig 5.2** yn mynnu "fel arfer dylid cydnabod camgymeriadau o bwys mewn newyddion a'u cywiro'n gyflym" ac y dylai "cywiriadau gael eu gwneud yn amlwg i'r gynulleidfa mewn ffordd briodol". Roedd yn mabwysiadu geiriad a gyflwynwyd i'r Cod Darlledu yn 2017 i adlewyrchu sut mae'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC, sydd hefyd yn briodol yn ein barn ni mewn amgylchedd ar-lein. Fe wnaethom ddweud y byddai'r gofyniad i gywiriadau gael eu "gwneud yn amlwg" yn caniatáu i'r BBC benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybod am gywiriadau pan fo angen.

5.133 Roedd **Rheol arfaethedig 5.3** yn cyfyngu ar wleidyddion rhag bod yn "ddarllenydd newyddion, cyfwelydd, gohebydd neu awdur mewn unrhyw eitem ar-lein sy'n newyddion, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hyn mewn achosion eithriadol a bod eu cysylltiad gwleidyddol yn cael ei egluro". Roedd hyn yn adlewyrchu geiriad presennol Rheol 5.3 o'r Cod Darlledu ond roedd wedi cael ei addasu yn ein Hymgynghoriad i gydnabod bod newyddion ar-lein yn aml yn cael ei gyflwyno ar ffurf ysgrifenedig, yn hytrach na thrwy ddarllen newyddion, cyfweld neu ohebu ar ffurf darlledu. Bwriad ychwanegu "neu awdur" hefyd oedd sicrhau ei bod yn glir yn y rheol bod gwleidyddion yn cael eu cyfyngu rhag ysgrifennu stori newyddion i'w chynnwys yn neunydd ar-lein y BBC.

Gofynion arbennig o ran didueddrwydd: cynnwys newyddion a chynnwys arall

5.134 Roedd **Rheolau arfaethedig 5.4 i 5.12** yn adlewyrchu'r gofynion didueddrwydd arbennig yn adran 320 o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod darlledwyr yn sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn allbwn sy'n delio â materion (a materion pwysig) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion (a materion pwysig) sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

5.135 Roedd **Rheol arfaethedig 5.4** yn mynnu bod deunydd ar-lein y BBC yn eithrio pob mynegiant o farnau a safbwyntiau'r BBC ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn y rheol. Roedd y rheol arfaethedig yn adlewyrchu geiriad Rheol 5.4 y Cod Darlledu, gan ei haddasu i fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC.

5.136 Mae'r eithriad yn Rheol 5.4 y Cod Darlledu yn cyfeirio at "farnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni"; roedd yr eithriad cyfatebol yn ein Hymgynghoriad i **Reol arfaethedig 5.4** yn cael ei fynegi fel "barnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU", sy'n cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC sy'n cael eu darlledu ac ar gael ar-lein yn y DU. Bwriad y ddarpariaeth hon, sy'n adlewyrchu adran 320(3) o'r Ddeddf, oedd sicrhau nad yw newyddiadurwyr y BBC yn cael eu hatal rhag cyflwyno barn a safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r BBC a darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ar yr amod bod hyn yn cael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy a nodir yn y Cod.

5.137 Roedd **Rheol Arfaethedig 5.5** yn mynnu y dylai didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol gael eu cadw yn Neunydd Ar-lein y BBC. Roedd yn egluro y gellir cyflawni hyn naill ai o fewn eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd.

5.138 Roedd y rheol arfaethedig yn adlewyrchu Rheol 5.5 y Cod, ac adrannau 320(1)(b) a 320(4)(a) o'r Ddeddf, sy'n darparu bod modd sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn rhaglen neu ar draws cyfres o raglenni gyda'i gilydd. Fodd bynnag, roeddem wedi addasu Rheol 5.5 y Cod i sicrhau canlyniad sy'n cyfateb yn swyddogaethol yn yr amgylchedd ar-lein. Yn benodol, roedd cysyniadau darlledu "rhaglenni" a "chyfres o raglenni gyda'i gilydd" wedi cael eu trosi yn ein Hymgynghoriad i'r cyd-destun ar-lein drwy ddefnyddio'r termau "eitem ar-lein" a "chyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd".

5.139 Roedd "eitem ar-lein" yn ddiffiniad newydd roeddem yn ei gynnig yn ein Hymgynghoriad, nad oes ganddo ddiffiniad cyfatebol yn y Cod Darlledu, i ategu diffiniad diwygiedig o "gyfres" (gweler isod). Cafodd ei ddiffinio yn ein Cod drafft fel a ganlyn:

> "trefniant o ddeunydd ar-lein a gyflwynir i gynulleidfaoedd fel un eitem adnabyddadwy, a allai gynnwys testun ysgrifenedig, delweddau llonydd neu symudol gyda sain neu hebddo), deunydd sain yn unig ar-lein, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, ac y gellir ei ddiweddaru dros amser wrth barhau i fod yn adnabyddadwy fel yr un eitem".

5.140 Fe wnaethom amlinellu ein barn y gallai eitem ar-lein gynnwys, er enghraifft, erthygl destun gyda dolenni, delweddau, sain neu fideo wedi'u plannu; eitem fideo neu sain unigol, gan gynnwys rhaglen sy'n cael ei ffrydio'n fyw; neu gynnwys annibynnol arall.

5.141 Roeddem hefyd wedi cynnig diffiniad o "gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd", a oedd yn adlewyrchu'n fras y dull gweithredu yn y Cod Darlledu o ran caniatáu i ddidueddrwydd dyladwy gael ei gyflawni ar draws cyfres, gan ei addasu ar gyfer amgylchedd ar-lein. Roedd yn cael ei diffinio yn y Cod drafft fel un sy'n golygu mwy nag un eitem ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol, sy'n delio â'r un materion neu faterion cysylltiedig o fewn cyfnod priodol.

5.142 Roeddem yn dweud yn ein Hymgynghoriad bod y diffiniad yn cadw'r cysyniad y dylai eitemau ddelio â'r "un materion neu faterion cysylltiedig dros gyfnod priodol" ond nad yw'n cynnwys gofyniad i'r cynnwys gael ei anelu at "gynulleidfa debyg". Fe wnaethom ddweud mai'r rheswm am hyn oedd bod cysylltiad agos rhwng y cysyniad o "gynulleidfa debyg" a darlledu a'r syniad o un sianel, tra gall cynulleidfaoedd ar-lein gael gafael ar gynnwys drwy nifer o lwybrau mewn gwasanaeth neu ar draws llwyfannau. Roedd hefyd yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn anoddach mesur neu adnabod cynulleidfaoedd mewn amgylchedd ar-lein.

5.143 Roeddem yn cydnabod yn ein Hymgynghoriad y gallai fod o fudd, wrth ddefnyddio'r cysyniad hwn mewn cyd-destun ar-lein, i ymhelaethu ymhellach, ac fe wnaethom egluro ein bwriad y byddai canllawiau cysylltiedig yn nodi sut bydd ffactorau perthnasol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys drwy enghreifftiau. Fe wnaethom ddweud y byddai hyn yn debygol o gynnwys ystyried y canlynol:

- **Cyswllt golygyddol:** a oes digon o gyswllt golygyddol rhwng eitemau, y tu hwnt i bwnc a rennir, fel y gellir eu trin yn briodol gyda'i gilydd fel rhan o'r un gyfres.
- **Cyfnod priodol:** a yw eitemau'n ddigon agos o ran amser i gael eu hystyried yn rhan o'r un gyfres, gan ystyried natur y mater a datblygiad y sylw.
- **Enghreifftiau eglurhaol o gyfresi:** gall cyfres gynnwys, er enghraifft, (i) llinyn golygyddol wedi'i gyfeirio'n glir neu "adroddiad arbennig" sy'n cynnwys nifer o erthyglau unigol cysylltiedig; neu (ii) clwstwr o erthyglau cysylltiedig iawn ar yr un stori a gyhoeddwyd o fewn cyfnod byr.

5.144 Pan fydd didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol yn hytrach nag mewn eitemau unigol, roedd **Rheol ddrafft 5.6** yn mynnu y byddai hyn fel arfer yn cael ei egluro i ddefnyddwyr drwy ddulliau amlygu priodol. Roeddem yn cynnig yn ein hymgynghoriad y byddai hyn yn golygu cyflwyno cynnwys fel bod y berthynas rhwng eitemau yn ddigon clir i ddefnyddwyr eu deall fel rhai cysylltiedig ac y bwriedir eu hystyried gyda'i gilydd.

5.145 Fe wnaethom amlinellu yn ein Hymgynghoriad ein barn y byddai'r ffyrdd o amlygu hyn yn wahanol i ddarlledu. Roeddem yn cynnig y gall amlygu, mewn cyd-destun ar-lein gynnwys, er enghraifft; labelu neu frandio penodol; croesgysylltu uniongyrchol rhwng eitemau; neu gyflwyno cynnwys fel set wedi'i diffinio'n glir. Mae cynnwys nad yw ond yn ymwneud yn fras â phwnc neu sydd wedi'i gysylltu'n gyfan gwbl drwy nodweddion llywio cyffredinol (fel "erthyglau cysylltiedig" neu dudalennau pwnc eang) yn annhebygol o fod yn gyfres at y dibenion hyn. Roeddem yn cynnig bod eitem sy'n cael ei diweddaru'n barhaus (fel tudalen fyw) yn debygol o gael ei hystyried fel eitem ar-lein fel arfer yn hytrach na chyfres. Nid oedd **Rheol arfaethedig 5.6** yn rhagnodi dulliau penodol, ac roeddem yn cynnig y byddai'r dull gweithredu ar gyfer amlygu – fel cadw didueddrwydd dyladwy ei hun – yn dal yn fater golygyddol i'r BBC. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cynnig y byddai rhagor o fanylion ynghylch sut byddai Ofcom yn dehongli ac yn defnyddio'r cysyniad hwn yn cael eu nodi mewn canllawiau cysylltiedig.

5.146 Roedd **Rheol arfaethedig 5.7** yn mynnu "ni ddylid camliwio safbwyntiau a ffeithiau mewn deunydd ar-lein mewn ffordd a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch cadw didueddrwydd dyladwy"[113] a bod yn rhaid cyflwyno safbwyntiau gyda "phwys dyladwy dros gyfnodau priodol". Fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad nad yw cywirdeb dyladwy yn ofyniad statudol y tu allan i newyddion. Roedd y rheol arfaethedig hon, sy'n adlewyrchu Rheol 5.7 y Cod Darlledu, felly yn gwahardd camliwio ffeithiau neu safbwyntiau a fyddai'n tanseilio cadw didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â'r materion yr ymdrinnir â nhw yn y deunydd ar-lein. Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y byddai ail gymal y rheol arfaethedig yn bwysig wrth benderfynu a gafodd didueddrwydd dyladwy ei gynnal yn y deunydd ar-lein, lle gallai camliwio fod wedi digwydd.

5.147 Roedd **Rheol arfaethedig 5.8** yn mynnu bod "rhaid egluro i'r gynulleidfa unrhyw fuddiant personol sydd gan ohebydd neu gyflwynydd neu awdur a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy'r rhaglen". Roedd y rheol hon yn adlewyrchu gofynion y Cod Darlledu, ac mae wedi'i addasu i gynnwys "awdur" i gydnabod sut mae modd priodoli cynnwys ar-lein.

5.148 Roedd **Rheol arfaethedig 5.9** yn egluro y gall cyflwynwyr a gohebwyr (heblaw am y rheini mewn deunydd ar-lein sy'n newyddion), cyflwynwyr eitemau ar-lein barn bersonol neu "awdurol", a chadeiryddion eitemau ar-lein sy'n rhaglenni trafod neu'n ffrydio byw fynegi eu barn eu hunain ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Roedd y rheol hon yn adlewyrchu Rheol 5.9 y Cod Darlledu, gan ei haddasu i fod yn berthnasol i eitemau ar-lein. Roeddem wedid tynnu sylw yn ein Hymgynghoriad at y ffaith nad yw didueddrwydd dyladwy o dan Adran Pump yn mynnu bod yr holl safbwyntiau a fynegir mewn eitem ar-lein yn cael yr un lefel o

[113] Mae'r geiriad arfaethedig hwn yn ychwanegol at y geiriad yn Rheol 5.7 y Cod Darlledu ac mae'n adlewyrchu sut rydym yn credu y bydd yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol mewn cyd-destun ar-lein. Mae hefyd yn adlewyrchu geiriad perthnasol tebyg yng Nghod Safonau Haen 1 arfaethedig Ofcom – gweler Ymgynghoriad: Cod Safonau Haen 1.

amlygrwydd. Roedd y rheol hon felly yn egluro y gall cyflwynwyr eitemau barn bersonol fynegi eu barn eu hunain ar y materion y mae'n berthnasol iddynt, ar yr amod bod safbwyntiau eraill yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ac nad yw cyflwynwyr yn manteisio ar ymddangosiadau rheolaidd mewn ffordd sy'n peryglu'r gofyniad ar gyfer didueddrwydd dyladwy. Mewn perthynas â deunydd ar-lein, y gellir sicrhau darpariaeth ddigonol o safbwyntiau amgen naill ai yn yr eitem ar-lein ei hun neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd.

5.149 Yn ein Hymgynghoriad roeddem wedi dileu'r cyfeiriad presennol yn y rheol hon yn y Cod Darlledu at raglenni ffonio i mewn i gyflwynwyr. Y rheswm am hyn oedd bod Ofcom yn deall nad yw'r fformat hwn fel arfer yn cael ei gynnwys gan y BBC yn ei ddeunydd ar-lein ac felly roeddem o'r farn y byddai'n anghymesur cynnwys cyfeiriad penodol ato yn y rheol arfaethedig. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd gynnig, pe bai unrhyw gynnwys o'r fath yn cael ei gynnwys yn neunydd ar-lein y BBC, byddai'n dal angen i'r BBC gadw didueddrwydd dyladwy ynddo yn unol â'r **Rheolau arfaethedig 5.1** (gweler paragraff 4.130) **a 5.5** (gweler paragraff 4.137).

5.150 Roedd **Rheol arfaethedig 5.10** yn mynnu bod yn rhaid hysbysu'r gynulleidfa'n glir ar y dechrau os yw eitem ar-lein yn un "awdurol" neu'n cyflwyno barn bersonol. Roedd y rheol arfaethedig hon yn adlewyrchu Rheol 5.10 y Cod Darlledu gydag addasiad i fod yn berthnasol i eitemau ar-lein yn hytrach na "rhaglenni". Yn yr un modd â Rheol 5.9, roeddem yn cynnig dileu'r cyfeiriad presennol yn Rheol 5.10 yn y Cod Darlledu at gyflwynwyr personoliaeth ar raglenni ffonio i mewn, am yr un rhesymau ag ar gyfer Rheol arfaethedig 5.9.

5.151 Roedd **rheolau arfaethedig 5.11 a 5.12** yn berthnasol i faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Yn unol â'r Cod Darlledu, mae Rheolau arfaethedig 5.11 a 5.12 yn nodi gofynion uwch o ran didueddrwydd dyladwy ar gyfer 'materion pwysig'. Mae'r rhain yn faterion o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol fel arfer. Yn unol â chanllawiau Ofcom ar Adran Pump o'r Cod Darlledu, roeddem wedi egluro yn ein Hymgynghoriad y byddem yn ystyried y rheolau ychwanegol hyn yn angenrheidiol ar gyfer materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth neu faterion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol a bod materion pwysig yn debygol o fod yn gyfredol. Fel gyda chynnwys sy'n cael ei ddarlledu, byddai Ofcom yn trin y trothwy ar gyfer y gofynion uwch hyn, gan ystyried y cyfyngiadau ychwanegol ar ryddid mynegiant darlledwr, fel trothwy uchel.

5.152 Roedd **Rheol arfaethedig 5.11** yn mynnu bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal ar faterion o'r fath naill ai mewn eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd. Roedd **Rheol arfaethedig 5.12** yn mynnu bod amrywiaeth briodol o safbwyntiau arwyddocaol yn cael eu cynnwys ac yn cael y pwys dyladwy ym mhob eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd, ac nad yw safbwyntiau a ffeithiau'n cael eu camliwio. Fel sy'n cael ei egluro uchod, roedd y rheolau arfaethedig hyn yn adlewyrchu Rheolau 5.11 a 5.12 y Cod Darlledu sy'n rhoi'r gofynion didueddrwydd dyladwy gwell ar waith ar gyfer materion o'r fath o dan adran 320(6) o'r Ddeddf.

Y dull gweithredu cyffredinol ac ystyr "didueddrwydd dyladwy"

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

5.153 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i'r dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer Adran Pump ac ystyr "didueddrwydd dyladwy" fel y nodir yn yr Ymgynghoriad.[114] Fodd bynnag, dywedodd rhai y dylid rhoi eglurhad mewn rhai meysydd, fel yr amlinellir isod.

5.154 Roedd TACC yn cefnogi Adran Pump arfaethedig Ofcom o'r Cod ond gofynnodd am "ymdrin yn gliriach" â phwys dyladwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cyfresi cysylltiedig, patrymau golygyddol rheolaidd a chywiriadau. Ymhelaethodd TACC y dylai "pwys dyladwy" ddibynnu ar "ansawdd a pherthnasedd golygyddol, arbenigedd cyfranwyr, cefnogaeth ar gyfer safbwynt ar sail gwybodaeth, ansicrwydd ffeithiol a digonolrwydd craffu." Roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith na ddylai amlygrwydd gwleidyddol ar ei ben ei hun "wneud honiad yn ffeithiol gredadwy na rhoi'r un pwys golygyddol iddo." Tynnodd TACC sylw at bwysigrwydd profi cynsail ffeithiol anghydfodau polisi sy'n ymwneud â phobl drawsryweddol. Nododd "na ddylai didueddrwydd dyladwy fynnu bod ffeithiau sydd wedi'u sefydlu yn cael eu trin fel safbwyntiau sy'n cystadlu â'i gilydd dim ond am eu bod yn codi mewn pwnc sy'n cael ei herio'n wleidyddol." O ran ystyried eitemau cysylltiedig a'r pwys dyladwy dros amser, dywedodd TACC y dylai Ofcom hefyd egluro "sut bydd Ofcom yn asesu patrymau rheolaidd nad ydynt yn gyfresi cymwys, gan gynnwys dewis ffynhonnell, fframio, amlygrwydd, terminoleg a hepgor." [115]

5.155 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) Ofcom hefyd yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Adran Pump. Roedd yn nodi:

> "mae didueddrwydd dyladwy bob amser wedi bod yn arbennig o bwysig yng Ngogledd Iwerddon, o ystyried sefyllfa gyfansoddiadol y rhanbarth a'i hanes o raniadau gwleidyddol ar hyd cymunedau. Mae materion a fyddai'n cael eu trin fel materion gwleidyddol dadleuol arferol mewn mannau eraill yn y DU, fel y cwestiwn cyfansoddiadol, erlyniadau etifeddol, anghydfodau gorymdeithio neu hawliau iaith, yn agos at ffawtlinau cymdeithas ranedig yma. Dylai'r un safon o ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n berthnasol i newyddion a ddarlledir gan y BBC yng Ngogledd Iwerddon fod yr un mor berthnasol i'w ddeunydd ar-lein."[116]

5.156 Dywedodd un ymatebydd ei fod wedi'i "gyfiawnhau" i adlewyrchu'r egwyddorion sydd wedi'u sefydlu o ran cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy yn y Cod Darlledu. Fodd bynnag, roeddent yn dadlau bod "angen mwy o fanylder ar addasiadau ar-lein na newid enwau yn unig."[117] Roedd CAMERA.org hefyd yn gefnogol ar y cyfan, ond dywedodd "nad yw'r dull gweithredu arfaethedig yn rhoi digon o ystyriaeth eto i natur barhaol, gronnus a chwiliadwy newyddion ar-lein."[118]

5.157 Roedd News-watch o blaid creu'r Cod yn gyffredinol ond, gan gyfeirio at ddidueddrwydd dyladwy, dywedodd ei fod:

---

[114] Ymateb Corvelo, D. t.13; Ymateb Elliott, E t.5; Ymateb CAMERA.org, t7; Ymateb ACNI Ofcom, t.2; Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.9
[115] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.9
[116] Ymateb ACNI Ofcom, t.2
[117] Ymateb Corvelo, D. t.13
[118] Ymateb CAMERA.org, t.7

> "yn trosglwyddo diffyg canolog y drefn ddarlledu bresennol i reoliadau ar-lein: mae'n diffinio'r uned dydueddrwydd fel eitem unigol neu gyfres y mae'r BBC ei hun wedi'i gwneud â chysylltiad golygyddol. Felly, nid yw'n darparu unrhyw lwybr ar gyfer dyfarnu patrwm sy'n seiliedig ar dystiolaeth briodol ar draws allbwn sydd wedi'i gomisiynu ar wahân ond sy'n gysylltiedig yn thematig."[119]

5.158 Roedd News-watch yn diffinio hyn fel "hepgoriad" sy'n "bwysig oherwydd bod tuedd yn aml yn codi'n gronnol".[120] Dywedodd News-watch hefyd fod didueddrwydd o'r fath:

> "yn cael ei greu drwy benderfyniadau dro ar ôl tro ynghylch pa bynciau i'w dilyn, pa gyfranwyr i'w gwahodd, pa honiadau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt, pa rannau o raglen i'w tynnu a'u hyrwyddo, a pha safbwyntiau i'w hepgor neu eu gwthio i'r cyrion. Gellir amddiffyn pob eitem pan fydd wedi'i datgysylltu oddi wrth y lleill. Dim ond pan fydd yr eitemau'n cael eu harchwilio gyda'i gilydd y bydd cyfeiriad y sylw yn dod i'r amlwg. Mae system gwyno sy'n gwahanu'r dystiolaeth yn eitemau unigol yn tynnu'r patrwm o'r ymchwiliad ac yn atal penderfyniad rhag cael ei wneud ynghylch yr honiad canolog."[121]

5.159 Felly, gofynnodd News-watch i Ofcom ddefnyddio Ymgynghoriad y Cod i "ddiffinio llwybr ymarferol ar gyfer tystiolaeth gronnus."[122]

5.160 Ategodd ymatebydd unigol y teimlad hwn hefyd, gan gyfeirio at "sylw cronnus" a nodi bod nifer o eitemau, er bod modd eu "hamddiffyn yn unigol", yn gallu bod "yn gamarweiniol, yn anghymesur neu y gellir rhagweld eu bod yn niweidiol drwy ailadrodd, amlygrwydd o'r newydd a'u hehangu ar draws llwyfannau." Roedd yr ymatebydd hwn yn cefnogi Cod arfaethedig Ofcom ar y cyfan ond dywedodd ei fod yn cynnwys "gwendid canolog" o ran ei fod "yn dal i ddarllen yn bennaf fel system fesul eitem. Mae angen ffordd benodol arno i asesu cwrs cysylltiedig o gyhoeddiadau'r BBC yn ei gyfanrwydd."[123]

5.161 Ymatebodd WGGB drwy ddweud bod y gwaith o ddrafftio Adran Pump arfaethedig Ofcom yn aneglur, "gan ystyried ehangder y cynnwys mae'r BBC yn ei gynhyrchu." Roedd WGGB yn dadlau "nad yw gwanhau ei holl ddarpariaeth ddramatig, adloniant a cherddorol fel dim ond 'cynnwys arall' wrth ei osod ochr yn ochr â 'newyddion' yn ddefnyddiol mewn cyd-destun rheoleiddio."[124]

5.162 Ni wnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau penodol ar ddull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom yn Adran Pump na rheolau'r Cod mewn unrhyw fanylder ond roeddent wedi rhoi ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch didueddrwydd dyladwy ar y BBC yn gyffredinol.

5.163 Cyflwynodd un ymateb a alwodd yn "adolygiad o dystiolaeth" o "Gywirdeb a Didueddrwydd y BBC" i "archwilio a yw gwallau a dewisiadau golygyddol dibaid y BBC yn datgelu patrwm gwleidyddol [o ran dewisiadau fframio ynghylch ffigurau a safbwyntiau gwleidyddol], gan roi pwys priodol ar dystiolaeth sy'n gwanhau neu'n gwrthbrofi'r farn honno." Daeth i'r casgliad bod "risg o driniaeth anghymesur" a "digon o dystiolaeth" i gyfiawnhau adolygiad

[119] Ymateb News-watch, t.1
[120] Ymateb News-watch, t.1
[121] Ymateb News-watch, t.1
[122] Ymateb News-watch, t.1
[123] Elliot, E. Tt.1-2
[124] Ymateb Writers' Guild of Great Britain, t.4

pellach i'r mater hwn (mae rhagor o wybodaeth am yr "adolygiad o dystiolaeth" hwn ym mharagraffau 4.179-4.180 isod).[125] ✂.[126]

Roedd trydydd un wedi mynegi cefnogaeth gref i gynnig Ofcom i ddod â chynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC o fewn y Cod newydd ac wedi ymhelaethu drwy amlinellu cwyn am safonau golygyddol ynghylch didueddrwydd dyladwy neges ddiweddar gan BBC News a gyhoeddwyd ar X.[127] Roedd pedwerydd un wedi nodi bod "adroddiadau teg, cytbwys a chywir o ansawdd uchel ar wefan y BBC yn hanfodol i brosesau democrataidd, nid yn unig yn y DU ond yn fyd-eang."[128] Dywedodd pumed un ei fod o'r farn bod "y BBC yn adrodd fwyfwy gydag agenda" a'i fod "wedi dod yn feirniadol ac yn ddifeddwl, gan gyflwyno'r un math o adroddiadau anecdotaidd am brofiadau personol mewn newyddion yn hytrach na dim ond rhoi'r ffeithiau i ni'n gywir ac mewn ffordd gytbwys."[129]

Ein penderfyniad

5.164 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull arfaethedig ar gyfer Adran Pump. Fodd bynnag, rydym yn mynd i'r afael â cheisiadau penodol am eglurhad yn yr adrannau perthnasol isod.

5.165 Cynigiodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai Ofcom gyflwyno dull o asesu patrymau sylw cronnol, tueddiadau golygyddol rheolaidd neu gasgliadau o gynnwys nad ydynt yn gysylltiedig drwy berthynas olygyddol adnabyddadwy. Nid ydym wedi mabwysiadu'r cynigion hyn. Yn unol â'r dull gweithredu o dan y Cod Darlledu, mae'r Cod wedi'i strwythuro o amgylch asesu eitemau ar-lein unigol a, lle bo'n briodol, cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd (Gweler y drafodaeth ar Reolau 5.5 a 5.6 isod). Rydym yn trafod y cynigion hyn ymhellach yn Adran 7 isod wrth amlinellu ein penderfyniadau ynghylch ein cynigion ar gyfer y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn y ddogfen Deunydd Ar-lein y BBC.

Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion (Rheolau 5.1 i 5.3)

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

5.166 Ychydig iawn o ymatebwyr a wnaeth unrhyw sylwadau penodol ar Reolau arfaethedig 5.1, 5.2 a 5.3. Fodd bynnag, roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) Ofcom yn cefnogi'r rheolau arfaethedig ar y cyfan. [130]

5.167 Mewn perthynas â Rheol arfaethedig 5.1, roedd TACC yn dadlau y dylai cywirdeb dyladwy fod yn berthnasol i gyflwyno newyddion ar-lein yn llawn, gan gynnwys penawdau, crynodebau, delweddau, capsiynau, testun cyfryngau cymdeithasol a hysbysiadau. Awgrymodd y dylai'r Canllawiau fynd i'r afael â'r asesiad o ansawdd tystiolaeth mewn newyddion ar-lein, gan gynnwys ymdrin â thystiolaeth wan neu dystiolaeth hunanddethol, pleidleisio, deunydd anecdotaidd, ymchwil ragarweiniol, honiadau cyfreithiol a meddygol, cymwysterau wedi'u hepgor a honiadau a gyflwynir fel gwirionedd. Roedd TACC hefyd yn

[125] Ymateb Skinner, R. tt.1-2
[126] ✂
[127] Enw wedi'i atal ymateb 3, drwy e-bost
[128] Enw wedi'i atal ymateb 2, drwy e-bost
[129] Enw wedi'i atal ymateb 1, drwy e-bost
[130] Ofcom ACNI, t.2

dadlau y dylai'r Canllawiau egluro sut gallai arbenigedd, barn wybodus, ansicrwydd ffeithiol a'r gwahaniaeth rhwng ffaith a barn fod yn berthnasol i asesu cywirdeb dyladwy.

5.168 Mewn perthynas â Rheol arfaethedig 5.2 (cywiro camgymeriadau), dywedodd un ymatebydd fod yn rhaid i gywiriad "fynd i'r afael â'r camgymeriad sylweddol mewn pwyntiau dosbarthu sylweddol fyw sy'n cael eu rheoli gan y BBC." Eglurodd yr ymatebydd hwn y gallai hyn olygu newid pennawd, crynodeb, dyfyniad neu neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â'r eitem wreiddiol, ond dylid nodi'r "sail gyfreithiol" ym mhob achos: Rheol 5.2 ar gyfer camgymeriadau newyddion sylweddol, Rheol 2.2 ar gyfer deunydd ffeithiol nad yw'n newyddion sy'n sylweddol gamarweiniol, adferiad gwirfoddol y BBC, neu rwymedi cyfreithlon gan Ofcom. Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd nad yw "pob achos o fireinio yn gofyn am gywiro ffurfiol ar draws pob pwynt dosbarthu." [131]

5.169 Roedd TACC hefyd yn dadlau y dylai'r Canllawiau fynnu bod gwallau sylweddol yn cael eu cywiro mewn ffordd gymesur a gweladwy, gan gynnwys cyflwyniad cysylltiedig lle bo hynny'n briodol, ac y dylent fynd i'r afael â chamau rhesymol i gyrraedd cynulleidfa'r deunydd gwreiddiol. Yn yr un modd, roedd News-watch yn dadlau y dylai'r Canllawiau fynnu bod cywiriadau'n cael cysylltiad rhesymol â chyrhaeddiad ac amlygrwydd y deunydd gwreiddiol.[132]

5.170 Dadleuodd un ymatebydd unigol fod deunydd ar-lein yn wahanol iawn i ddeunydd a ddarlledir oherwydd y gallai rhywun barhau i chwilio amdano, cael gafael arno a'i rannu am gyfnod amhenodol. Awgrymodd yr ymatebydd y dylai'r Canllawiau egluro beth yw cywiriad digonol yn yr amgylchiadau hyn a mynd i'r afael â ffactorau gan gynnwys difrifoldeb y gwall gwreiddiol, amlygrwydd ac eglurder unrhyw gywiriad, tystiolaeth ddilynol, hygyrchedd parhaus y deunydd gwreiddiol a'r tebygolrwydd y gallai cynulleidfaoedd sy'n dod ar draws y deunydd wedyn barhau i gael eu camarwain. Roedd yr ymatebydd hefyd yn dadlau y dylai'r Canllawiau fynd i'r afael ag amgylchiadau lle gallai cywiriad neu anodiad fod yn annigonol a lle gallai fod angen diwygio deunydd yn sylweddol neu ei dynnu yn lle hynny.[133]

5.171 Ni wnaeth yr un ymatebydd sylwadau penodol ar Reol 5.3.

Ein penderfyniad

5.172 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 5.1 - 5.3 y Cod.

5.173 Mewn perthynas â Rheol 5.1, cododd ymatebwyr gwestiynau ynghylch sut dylid asesu cywirdeb dyladwy mewn amgylchedd ar-lein, gan gynnwys perthnasedd penawdau, delweddau, capsiynau ac elfennau cyfansoddol eraill deunydd newyddion ar-lein. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai canllawiau fynd i'r afael â materion fel ansawdd tystiolaethol, ansicrwydd ffeithiol a'r gwahaniaeth rhwng ffaith a barn.

5.174 Mae'r Canllawiau cysylltiedig i'r Cod yn egluro y bydd asesiad Ofcom yn ystyried nodweddion penodol deunydd newyddion ar-lein. Yn benodol, mae'n egluro y gall eitemau ar-lein gynnwys nifer o elfennau cyfansoddol, gan gynnwys testun, delweddau, sain, fideo a dolenni wedi'u plannu, ac y gallai elfennau o'r fath fod yn ffactorau cyd-destunol perthnasol lle maent yn dylanwadu ar ddealltwriaeth defnyddwyr o'r deunydd. Mae hefyd yn egluro, wrth ystyried a yw newyddion ar ba ffurf bynnag yn ddigon cywir neu'n ddigon diduedd, y

[131] Ymateb Corvelo, D t13, t15
[132] Ymateb y Trans Advocacy & Complaints Collective, t.11
[133] CAMERA.org, tt.9-11

bydd Ofcom yn ystyried y ffaith y gallai deunydd newyddion ar-lein barhau i fod ar gael ar ôl i ddigwyddiadau ddatblygu, er mwyn i ffactorau fel oedran, dyfalbarhad a'r gallu i ddiweddaru cynnwys fod yn rhan o'r asesiad cyd-destunol.

5.175 Nid ydym wedi cynnwys fframweithiau manwl na meini prawf rhagnodol ynghylch ansawdd tystiolaeth, asesu categorïau penodol o dystiolaeth, arbenigedd, ansicrwydd ffeithiol na'r gwahaniaeth rhwng ffaith a barn. Yn unol â'n dull ehangach o ymdrin ag Adran Pump, rydym o'r farn bod materion o'r fath yn cael eu hasesu'n fwy priodol yng ngoleuni amgylchiadau penodol achosion unigol yn hytrach na thrwy fethodolegau rhagnodedig.

5.176 Mewn perthynas â Rheol 5.2, soniodd ymatebwyr am sut dylid cywiro camgymeriadau sylweddol a sut dylid amlygu cywiriadau mewn amgylchedd ar-lein i ddefnyddwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Cod neu'r canllawiau cysylltiedig ragnodi dulliau penodol o gywiro deunydd ar draws gwahanol fformatau, gwasanaethau neu lwyfannau. Fe wnaethom ddweud yn ein Hymgynghoriad y byddai'r gofyniad i gywiriadau gael eu "gwneud yn amlwg" yn caniatáu i'r BBC benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybod am gywiriadau pan fo angen. Er ein bod yn cydnabod yr ymatebion ar y pwynt hwn, dyma ein barn o hyd.

5.177 Fodd bynnag, mae'r Canllawiau cysylltiedig yn egluro mai un o ddibenion Rheol 5.2 yw hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd lle mae camgymeriadau sylweddol wedi bod. Mae hefyd yn egluro, wrth ystyried a yw'n briodol amlygu cywiriad, y gall Ofcom ystyried ffactorau gan gynnwys natur ac arwyddocâd y camgymeriad, gweledded ac amlygrwydd y cywiriad, a fformat yr eitem ar-lein dan sylw. Mae'r Canllawiau yn egluro ymhellach, pan fydd deunydd wedi cael ei ddosbarthu ar draws nifer o wasanaethau neu lwyfannau, gall Ofcom ystyried i ba raddau mae camau priodol wedi'u cymryd i ddelio â chamgymeriad arwyddocaol yn y gwahanol ffurfiau y darparwyd y deunydd hwnnw ynddynt.

Gofynion arbennig o ran didueddrwydd: cynnwys newyddion a chynnwys arall

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

Rheol Arfaethedig 5.4: Gwahardd barn neu safbwyntiau

5.178 Ni roddodd unrhyw ymatebwyr unrhyw sylwadau uniongyrchol ar Reol 5.4 arfaethedig ("gwahardd barn neu safbwyntiau"). Fodd bynnag, rhoddodd rhai sylwadau a oedd yn ymwneud â sylwedd y rheol arfaethedig hon.

5.179 Eglurodd yr ymatebydd a gyflwynodd yr "adolygiad o dystiolaeth" o "Gywirdeb a Didueddrwydd y BBC" (gweler paragraff 4.163 uchod) mai bwriad ei adolygiad oedd profi'r ddamcaniaeth ganlynol:

> "[Sef,] wrth ohebu ar faterion gwleidyddol-ddadleuol, efallai y bydd BBC News a BBC Verify yn fwy tebygol o fabwysiadu, herio'n annigonol neu ymhelaethu ar ragdybiaethau sy'n gysylltiedig ag ochr chwith/canol y sefydliad, gan fframio mewn ffordd fwy amheus, defnyddio iaith awgrymog neu ofynion tystiolaethol ar gyfer yr ochr dde/canol neu ffigurau asgell dde boblyddol." [134]

[134] Ymateb Skinner, R. t.3

5.180 Er mwyn cynnal yr “adolygiad o dystiolaeth” dadansoddodd yr ymatebydd wyth darn o gynnwys hanesyddol y BBC a oedd, yn ei farn ef, yn dangos “gwallau a dewisiadau golygyddol y BBC”.[135] Roedd ei “gasgliad dros dro” fel a ganlyn:

> “Mae’r dystiolaeth yn cefnogi pryder ynghylch tueddiad i gyfeirio tua’r chwith/canol dro ar ôl tro mewn nifer o fethiannau difrifol. Nid yw eto’n profi bod allbwn cyffredinol y BBC yn cyd-fynd yn sefydliadol â’r Blaid Lafur. Mae hawliad terfynol credadwy yn gofyn am gymhariaeth gyfatebol, rheolau cynhwysiad tryloyw a mesur amlygrwydd cywir.”[136]

5.181 Cyfeiriodd ymatebydd arall at yr hyn roedd yn ei alw’n “ddeunydd wedi’i ystymio a’i sgiwio’n sylweddol ar wefan y BBC”[137] ac roedd trydydd un yn dweud ei fod o'r farn bod y BBC yn “adrodd fwyfwy gydag agenda”.[138]

Rheolau Arfaethedig 5.5, 5.6: Eitemau ar-lein, cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda’i gilydd a dulliau amlygu

5.182 Soniodd nifer o ymatebwyr am ddull arfaethedig Ofcom o gadw didueddrwydd dyladwy ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda’i gilydd ac ar y cysyniadau cysylltiedig o gyswllt golygyddol, cyfnodau priodol a dulliau amlygu.

5.183 Roedd TACC yn croesawu ymdrechion Ofcom i addasu'r cysyniad o gyfres ar gyfer yr amgylchedd ar-lein ond yn dadlau nad oedd dileu'r cysyniad darlledu o "gynulleidfa debyg" yn mynd i'r afael yn llawn â phryderon y gynulleidfa. Dywedodd "efallai na fydd defnyddiwr sy'n dod ar draws un eitem drwy chwilio, ar gyfryngau cymdeithasol neu drwy argymhelliad, byth yn gweld y deunydd y dibynnir arno i sefydlu didueddrwydd".[139] Roedd TACC yn dadlau, pan fydd y BBC yn dibynnu ar gyfres i gadw didueddrwydd dyladwy, y dylai’r eitemau gael perthynas olygyddol uniongyrchol, cael eu hamlygu a’u traws-gysylltu’n glir, cael eu cyhoeddi o fewn cyfnod priodol, cael amlygrwydd cymharol resymol, cael eu dosbarthu drwy lwybrau sy’n debygol o gyrraedd cynulleidfaoedd sy’n gorgyffwrdd yn sylweddol a pharhau i fod â chysylltiad tra bo’r BBC yn dibynnu arnynt fel cyfres.

5.184 Roedd TACC hefyd yn dadlau y dylai Ofcom egluro sut byddai'n asesu "patrymau rheolaidd nad ydynt yn gyfresi cymwys", gan gynnwys materion fel dewis ffynonellau, fframio, amlygrwydd, terminoleg a hepgor. Yn ei farn ef, gall y ffactorau hyn fod yn berthnasol hyd yn oed pan nad yw cynnwys yn rhan o gyfres gymwys o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol.[140]

5.185 Yn yr un modd, roedd News-watch yn dadlau y dylai cydbwyso deunydd y dibynnir arno i sicrhau didueddrwydd dyladwy fynd i’r afael â’r un mater i raddau helaeth, cael ei gyhoeddi o fewn cyfnod priodol a chael amlygrwydd cymharol resymol. Yn ei farn ef, "dylai defnyddwyr sy'n dod i gysylltiad â'r eitem gyntaf gael cyfle realistig i ddod ar draws yr ail" ac ni ddylai deunydd sy'n cael ei gyfeirio at gynulleidfaoedd llawer llai neu sydd wedi'i gladdu mewn archifau allu cydbwyso deunyd d sy'n cael ei hyrwyddo'n amlwg yn awtomatig.[141]

5.186 Roedd ACNI Ofcom yn cefnogi’r dull gweithredu arfaethedig ar y cyfan, ond tynnodd sylw at bryderon ynghylch sut mae pobl yn dod ar draws cynnwys yn ymarferol. Nododd fod

---

[135] Ymateb Skinner, R. t.1
[136] Ymateb Skinner, R. t.9
[137] Enw wedi'i atal ymateb 2, drwy e-bost
[138] Enw wedi'i atal ymateb 1, drwy e-bost
[139] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.10
[140] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.11
[141] Ymateb News-watch, t.6

cynnwys y BBC yn aml yn cael ei weld fel "un eitem a rennir, pennawd, clip neu ddeunydd wedi'i ail-bostio, ar wahân i'r darnau ategol a fyddai fel arall yn cwblhau'r darlun" a rhybuddiodd efallai na fydd mecanweithiau croesgysylltu ac amlygu sy'n gweithredu ar lwyfannau'r BBC yn parhau i fod yn amlwg ar ôl i gynnwys gael ei rannu drwy wasanaethau trydydd parti.[142]

5.187 Yn yr un modd, awgrymodd un ymatebydd, pan fydd eitem gynharach yn dal yn amlwg ar ôl i ddeunydd cydbwyso gael ei gyhoeddi, y dylai'r BBC ystyried ychwanegu dolen neu hysbysiad cymesur yn cyfeirio cynulleidfaoedd at y cynnwys dilynol.[143]

5.188 Roed nifer o ymatebwyr hefyd yn cynnig meysydd y dylid rhoi sylw iddynt yn y Canllawiau cysylltiedig. Roedd News-watch yn dadlau y dylai'r Canllawiau fynd i'r afael â darnau wedi'u golygu, cyhoeddiadau ar draws llwyfannau, amlygrwydd cronnus a'r gwahaniaeth rhwng penderfyniadau golygyddol o dan reolaeth y BBC a phenderfyniadau o ran argymhellion sy'n cael eu gwneud gan lwyfannau trydydd parti yn unig.[144]

5.189 Dadleuodd un ymatebydd y dylai'r Canllawiau egluro sut dylid trin tudalennau byw sy'n cael eu diweddaru'n barhaus; sut mae cyswllt golygyddol yn wahanol i "debygrwydd pwnc, tagio awtomatig a chyd-ddigwyddiadau chwilio"; sut gall dulliau amlygu a "dod o hyd i gynnwys yn weithredol" weithio yn ymarferol; a sut dylid asesu deunydd wedi'i archifo, darnau o gynnwys a chynnwys sy'n cael ei ddosbarthu drwy wasanaethau trydydd parti.[145] Awgrymodd hefyd y dylai'r Canllawiau egluro sut dylid asesu rheolaeth resymol y BBC pan fydd cynnwys yn cael ei ddosbarthu drwy wasanaethau trydydd parti.

5.190 Mewn perthynas â Rheol 5.6 (dulliau amlygu priodol i gynulleidfaoedd wrth gadw dideddrwydd dyladwy dros gyfres sydd â chysylltiad golygyddol) dywedodd TACC y dylid cael dulliau amlygu clir er mwyn cydymffurfio â'r rheol hon. Ym marn TACC, ni fyddai tudalennau pwnc cyffredinol, blychau cynnwys cysylltiedig a gynhyrchir yn algorithmig na llywio cyffredin yn ddigonol. Dywedodd TACC hefyd y dylai pob eitem ar-lein gyrraedd safon annibynnol sylfaenol ac na ddylai dibynnu ar gyfres ganiatáu pennawd camarweiniol sylweddol, camliwio ffeithiau neu safbwyntiau na chyflwyno honiad fel ffaith wedi'i sefydlu.[146] Gofynnodd ACNI Ofcom hefyd am i'r canllawiau y bwriedid iddynt gyd-fynd â Rheol 5.6 yn y Cod terfynol egluro bod y gofyn dehongli bod cyfresi "fel arfer yn cael eu hegluro i ddefnyddwyr" o ran sut mae cynnwys y BBC yn cylchredeg mewn gwirionedd ar ôl iddo adael llwyfannau'r BBC ei hun.[147]

Rheol 5.7: Pwysau dyladwy a chamgyfleu

5.191 Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau y byddai'r rheol arfaethedig yn elwa o esboniad pellach o sut dylid asesu pwys dyladwy yn ymarferol. Roedd eu sylwadau'n canolbwyntio'n benodol ar berthnasedd arbenigedd, ansawdd tystiolaeth, ansicrwydd ffeithiol ac amserlenni priodol.

5.192 Dadleuodd TACC y dylai "pwys dyladwy" ddibynnu ar "ansawdd a pherthnasedd tystiolaethol, arbenigedd cyfranwyr, cefnogaeth ar gyfer safbwynt ar sail gwybodaeth, ansicrwydd ffeithiol a digonolrwydd craffu". Roedd yn awgrymu na ddylai amlygrwydd

[142] Ymateb ACNI Ofcom, t.2
[143] Ymateb Corvelo, D. t.14
[144] Ymateb News-watch, t.6
[145] Ymateb Corvelo, D. tt.15-16
[146] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.10
[147] Ymateb ACNI Ofcom, t.2

gwleidyddol ar ei ben ei hun “wneud honiad yn ffeithiol gredadwy na rhoi’r un pwys golygyddol iddo”. [148]Roedd TACC hefyd yn dadlau y dylai Ofcom egluro sut gallai arbenigedd, barn wybodus, y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn ac ansicrwydd ffeithiol fod yn berthnasol i asesu pwys dyladwy. Ar ben hynny, awgrymodd na ddylai gweithgarwch gwleidyddol, sylw yn y cyfryngau nac ailadrodd eu hunain ddangos arwyddocâd tystiolaethol.[149]

5.193 Roedd TACC hefyd yn dadlau “na ddylai didueddrwydd dyladwy fynnu bod ffeithiau sydd wedi’u sefydlu yn cael eu trin fel safbwyntiau sy’n cystadlu â’i gilydd dim ond am eu bod yn codi mewn pwnc sy’n cael ei herio’n wleidyddol.”

5.194 Gofynnodd un ymatebydd am eglurhad pellach ynghylch ystyr pwys dyladwy ac amserlenni priodol. Roedd yr ymatebydd yn dadlau y dylai'r Canllawiau ddiffinio'r ffactorau sy'n berthnasol i bennu "pwys dyladwy" ac "amserlen briodol" wrth asesu didueddrwydd dyladwy ar draws cynnwys ar-lein.[150]

Rheol 5.8: Buddiannau personol gohebwyr, cyflwynwyr ac awduron

5.195 Roedd WGGB wedi dehongli Rheol 5.8 drwy lens awduron y BBC. Roedd WGGB yn dadlau ei “bod yn hanfodol bod gan ddramodwyr ryddid i archwilio’r ystod ehangaf bosibl o bynciau, gan gynnwys rhai dadleuol. Mae ganddynt hefyd, fel gweithwyr llawrydd, hawl i breifatrwydd o ran eu safbwyntiau gwleidyddol ac i’w gwaith gael ei asesu ar ei haeddiant ei hun.”[151] Fodd bynnag, roedd yn dadlau bod y gair “awdur” yn Rheol arfaethedig 5.8 wedi cael ei roi yng nghyd-destun y ffordd y mae erthyglau ar-lein yn cael eu priodoli ond “nid yw’n mynd i’r afael â defnydd arall, ehangach o’r term.” Dywedodd WGGB fod hyn yn golygu nad oedd y Cod arfaethedig yn glir ynghylch sut byddai’n cael ei gymhwyso i awduron cynnwys wedi’i sgriptio. Roedd WGGB hefyd yn dadlau nad oedd y Rheol arfaethedig ar hyn o bryd yn egluro “beth mae’n ei olygu i awdur a allai godi amheuaeth ynghylch ‘didueddrwydd’ y deunydd ar-lein”.[152] Roedd hefyd yn amlinellu ei bryderon y gallai’r Rheol arfaethedig, ar ei ffurf bresennol, olygu bod awduron yn cael eu heithrio o brosiectau ar gyfer y BBC ar sail nodweddion personol neu ymlyniad gwleidyddol tybiedig.[153]

5.196 Roedd TACC yn dadlau y dylai’r Canllawiau egluro’r amgylchiadau lle gallai fod angen datgelu buddiannau cyfranwyr pan fyddant yn berthnasol i gwestiynau ynghylch cywirdeb, didueddrwydd, pwysau dyladwy neu gamliwio, gan osgoi unrhyw ofyniad cyffredinol i bob cyfrannwr ddatgelu hyn.[154]

5.197 Dadleuodd ymatebydd arall y dylai’r Canllawiau egluro’r mathau o fuddiannau personol a allai godi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy. Awgrymodd yr ymatebydd y gallai’r rhain gynnwys ymgyrchu gwleidyddol, gweithgarwch eirioli, cysylltiadau sefydliadol, cysylltiadau teuluol, cyflogaeth flaenorol a pherthnasoedd arwyddocaol eraill sy’n gysylltiedig â’r pwnc sy’n cael ei adrodd.[155]

---

[148] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.10
[149] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.11
[150] Ymateb CAMERA.org, p.9
[151] Ymateb Writers’ Guild of Great Britain, t.4
[152] Ymateb Writers’ Guild of Great Britain, t.4
[153] Ymateb Writers’ Guild of Great Britain, t.4
[154] Ymateb TACC, t.11
[155] Ymateb CAMERA.org t.9-10

Rheolau 5.9 a 5.10: Barn bersonol a chynnwys awdurol

5.198 Ychydig o ymatebwyr a wnaeth sylwadau uniongyrchol ar eiriad arfaethedig Rheol 5.9. Fodd bynnag, gofynnodd un ymatebydd am eglurhad pellach ynghylch ymdrin â barn bersonol a chynnwys wedi'i awdura mewn amgylchedd ar-lein.[156]

5.199 Roedd yr un ymatebydd yn dadlau "y gall priodoli gyfrannu at ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ond nad yw'n dileu cyfrifoldeb y BBC dros gynnal neu gyhoeddi'r deunydd".[157] Er ei fod yn cefnogi darparu ar gyfer cynnwys â barn bersonol a chynnwys awdurol, roedd yr ymatebydd yn dadlau y dylai'r Cod sicrhau bod lle ar gyfer lleisiau unigryw a heriol gan sicrhau na ellir defnyddio labeli barn i osgoi gofynion a fyddai'n berthnasol fel arall ar yr un pryd.

5.200 Tynnodd yr un ymatebydd sylw hefyd at gyfraniadau gan wleidyddion fel maes penodol sydd angen gofal. Ym marn yr ymatebydd, ni ddylai cyfraniad gwleidydd ddod yn farn y BBC ei hun yn awtomatig. Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd yn dadlau y gallai ailadrodd, fframio ac absenoldeb her sylweddol barhau i fod yn berthnasol i unrhyw asesiad cyffredinol o ddidueddrwydd dyladwy.

5.201 Gofynnodd un ymatebwr am eglurhad pellach ynghylch priodoli ac amlygu barn bersonol ac eitemau awdurol ar-lein.[158] Dadleuwyd y dylai'r Canllawiau egluro sut dylid labelu a phriodoli deunydd o'r fath er mwyn i gynulleidfaoedd ddeall ei natur. Awgrymodd yr ymatebydd y dylai'r Canllawiau fynd i'r afael â gweithredu gwaith priodoli ac amlygu ar draws cyd-destunau ar-lein cyffredin ac y dylent ddefnyddio enghreifftiau o ganlyniadau sy'n cydymffurfio a chanlyniadau nad ydynt yn cydymffurfio yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar restrau gwirio manwl.

Rheolau 5.11 a 5.12: Materion Pwysig

5.202 Soniodd nifer fach o ymatebwyr am y bwriad i gymhwyso'r gofynion uwch o ran didueddrwydd dyladwy sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.[159] Roedd un ymatebydd yn dadlau y dylai'r Canllawiau egluro sut dylai'r BBC nodi "amrywiaeth briodol o safbwyntiau arwyddocaol" a phennu'r pwys a roddir i'r safbwyntiau hynny.[160]Awgrymodd yr ymatebydd y dylid rhoi ystyriaeth benodol i'r gwahaniaeth rhwng awdurdod a niwtraliaeth, gan nodi y gallai llywodraethau, sefydliadau rhyngwladol, cyrff anllywodraethol, academyddion, sefydliadau ymgyrchu a ffynonellau sefydliadol eraill feddu ar arbenigedd neu awdurdod a chael diddordebau, swyddi neu ymwneud â'r pwnc dan sylw ar yr un pryd. Ym marn yr ymatebydd, gall craffu priodol fod yn arbennig o bwysig lle mae arbenigwyr neu sefydliadau'n cyflwyno eu hunain yn niwtral er gwaethaf hanes o safbwyntiau pleidiol.

5.203 Gwnaeth un ymatebydd dadlau y dylid cymhwyso materion pwysig "gyda disgyblaeth" ac na ddylid eu cynnwys dim ond oherwydd bod pwnc yn ddadleuol neu'n cael ei feirniadu'n wleidyddol. Awgrymodd yr ymatebydd y dylai'r Canllawiau gynnwys meini prawf i helpu i benderfynu pryd mae'r gofynion uwch ar gyfer materion pwysig yn berthnasol, gan ddadlau

[156] Ymateb Corvelo, D. tt.15-16
[157] Ymateb Corvelo, D. t.16
[158] Ymateb Corvelo D. tt.15-16
[159] Corvelo, D, t.15, CAMERA.org, t.10
[160] Ymateb Camera.org, t.10

y byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i gynulleidfaoedd ac i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau golygyddol.[161]

Ein penderfyniad

5.204 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheolau 5.4 i 5.12 y Cod. Rydym yn egluro ein rhesymeg isod, gan gynnwys sut rydym wedi ymateb i geisiadau am eglurhad a chanllawiau ychwanegol.

Rheolau 5.5 a 5.6: Eitemau ar-lein, cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd a dulliau amlygu

5.205 Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn canolbwyntio ar gymhwyso cysyniadau eitem ar-lein yn ymarferol a chyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd, ynghyd â chysyniadau perthnasol cyswllt golygyddol, cyfnodau priodol a dulliau amlygu. Cododd ymatebwyr faterion hefyd mewn cysylltiad â'n Hadran Pump arfaethedig sy'n ymwneud â darnau o gynnwys, sut mae'r gynulleidfa yn eu canfod, dolenni a'r ffyrdd y mae defnyddwyr yn darganfod deunydd ar-lein ac yn ymgysylltu ag ef.

5.206 Fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad, roeddem o'r farn y byddai'r cysyniadau hyn yn elwa o gael esboniad pellach yn y Canllawiau cysylltiedig yn hytrach na rheolau ychwanegol yn y Cod. Felly, rydym wedi mynd i'r afael â'r materion hyn drwy'r Canllawiau cysylltiedig, gan gynnwys canllawiau ar y canlynol:

- ystyr eitem ar-lein;
- ystyr cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol a gymerir gyda'i gilydd;
- cyswllt golygyddol a chyfnod priodol;
- cynnal didueddrwydd dyladwy mewn eitem ar-lein ac ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol;
- rôl dolenni a chynnwys cysylltiedig; ac
- amlygu'n briodol pan fydd y BBC yn dibynnu ar gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol.

5.207 Mewn ymateb i geisiadau am fwy o eglurder ynghylch y cysyniad o gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol gyda'i gilydd, rydym wedi ehangu'r enghreifftiau eglurhaol sydd wedi'u cynnwys yn ystyr y term hwnnw yn y Cod. Bwriad hyn yw egluro y gall y cysyniad gynnwys amrywiaeth o ddulliau golygyddol ac nad yw wedi'i gyfyngu i brosiectau golygyddol sydd wedi'u cynllunio, eu brandio neu eu dynodi'n ffurfiol ymlaen llaw.

5.208 Awgrymodd nifer o ymatebwyr ddulliau mwy rhagnodol mewn perthynas â materion fel hwylustod canfod, amlygrwydd, cyrhaeddiad cynulleidfaoedd a dulliau amlygu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y materion hyn mewn amgylchedd ar-lein, lle gall cynulleidfaoedd ddod ar draws deunydd ar-lein y BBC drwy amrywiaeth o fformatau, gwasanaethau a llwybrau mynediad. Yn hytrach na chyflwyno trothwyon neu ofynion sefydlog, rydym wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy'r fframwaith cyd-destunol a nodir yn y Canllawiau. Yn benodol, mae'r Canllawiau'n egluro sut gall fformat a math y deunydd ar-lein, y ffordd mae cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod, a'r ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn debygol o ymgysylltu â chynnwys fod yn berthnasol i'r asesiad o ddidueddrwydd dyladwy, boed hynny mewn un eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol

[161] Ymateb Corvelo, D. p.16

gyda'i gilydd. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn adlewyrchu'r fframwaith statudol yn well a natur gynhenid gyd-destunol asesiadau didueddrwydd dyladwy.

Rheol 5.7: Pwysau dyladwy a chamgyfleu

5.209 Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad pellach ynghylch pwysau dyladwy, amserlenni priodol, ansawdd tystiolaeth ac ymdrin â safbwyntiau sy'n cystadlu â'i gilydd. Rydym wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn y Canllawiau, gan gynnwys egluro'r berthynas rhwng pwysau dyladwy, camliwio a diogelu didueddrwydd dyladwy, a pherthnasedd yr ystyriaethau "cyfnod priodol" a drafodir o dan Reol 5.5.

5.210 Nid ydym wedi cyflwyno fframweithiau na hierarchaethau manwl sy'n ymwneud ag arbenigedd, awdurdod, ansawdd tystiolaeth na phwysoliad ffynonellau. Yn unol â'n dull ehangach o ymdrin ag Adran Pump, rydym o'r farn bod materion o'r fath yn cael eu hasesu'n fwy priodol yng ngoleuni amgylchiadau achosion unigol yn hytrach na thrwy fethodolegau rhagnodedig.

Rheol 5.8: Buddiannau personol gohebwyr, cyflwynwyr ac awduron

5.211 Gofynnodd yr ymatebwyr am eglurhad pellach ynghylch y mathau o fuddiannau a allai fod yn berthnasol i ddidueddrwydd dyladwy a'r amgylchiadau lle gallai fod angen datgelu. Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch cymhwyso'r rheol i awduron cynnwys wedi'i sgriptio.

5.212 Yn ein tyb ni, nid yw'n briodol rhagnodi'n llawn y buddiannau a allai godi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy. Mae ffeithiau a chyd-destun yr achos unigol yn pennu a fydd modd defnyddio Rheol 5.8 mewn perthynas â budd personol.

[At ddibenion Rheol 5.8, mae'r Canllawiau'n mabwysiadu'r un dull o ymdrin ag awduraeth ag sy'n cael ei egluro mewn perthynas â Rheol 5.3.]

Rheolau 5.9 a 5.10: Barn bersonol a chynnwys awdurol

5.213 Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am eglurhad pellach ynghylch cymhwyso'r rheolau i farn bersonol a chynnwys awdurol, gan gynnwys priodoli, cynrychioli safbwyntiau amgen ac amlygu deunydd o'r fath. Rydym wedi mynd i'r afael â'r materion hyn drwy Ganllawiau, gan gynnwys egluro cysyniadau barn bersonol a chynnwys awdurol, defnyddio awduraeth mewn amgylchedd ar-lein ac amlygu barn bersonol ac eitemau awdurol ar-lein.

5.214 Yn benodol, rydym wedi egluro ystyr "awdur" at ddibenion y rheolau hyn. Bwriad cynnwys "awdur" yw mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae unigolyn yn cyflawni rôl awdurol mewn perthynas â deunydd ar-lein lle mae'r gofynion didueddrwydd arbennig yn berthnasol. Ni fwriedir iddo greu rhwymedigaethau newydd mewn perthynas ag awduron cynnwys dramatig, adloniant neu gynnwys arall wedi'i sgriptio fel dosbarth. Yn hytrach, mae'r diwygiad yn adlewyrchu'r rôl y gall awduron a briodolir ei chyflawni o fewn Deunydd Ar-lein y BBC ac mae'n sicrhau bod y rheolau'n gallu gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd ar-lein.

Rheolau 5.11 a 5.12: Materion pwysig

5.215 Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am ganllawiau ychwanegol mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, gan gynnwys cysyniadau safbwyntiau pwysig a rhoi pwys dyladwy iddynt. Rydym wedi penderfynu peidio â datblygu meini prawf newydd ar gyfer y cysyniadau hyn yn y cyd-destun ar-lein. Yn hytrach, mae'r Canllawiau'n croesgyfeirio

at y cysyniadau sefydledig yng Nghanllawiau'r Cod Darlledu lle mae'r egwyddorion sylfaenol yn aros yr un fath, gan gadarnhau, fel ym maes darlledu, bod y trothwy ar gyfer defnyddio'r gofynion uwch hyn mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC yn dal yn uchel.

Canllawiau Arfaethedig ac unrhyw sylwadau pellach

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

5.216 Cafwyd sylwadau gan nifer o ymatebwyr ar y ffurflen a chwmpas y Canllawiau cysylltiedig. Er bod y rhan fwyaf o'r sylwadau ynghylch y Canllawiau yn ymwneud â chymhwyso Rheolau penodol Adran Pump a rhoddir sylw iddynt o dan adrannau'r rheolau perthnasol uchod, gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau ehangach ynghylch datblygu a dylunio'r Canllawiau eu hunain.

5.217 Awgrymodd y TAAC y dylai Ofcom ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn llunio fersiwn derfynol y Canllawiau.[162]

5.218 Roedd un ymatebydd yn cefnogi dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer y Canllawiau yn gyffredinol ac yn dadlau y dylai egluro sut y byddai rhwymedigaethau a diffiniadau'r Cod yn gweithredu mewn lleoliadau ar-lein cyffredin "heb greu atebolrwydd newydd drwy esiampl". Awgrymodd yr ymatebydd hefyd y dylai'r Canllawiau ddefnyddio enghreifftiau o ganlyniadau sy'n cydymffurfio a chanlyniadau nad ydynt yn cydymffurfio, yn hytrach na dibynnu'n helaeth ar restrau gwirio manwl.[163]

5.219 Awgrymodd un ymatebydd hefyd y dylai'r Canllawiau fynnu bod asesiad cronnus o fudd y cyhoedd a chymesuredd yn cael ei gofnodi pan fydd sylw i ddigwyddiadau neu unigolion penodol yn dod yn arbennig o ddwys.[164]

Ein penderfyniad

5.220 Rydym wedi ystyried sylwadau'r ymatebwyr wrth lunio fersiwn derfynol y Canllawiau sy'n cyd-fynd ag Adran Pump y Cod.

5.221 Roedd y rhan fwyaf o'r materion sy'n ymwneud â'r Canllawiau a godwyd gan yr ymatebwyr yn ymwneud â chymhwyso Rheolau penodol ac maent wedi cael sylw o dan adrannau'r rheolau perthnasol uchod a'u hadlewyrchu, lle bo hynny'n briodol, yn y Canllawiau cysylltiedig.

5.222 Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd drwy'r Cod i gyd, rydym wedi ceisio rhoi esboniad ychwanegol lle bo angen er mwyn helpu i ddehongli a defnyddio'r Rheolau mewn amgylchedd ar-lein, gan osgoi dull rhy ragnodol. Rydym o'r farn y dylai'r Canllawiau helpu'r BBC i ddefnyddio'r Cod ar draws amrywiaeth eang o fformatau a chyd-destunau ar-lein heb greu gofynion ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cod ei hun.

5.223 Nid ydym wedi mabwysiadu cynigion i gyflwyno gofynion gweithdrefnol ychwanegol drwy'r Canllawiau. Bwriad y Canllawiau yw helpu i ddeall a defnyddio'r Rheolau yn hytrach na sefydlu rhwymedigaethau cydymffurfio ar wahân.

---

[162] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.11
[163] Ymateb Corvelo, D. tt.15-16
[164] Ymateb Elliott, E. t.5

Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda

Egwyddor: sicrhau bod y gofynion didueddrwydd arbennig yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda yn cael eu cymhwyso i Ddeunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU adeg etholiadau a refferenda. Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Chwech wedi'u cynnwys ar dudalennau 18 i 20 yn Atodiad 2.

6.1 Bwriad ein rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Chwech y Cod oedd sicrhau'r un amcanion safonau statudol ag Adran Pump ar gyfer cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy mewn rhai deunyddiau nad ydynt yn newyddion. Rhagwelwyd y byddant yn rhoi rhagor o fesurau gwarchodaeth, wedi'u cynllunio i ddiogelu uniondeb dadl ddemocrataidd, sy'n arbennig o bwysig yn ystod cyfnod etholiadol. Yn ystod ein Hymgynghoriad fe wnaethom gydnabod rôl bwysig deunydd ar-lein y BBC o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion a materion cyfoes y gallant ymddiried ynddynt.

6.2 Felly, gwnaethom gynnig adlewyrchu'r rheolau perthnasol yn sylweddol yn Adran Chwech y Cod Darlledu. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd gynnig peidio ag ailadrodd rheolau yn y Cod Darlledu sy'n ymwneud â sylw etholaethol ac etholiadol mewn etholiadau, gan nad yw'r rhain wedi cael eu mabwysiadu gan y BBC yn hanesyddol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn hytrach, mae'r BBC yn ymgorffori'r gofynion hyn yn ei Ganllawiau Golygyddol ei hun.

Rheolau a diffiniadau'r Cod Darlledu y gwnaethom gynnig eu hadlewyrchu yn Adran Chwech

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

6.3 Mae'r gofyn mwyaf am ddidueddrwydd dyladwy yn berthnasol yn ystod cyfnodau etholiadau ac roedd **Rheol arfaethedig 6.1** yn egluro y byddai'r rheolau yn Adran Pump, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn berthnasol i etholiadau a refferenda.

6.4 Roedd **Rheolau arfaethedig 6.2 a 6.3** yn adlewyrchu'r gofyniad i roi pwys dyladwy i wahanol gyfranogwyr wrth roi sylw i etholiadau a refferenda, yn y drefn honno, ac yn cefnogi cadw didueddrwydd dyladwy yn ystod y cyfnodau hyn. Er bod y cysyniad o "bwysau dyladwy" yn adlewyrchu natur darlledu llinol, roeddem hefyd o'r farn ei fod yn berthnasol ac yn briodol yng nghyd-destun Deunydd Ar-lein y BBC yn sgil rôl y BBC fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus a natur ei allbwn newyddion a materion cyfoes. Er nad yw deunydd ar-lein wedi'i amserlennu mewn ffordd linol, mae gan y BBC reolaeth olygyddol dros sut mae cynnwys yn cael ei gyflwyno, ei labelu a'i ddarparu ar draws ei wasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, gwnaethom ddweud yn ein Hymgynghoriad y byddai'r gofyniad i roi pwys dyladwy yn fecanwaith pwysig ar gyfer sicrhau bod y sylw'n adlewyrchu arwyddocâd cymharol gwahanol bleidiau, ymgeiswyr a chyfranogwyr ac yn cefnogi cadw didueddrwydd dyladwy.

6.5 Roedd **Rheol arfaethedig 6.2** yn mynnu bod pwys dyladwy yn cael ei roi ar y sylw i'r pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnod yr etholiad. Wrth benderfynu ar lefel briodol y sylw, fe wnaethom ddweud yn ein Hymgynghoriad y dylai'r BBC ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Gwnaethom hefyd

ddweud y dylai'r BBC ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â barn a safbwyntiau pwysig.

6.6 Roedd **Rheol arfaethedig 6.3** yn mynnu bod pwys dyladwy yn cael ei roi ar sefydliadau dynodedig mewn sylw yn ystod cyfnod y refferendwm a bod y BBC hefyd yn ystyried rhoi sylw priodol i gyfranogwyr eraill a ganiateir sydd â barn a safbwyntiau pwysig.

6.7 Roedd **Rheol arfaethedig 6.4** yn mynnu bod yn rhaid gorffen trafod a dadansoddi materion sy'n ymwneud ag etholiadau neu refferenda pan fydd y pleidleisio'n dechrau. Roedd **Rheol arfaethedig 6.5** yn mynnu na ddylai'r BBC gyhoeddi canlyniadau unrhyw arolwg barn ar y diwrnod pleidleisio ei hun nes bydd gorsafoedd pleidleisio'r etholiad neu refferendwm yn cau. Cynigiwyd y rheolau hyn er mwyn adlewyrchu gofynion y Cod Darlledu a chawsant eu cynllunio i sicrhau nad yw'r sylw'n dylanwadu ar benderfyniadau pleidleiswyr yn ystod y cyfnod pleidleisio. Roedd hefyd yn adlewyrchu'r gwaharddiad statudol ar gyhoeddi data pleidleisio tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor.[165]

6.8 Roedd **Rheol arfaethedig 6.6** yn gwahardd ymgeiswyr yn etholiadau'r DU a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU rhag cael eu defnyddio fel cyflwynwyr, cyfwelwyr, gohebwyr neu awduron mewn deunydd ar-lein yn ystod cyfnod yr etholiad. Roedd y rheol hon yn adlewyrchu Rheol 6.6 y Cod Darlledu, ac mae'n ychwanegu "awduron" i adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys testun mewn Deunydd Ar-lein y BBC.

6.9 Roedd **Rheol arfaethedig 6.7** yn darparu y gall ymddangosiadau neu gyfraniadau gan ymgeiswyr neu gynrychiolwyr mewn deunydd anwleidyddol ar-lein sydd wedi'i gynllunio neu ei amserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm barhau, ond ni ddylid trefnu na chyhoeddi unrhyw ymddangosiadau na chyfraniadau newydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

6.10 Roedd **Rheolau arfaethedig 6.6 a 6.7** hefyd yn egluro nad oes angen dileu deunydd archif ar-lein a gyhoeddwyd yn flaenorol tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor nac yn ystod cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm, yn y drefn honno. Roedd hyn yn adlewyrchu argaeledd parhaus cynnwys ar-lein ac yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir yn y Cod Darlledu ar gyfer cynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC, lle nad oes angen dileu deunydd presennol yn ystod y cyfnodau hyn.

Dull cyffredinol, Rheolau a Chanllawiau penodol Adran Chwech

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

6.11 Roedd tri ymatebydd wedi cyflwyno sylwadau ar Adran Chwech arfaethedig o'r Cod.[166] Roedd eu sylwadau'n cyfuno ymatebion ar ddull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom, y Rheolau arfaethedig penodol a'r canllawiau atodol ar gyfer yr adran hon.

6.12 Roedd y tri ymatebydd o blaid adlewyrchu'r rheolau presennol ar y sylw a roddir i etholiadau a refferenda yn y Cod Darlledu ar gyfer deunydd ar-lein y BBC. Yn benodol, dywedodd y TACC ei fod yn cefnogi ymestyn y gofynion uwch o ran didueddrwydd sy'n berthnasol yn ystod etholiadau a refferenda i ddeunydd ar-lein y BBC[167] ac roedd ymatebydd unigol hefyd o'r farn bod hyn yn "briodol" gan fod diddordeb y cyhoedd yn

[165] Adran 66A, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
[166] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective t.12, ymateb Corvelo, D t.16, ymateb ACNI Ofcom t.1
[167] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.12

cynyddu yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda.[168] Fodd bynnag, awgrymodd y tri ymatebydd ragor o ystyriaethau i Ofcom roi sylw iddynt hefyd.

6.13 Mewn perthynas â dull gweithredu cyffredinol arfaethedig Ofcom, nododd yr ymatebydd unigol y gall tudalennau a phostiadau ar-lein barhau i fod ar gael ar draws nifer o etholiadau, gwasanaethu nifer o wledydd neu ardaloedd, a symud rhwng archifo goddefol a hyrwyddo gweithredol. Felly, gwnaethant argymell y dylai'r fframwaith terfynol wahaniaethu rhwng "pedwar cyflwr": argaeledd archifol cyffredin; diweddariad sylweddol; ailddosbarthiad bwriadol neu amlygrwydd o'r newydd gan y BBC; a sylw organig o'r newydd neu sylw gan drydydd parti. Awgrymodd yr unigolyn hefyd fod "angen bod yn sensitif" wrth roi sylw i fwy nag un lleoliad, gan na ddylid trin cyfraniad sy'n berthnasol mewn un ardal etholiadol fel rhywbeth sy'n gynrychioladol yn genedlaethol heb ei fframio'n glir. Ar yr un pryd, "ni ddylai hygyrchedd ar-lein ledled y DU droi pob eitem leol yn ymarfer pwyso a mesur ar draws y DU."[169]

6.14 Cyfeiriodd y tri ymatebydd at y cysyniad o "bwys dyladwy" a oedd wedi'i gynnwys yn Rheolau arfaethedig 6.2 a 6.3. Awgrymodd y TACC y dylai pwys dyladwy ystyried tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys cefnogaeth etholiadol nawr ac yn y gorffennol, "yn hytrach na sylw ar-lein yn unig". Roedd y TACC hefyd yn argymell bod Ofcom yn ystyried yr amlygrwydd a'r llwybrau cynulleidfa a ddefnyddir ar gyfer dosbarthu deunydd etholiadau a refferenda.[170] Awgrymodd yr ymatebydd unigol y byddai angen bod yn arbennig o ofalus gyda thudalennau byw treigl ac y dylid asesu "pwys dyladwy" dros gyfnod priodol gan roi sylw i strwythur a dyfalbarhad y dudalen, nid yn unig i drefn diweddariadau unigol. Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylid atodi cywiriadau neu esboniadau sylweddol gan ymgeiswyr lle maent yn dal i fod yn ddefnyddiol yn ymarferol.[171] Yn olaf, tynnodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) Ofcom sylw at gyd-destun penodol system etholiadol Gogledd Iwerddon, gan ymgorffori nifer o bleidiau sydd â lefelau sylweddol o gefnogaeth. Roedd yn dadlau y dylai defnyddio "pwys dyladwy" felly "adlewyrchu'r realiti amlbleidiol hwn". Roedd ACNI Ofcom yn cydnabod, yn ei dyb ef, ymwybyddiaeth gyfredol Ofcom o'r cyd-destun hwn ond nododd bwysigrwydd ei adlewyrchu'n ffurfiol yn y Cod terfynol.[172]

6.15 O ran Rheolau arfaethedig 6.6 a 6.7 (ymddangosiadau ymgeiswyr), roedd ACNI Ofcom yn cefnogi triniaeth arfaethedig deunydd archif ar-lein a gyhoeddwyd yn flaenorol, h.y. y cyfarwyddyd nad oedd angen ei ddileu ar gyfer cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm. Nododd ei bod yn ymddangos fel petai'n gymesur, o ystyried amlder digwyddiadau etholiadol yng Ngogledd Iwerddon ar draws San Steffan, y Cynulliad, llywodraeth leol a refferenda posibl. Fodd bynnag, gofynnodd a fyddai modd i'r ddarpariaeth hon gael ei hadolygu ar ôl cylch etholiadol llawn.[173]

6.16 Gwnaeth yr ymatebydd unigol sylwadau hefyd ar feysydd yr awgrymwyd y dylai Ofcom roi arweiniad pellach arnynt. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ganllawiau'n cyd-fynd â'r gyfraith etholiadol bresennol, a rôl safonau Ofcom a'r angen i osgoi unrhyw awgrym y gallai'r Cod ddisodli cyfyngiadau statudol. Awgrymodd hefyd y dylai'r canllawiau

[168] Ymateb Corvelo, D. t.16
[169] Ymateb Corvelo, D. t.16
[170] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.12
[171] Ymateb Corvelo, D. t.16
[172] Ymateb ACNI Ofcom, t.2
[173] Ymateb ACNI Ofcom, t.2

egluro sut mae cywiriad neu eglurhad diweddarach yn cael ei wneud yn weladwy pan fydd eitem etholiadol yn parhau i gael ei chylchredeg. Yn olaf, awgrymwyd y dylai unrhyw ganllawiau roi "triniaeth ymarferol" i'r canlynol:

1. "dechrau a diwedd cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm perthnasol, gan gynnwys y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi neu ei ddiweddaru yn ystod y cyfnod dan sylw;
2. y dystiolaeth a ddefnyddir i asesu pwys dyladwy, fel cynlluniau golygyddol, grwpiau eitemau pwysig a natur cyfraniadau, heb gyfrif yn fecanyddol;
3. archifau goddefol, ailddosbarthu bwriadol, lleoliad yr hafan, cynnwys porthiant, cyflwyno gallu i chwilio ac ail-bostio cymdeithasol dan reolaeth y BBC;
4. tudalennau treigl, hybiau etholiadol ac esboniadau sy'n newid drwy gydol ymgyrch;
5. cyfraniadau ymgeiswyr, cyfweliadau a deunydd wedi'i ymgorffori, gan gynnwys nodi statws yn glir a pherthnasedd etholaethol neu etholiadol;
6. personoli ac argymell lle mae'r BBC yn rheoli'r gosodiadau golygyddol, a'r ffin lle nad yw'n gwneud hynny;
7. cystadlaethau cenedlaethol, datganoledig a lleol sy'n digwydd ar yr un pryd;
8. trin ymgeiswyr annibynnol a safbwyntiau pwysig heb leihau'r pwys dyladwy i driniaeth rifiadol gyfartal;
9. newidiadau a chyfyngiadau ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng archif heb ei newid ac eitem sydd newydd gael ei dewis neu ei hadnewyddu; a
10. chadw cofnodion cymesur sy'n ddigon i egluro triniaeth olygyddol ar ôl y digwyddiad."[174]

Ein penderfyniad

6.17 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer Rheolau 6.1 – 6.7 y Cod, gan fod yr ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i ddull gweithredu cyffredinol Ofcom. Bydd hyn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng y Cod Darlledu a'r Cod mewn perthynas â'r Rheolau sy'n berthnasol i sylw ar etholiadau a refferenda, gan alluogi parhad a sicrwydd rheoleiddio i'r BBC a defnyddwyr/cynulleidfaoedd.

6.18 Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau y dylai'r Cod roi cyfrif am wahanol gamau yng nghylch oes cynnwys, a'r berthynas rhwng cynnwys ac ardal, yng nghyd-destun cyfnodau etholiadau a refferenda. Mae Ofcom o'r farn mai materion o gyfrifoldeb golygyddol y BBC yw'r rhain yn bennaf. Felly, mater i'r BBC fyddai rhoi cyfrif amdanynt wrth greu a rheoli ei gynnwys, ac ni fyddai'n briodol i Ofcom ddylanwadu ar hyn. Gallai Ofcom ystyried materion o'r fath, ond dim ond ar ôl eu cyhoeddi a phan fo'n berthnasol i gŵyn sy'n cael ei wneud i ni o dan gwmpas y Cod. Byddai'r ffordd y mae Ofcom yn delio â chwyn o'r fath yn cael ei hategu gan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys sy'n cael eu disgrifio yn Atodiad A4 y Datganiad hwn. Mae Ofcom wedi penderfynu cyhoeddi Canllawiau penodol i gynnig cyfarwyddyd ar y cysyniadau hyn ac ar gysyniadau cysylltiedig eraill, sy'n cynnwys e.e. trin deunydd archif ar-lein yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda, a thriniaeth pleidiau, ymgeiswyr ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnodau etholiadol.

6.19 Wrth benderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion o dan Reolau 6.2 a 6.3 y Cod, mae Ofcom wedi llunio Canllawiau drafft mewn ymateb i sylwadau gan yr ymatebwyr ynghylch y cysyniad o bwys dyladwy yng nghyd-destun cyfnodau etholiadau neu refferenda. Mae'r Canllawiau hyn

[174] Ymateb Corvelo, D, t.16

yn cael eu llywio gan y Rheolau a'r Canllawiau o dan Adran Pump y Cod, yn enwedig pan fyddant yn berthnasol i faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Yn yr un modd â'r Cod Darlledu, mae'r cysyniad o bwys dyladwy yn hyblyg, ac mae ei gymhwyso'n dibynnu ar y cyd-destun etholiadol. Bydd hyn yn galluogi'r BBC i roi cyfrif yn ei ddeunydd ar-lein am dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol ac i ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â barn a safbwyntiau pwysig, yn dibynnu ar y cyd-destun.

6.20 O ran sylwadau gan yr ymatebwyr ar ddefnyddio pwys dyladwy yng nghyd-destun y system etholiadol amlbleidiol yng Ngogledd Iwerddon, mae Ofcom o'r farn y dylai'r Cod fel y'i cyhoeddir ddarparu fframwaith cwbl hyblyg i ymateb i fanylion y cyd-destun hwnnw. At hynny, fel y nodwyd yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae Ofcom o'r farn na ddylai'r Cod gael unrhyw effeithiau niweidiol ar grwpiau penodol o bobl yng Ngogledd Iwerddon sy'n debygol o gael eu heffeithio mewn ffordd wahanol i weddill y DU.

6.21 Yn yr un modd â'r Cod Darlledu, ac yn unol â darpariaethau'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru[175], byddwn yn cynnal adolygiadau o'r Cod a'i ganllawiau cysylltiedig yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cynnwys cwmpas i ystyried Rheolau 6.6 a 6.7 sy'n ymdrin ag ymddangosiadau ymgeiswyr mewn deunydd ar-lein, a'r darpariaethau yn y Rheolau hynny i beidio â gorfod dileu deunydd archif ar-lein a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

6.22 Mewn ymateb i'r cyflwyniad gan un ymatebydd a oedd yn amlinellu cyfres o ystyriaethau y dylid rhoi sylw iddynt yng nghanllawiau Ofcom, rydym o'r farn bod y rhain i gyd yn dod o dan y Canllawiau a gyhoeddwyd gennym i gyd-fynd â'r Cod. Mae'r adrannau yn y Canllawiau sy'n croesgyfeirio'r Rheolau a'r Canllawiau o dan Adran Pump ac Adran Dau o'r Cod yn arbennig o berthnasol yn hyn o beth gan eu bod yn caniatáu i hyblygrwydd gael ei ddefnyddio mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC ar draws ei wahanol iteriadau a mathau, a'r cyd-destunau lle mae'n ymddangos. Ar ben hynny, mae'r Gweithdrefnau yn Atodiad A4 y Datganiad hwn yn mynd i'r afael â'r pwynt a wnaed ynghylch argaeledd gwybodaeth berthnasol ar ôl cyhoeddi.

Rheolau'r Cod Darlledu na wnaethom gynnig eu hadlewyrchu yn Adran Chwech

6.23 Mae'r Cod Darlledu yn cynnwys rheolau ychwanegol sy'n ymwneud â sylw i etholaethau ac ardaloedd etholiadol (Rheolau 6.8 i 6.12). Mae'r rheolau hyn yn rhoi adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("RPA") ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofcom fabwysiadu cod ymarfer ar gyfer rhai gwasanaethau[176] mewn perthynas â chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau ynghylch yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw. Yn ystod ein Hymgynghoriad fe wnaethom gynnig peidio â chario'r rheolau hyn drosodd i'r Cod.

---

[175] Gweler para 3A(7) o Atodlen 34 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

[176] Rhaid i Ofcom fabwysiadu cod ymarfer mewn perthynas ag eitemau sydd wedi'u cynnwys mewn "gwasanaethau perthnasol". Mae Adran 93(6) yn diffinio'r rhain fel gwasanaethau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ran 1 neu 3 o Ddeddf Darlledu 1990 neu Ran 1 neu 2 o Ddeddf Darlledu 1996, yn ogystal â gwasanaethau sy'n Wasanaethau Haen 1 o fewn yr ystyr a roddir gan adran 368HA o'r Ddeddf. Ymgynghorir ar hyn o bryd ar ddarpariaethau mewn perthynas â Gwasanaethau Haen 1 – gweler Ymgynghoriad: Cod Safonau Haen 1.

6.24 Fe wnaethom gydnabod yn ein Hymgynghoriad, er nad yw'n ofynnol o dan adran 93 o'r RPA i Ofcom fabwysiadu cod ymarfer mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC, gallai Ofcom ymgorffori rheolau cyfatebol i Reolau 6.8-6.12 yn y Cod er mwyn sicrhau amcanion y safonau sydd yn adrannau 319(2)(c) (gan gynnwys y gofynion didueddrwydd arbennig yn 320). Fodd bynnag, nid oeddem yn credu y byddai'n briodol nac yn gymesur ar hyn o bryd i gynnwys rheolau cyfatebol o'r fath yn y Cod gan ei bod eisoes yn ofynnol i'r BBC fabwysiadu ei god ymarfer[177] ei hun sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn debyg iawn i Reolau 6.8-6.12 y Cod Darlledu ac sydd eisoes yn berthnasol i'w ddeunydd ar-lein. Roeddem hefyd yn ymwybodol o'n hamcan o osod safonau o dan y Cod sy'n gyson â'r rheini sydd wedi'u gosod o dan y Cod Darlledu, lle nad yw'r rheolau hynny'n berthnasol i'r BBC ar hyn o bryd. Felly, nid oeddem yn credu bod unrhyw resymau cryf dros ailadrodd y rheolau hyn yn y Cod.

6.25 Fodd bynnag, fe wnaeth Ofcom nodi'r gwahaniaeth rhwng y fframweithiau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC a gwasanaethau eraill mewn perthynas â rheolau sylw etholaethol. Fel y nodwyd yn flaenorol gan Ofcom[178], mae hyn yn adlewyrchu mater ehangach sy'n deillio o'r fframwaith statudol sy'n llywodraethu gwasanaethau'r BBC. Er bod Ofcom wedi dweud wrth y Llywodraeth yn flaenorol y dylid mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn drwy newid deddfwriaethol i sicrhau mwy o gysondeb â darlledwyr eraill, am y rhesymau a amlinellir uchod fe wnaethom gymryd y safbwynt ei fod yn dal y tu allan i gwmpas y Cod. Serch hynny, rydym wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r mater hwn.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

6.26 Nid oedd unrhyw ymatebion ar gynigion Ofcom i beidio â throsglwyddo Rheolau 6.8 - 6.12 o'r Cod Darlledu i'r Cod terfynol.

Ein penderfyniad

6.27 Rydym wedi penderfynu peidio â throsglwyddo Rheolau 6.8 – 6.12 o'r Cod Darlledu i'r Cod terfynol.

Defnyddio'r Cod Tegwch gyda Deunydd Ar-lein y BBC

6.28 Fel y nodir yn ein Hymgynghoriad, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn nodi'r canlynol: 'Wrth ddarparu Deunydd Ar-lein Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Tegwch sydd mewn grym o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996, i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r Deunydd Ar-lein hwnnw'.

6.29 Mae Adran 107(1) o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i lunio ac adolygu cod sy'n rhoi arweiniad ar yr egwyddorion sydd i'w dilyn, a'r arferion sydd i'w dilyn, mewn cysylltiad ag osgoi:

a. triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni; neu

b. tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad wrth gael, neu mewn cysylltiad â chael, deunyddiau a gynhwysir mewn rhaglenni o'r fath.

6.30 "Cod Tegwch" yw'r enw ar hyn. Mae Ofcom yn defnyddio'r Cod Tegwch drwy ddefnyddio'r egwyddor, y rheol a'r "arferion i'w dilyn" a nodir o dan Adran Saith (Tegwch) ac Adran Wyth (Preifatrwydd) o'r Cod Darlledu. Bwriad yr "arferion i'w dilyn" yw rhoi arweiniad i

[177] Rhaid i'r BBC wneud hynny fel "awdurdod darlledu" o dan adran 93(6) o'r RPA. Gwnaeth hynny'n fwyaf diweddar drwy ei "God Ymarfer Tegwch i Ymgeiswyr" sydd wedi'i gynnwys yn ei Ganllawiau Etholiad ar gyfer 2026.

[178] Gweler Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, 22 Mehefin 2022, tudalen 31.

ddarparwyr, gan gynnwys y BBC, ar y camau y gellir eu cymryd i osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Nid yw dilyn yr arferion yn Adrannau Saith ac Wyth o reidrwydd yn osgoi torri'r rheol, a byddai methu â dilyn yr arferion ond yn golygu torri amodau lle mae'n arwain at annhegwch i unigolyn neu sefydliad, neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, yn y rhaglen. Ar ben hynny, nid yw'r rhestr o arferion yn gynhwysfawr, ac mae ein hystyriaeth o gwynion tegwch a phreifatrwydd yn dibynnu yn y pen draw ar a yw'r rheol ei hun wedi cael ei thorri.

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

6.31 At ddibenion gorfodi'r BBC i lynu wrth y Cod Tegwch mewn perthynas â Deunydd Ar-lein y BBC, fe wnaethom gynnig rhoi Adrannau Saith ac Wyth presennol y Cod Darlledu ar waith, i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r deunydd ar-lein hwnnw. Fe wnaethom gydnabod efallai na fyddai geiriad presennol y rheolau a'r arferion yn Adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu bob amser yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. O'r herwydd, fe wnaethom baratoi Atodiad (sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen Ymgynghori) a oedd yn darparu geiriad arfaethedig wedi'i addasu ar gyfer defnyddio'r Cod Tegwch mewn cyd-destun deunyddiau ar-lein. Gwnaethom egluro ein bod yn bwriadu cyhoeddi hwn fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

6.32 Yn ein geiriad arfaethedig wedi'i addasu, yn lle cyfeiriadau at "ffilmio"/ "ffilmiwyd" neu "recordio"/"recordiwyd", fe wnaethom gynnig mabwysiadu'r termau mwy cyffredinol "cael"/"cafwyd" ar draws Adrannau Saith ac Wyth. Cafodd geiriad y Cod Darlledu ei deilwra i gynnwys darlledu traddodiadol sydd fel arfer ar ffurf fideo neu sain. Ar gyfer Deunydd Ar-lein y BBC, ni fydd yr holl ddeunydd a gesglir yn gynnwys clyweledol. Er enghraifft, gall erthyglau newyddion gyfeirio at gyfweliadau ysgrifenedig, gohebiaeth, neu wybodaeth gyffredinol o ffynonellau. Felly, roeddem yn ystyried, mewn rhai arferion, y gallai'r term "cafwyd" fod yn fwy addas i'r amrywiaeth o gynnwys y gallai'r BBC ei gasglu. Mae'r derminoleg hon hefyd yn fwy cyson â geiriad adran 107(1)(b) o Ddeddf Darlledu 1996 (ac o ganlyniad Rheol 8.1) sy'n ymwneud ag osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad "mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglenni". Gan ddilyn y dull gweithredu hwn, gwnaethom hefyd gynnig mabwysiadu'r termau ehangach "deunydd" neu "cynnwys", lle bo hynny'n briodol, yn lle cyfeiriadau presennol at fathau penodol o gynnwys, fel "sain" neu "lluniau".

6.33 Ar ben hynny, fe wnaethom ychwanegu geiriad pellach arfaethedig at Arfer 8.21 er mwyn adlewyrchu'n well y dull gweithredu sydd eisoes wedi cael ei ddefnyddio o dan y Cod Darlledu a gwneud y drafftio'n gliriach ynghylch pwy sy'n gallu rhoi cydsyniad gwybodus ar ran pobl dan un ar bymtheg oed a phobl agored i niwed yn y drefn honno. Roedd y geiriad arfaethedig hefyd yn adlewyrchu y gall fod adegau pan fydd unigolyn yn agored i niwed ond yn dal i allu rhoi cydsyniad gwybodus ei hun.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

6.34 Cytunodd yr ymatebwyr â geiriad arfaethedig wedi'i addasu Ofcom ar gyfer defnyddio'r Cod Tegwch mewn deunydd ar-lein y BBC. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â dull cyffredinol Ofcom o asesu tegwch mewn cyd-destun deunydd ar-lein, yn hytrach na chynnwys y rheolau a'r arferion eu hunain.[179] Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd wedi

[179] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.13, No Bars Ltd T/A DRIFT, t.5-8. CAMERA.org, t.11-14, Elliot, E, t.6

gwneud sylwadau ynghylch gweithdrefnau arfaethedig Ofcom ar gyfer cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd. Rydym yn rhoi sylw i'r rhain ym mharagraffau 5.47 - 5.62 isod.

6.35 Ni wnaeth y BBC sylwadau ar gynigion Ofcom ar gyfer cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd yn benodol, ond, yn yr un modd ag adrannau eraill, gofynnodd i Ofcom egluro ei ddull o asesu tegwch darnau o gynnwys (fel penawdau a mân-luniau) heb gyd-destun yr erthygl lawn.[180] Yn yr un modd, dywedodd y TACC y gall annhegwch godi o effaith gyfun penawdau, mân-luniau a chapsiynau ac y dylai Ofcom gyhoeddi canllawiau sy'n mynd i'r afael â chyflwyno deunydd ar-lein yn gyflawn.[181]

6.36 Dywedodd y TACC hefyd y dylai darpariaethau lles cyfranwyr gynnwys aflonyddu rhagweladwy, datgelu hunaniaeth neu statws traws yn ddiangen, sylw gelyniaethus ar y cyfryngau cymdeithasol, a dosbarthu dro ar ôl tro.[182]

6.37 Dywedodd ymatebydd unigol y dylid ailasesu "cydsyniad gwybodus" gan gyfranwyr os oes newid sylweddol mewn defnydd o gyfraniad dros amser.[183]

6.38 Gofynnodd CAMERA.org i Ofcom gyhoeddi canllawiau pellach ar ddefnyddio'r Cod Tegwch wrth ohebu ar wrthdaro modern, megis mewn amgylchiadau lle ceir deunydd mewn tiriogaethau lle na all cyfranwyr o reidrwydd weithredu'n rhydd.[184] Dywedodd yr ymatebydd hwn hefyd fod angen rhoi ystyriaeth benodol i amddiffyn plant a phobl agored i niwed wrth adrodd ynghylch gwrthdaro ac y dylai Ofcom gyhoeddi canllawiau penodol yn hyn o beth.

6.39 Dywedodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylai Ofcom sicrhau ei fod yn glir nad yw bodolaeth hawl i ateb ynddo'i hun yn sefydlu tegwch.[185]

6.40 Roedd sefydliad arall wedi gwahodd Ofcom i ystyried y gallai tegwch deunydd ar-lein newid dros amser, er enghraifft os bydd ffeithiau perthnasol yn newid ar ôl adrodd ar y digwyddiad gwreiddiol. Tynnodd un sefydliad sylw hefyd at y ffaith bod peiriannau chwilio a systemau AI yn golygu y gall cynnwys archif ddod yn ôl i'r wyneb yn ddiweddarach. Dywedodd fod hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun adrodd ar euogfarnau troseddol, a chyfeiriodd at yr amcanion polisi sy'n sail i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Cyfeiriodd yr sefydliad at achos *Hurbain v Belgium* [GC] (2023) yn Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECHR). Dywedodd fod hwn yn nodi ystyriaethau perthnasol gan gynnwys yr amser a aeth heibio ers cyhoeddi, ymddygiad ac amgylchiadau'r unigolyn dan sylw, canlyniadau negyddol bod y deunydd yn dal ar gael, a pha mor hygyrch oedd y deunydd archif. Gofynnodd yr sefydliad hwn am ganllawiau gan Ofcom sy'n egluro y byddem yn ystyried y mathau hyn o ffactorau wrth asesu tegwch mewn deunydd ar-lein. Gwnaeth yr ymatebydd hwn hefyd sylwadau ar ddehongliad arfaethedig Ofcom o ran pryd mae deunydd ar-lein y BBC yn cael ei "bostio am y tro cyntaf". Rydym yn trafod hyn ym mharagraffau 5.27 - 5.29 isod. [186]

Ein penderfyniad

6.41 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â geiriad arfaethedig wedi'i addasu'r Cod Tegwch at ddibenion Deunydd Ar-lein y BBC. Caiff ei gyhoeddi fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

---

[180] Ymateb BBC, t.3-4
[181] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.13
[182] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.13
[183] Ymateb Corvelo, D. t.36
[184] Ymateb CAMERA.org, t.11
[185] Ymateb CAMERA.org, t.11
[186] Ymateb No Bars Ltd T/A DRIFT, t.5-8

6.42 O ran cais y BBC am esboniad pellach ynghylch sut y bydd Ofcom yn ystyried “darnau” o gynnwys (fel mân-luniau neu benawdau) o dan y Cod Tegwch, fel y nodir yn ein Canllawiau, mae Ofcom yn bwriadu ystyried y deunydd ar-lein yn ei gyfanrwydd, gan ystyried ei gynnwys llawn a’r deunydd o’i gwmpas, fel rydym yn ei wneud wrth ystyried cwynion darlledu. Fodd bynnag, os yw cwyn ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd yn ymwneud ag elfen benodol o’r cynnwys, fel pennawd, efallai y byddwn yn ystyried ym mha gyd-destun y byddai cynulleidfaoedd yn debygol o gael gafael ar hyn, fel y tebygolrwydd y byddai cynulleidfaoedd yn dod ar draws y cyd-destun ychwanegol a ddarperir yn yr erthygl lawn. Beth bynnag, mae Ofcom yn annog y BBC i sicrhau bod pob agwedd ar ei ddeunydd ar-lein yn cydymffurfio â’r Cod Tegwch ac nad yw unrhyw “ddarnau” a welir ar eu pennau eu hunain yn arwain at driniaeth annheg neu anghyfiawn neu’n tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

6.43 Nodwn awgrymiadau’r ymatebwyr ynghylch sut y dylai Ofcom asesu tegwch mewn cyd-destun ar-lein. Mae Ofcom yn bwriadu cymhwyso’r Cod Tegwch i ddeunydd ar-lein yn yr un ffordd ag yr ydym yn ei wneud o dan y Cod Darlledu. Yn ogystal â chynnwys egwyddorion sydd i’w dilyn, mae’r Cod Tegwch yn nodi “arferion i’w dilyn” gan ddarlledwyr wrth ddelio ag unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu mae'r rhaglenni'n effeithio arnyn nhw’n uniongyrchol fel arall. Mae’r rhain yn rhoi canllawiau sy'n ymwneud ag osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni a tharfu’n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni, neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddyn nhw. Mae’n bwysig nodi nad yw’r Cod Tegwch yn gallu nac yn ceisio nodi’r holl “arferion i’w dilyn” er mwyn osgoi triniaeth annheg, a bydd asesiad Ofcom yn ystyried amgylchiadau penodol pob achos gan edrych ar yr holl ffactorau cyd-destunol perthnasol.

6.44 O ran yr ymatebion a oedd yn dadlau y dylai Ofcom ystyried asesu tegwch dros amser, mae Ofcom yn cydnabod y gall fod amgylchiadau eithriadol lle bydd ffeithiau perthnasol yn newid ar ôl i ddeunydd ar-lein gael ei bostio am y tro cyntaf a lle gallai hyn arwain at annhegwch i unigolyn neu sefydliad. Er enghraifft, gallai ymchwiliadau sy’n weddill neu achosion cyfreithiol ddod i ben neu gallai euogfarn droseddol gael ei diddymu. Wrth ystyried a yw’r deunydd ar-lein sydd ar gael ar hyn o bryd yn arwain at driniaeth anghyfiawn neu annheg i unigolyn neu sefydliad, gall Ofcom ystyried ffactorau fel: amserlen y newid mewn ffeithiau perthnasol; y tebygolrwydd y bydd cynulleidfaoedd yn cael gafael ar y deunydd ar-lein ar ôl i’r ffeithiau perthnasol newid; a/neu i ba raddau y gallai’r BBC fod wedi gwybod yn rhesymol am newid mewn ffeithiau perthnasol. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gŵyn ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd a wneir i Ofcom gael ei gwneud yn unol â pharagraffau 5.2 o’n gweithdrefnau, sy’n datgan y dylid cyflwyno cwynion cyn pen 30 diwrnod ar ôl i’r deunydd ar-lein gael ei “bostio am y tro cyntaf”. Rydym yn mynd i’r afael ag ymatebion i’r rhan hon o’r gweithdrefnau yn adran 5.47 – 5.62 isod.

6.45 Mae Ofcom yn bwriadu mynd ati maes o law i ddiweddaru’r Nodiadau Cyfarwyddyd presennol ar gyfer Adrannau Saith ac Wyth o’r Cod Darlledu i ystyried yr uchod.

7. Gweithdrefnau

Cefndir y gweithdrefnau

7.1 Fel y nodir yn Adran 2 y Datganiad hwn, mae rôl reoleiddio Ofcom hyd yma mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC wedi cael ei nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC a'i hamlinellu hefyd yn y Trefniant Ar-lein. O dan y Trefniant Ar-lein hwn, rydym wedi bod yn gyfrifol am ystyried a rhoi barn (gan gynnwys argymhellion o'r fath rydym yn eu hystyried yn briodol) ynghylch a wnaeth y BBC lynu at Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunydd ar-lein.

7.2 Fodd bynnag, ers cyhoeddi Cytundeb Fframwaith diweddaraf y BBC ym mis Rhagfyr 2025, mae cyfrifoldebau rheoleiddiol Ofcom wedi cael eu hymestyn i gynnwys gorfodi safonau cynnwys deunydd ar-lein a gyhoeddwyd fel rhan o Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Fel yr amlinellwyd uchod, yn ogystal â dilyn Cod Deunydd Ar-lein y BBC[187], rhaid i'r BBC hefyd ddilyn Cod Tegwch[188] Ofcom i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau yn y Cod Tegwch yn berthnasol i ddarparu Deunydd Ar-lein y BBC.

7.3 Fe wnaethom gynnwys yn ein Hymgynghoriad Ffigur 2 (isod) sy'n dangos sut mae hyn wedi newid ein rôl mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio i gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC:

Ffigur 2: Pwerau rheoleiddio blaenorol a newydd mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC

Goruchwyliaeth reoleiddiol blaenorol mewn perthynas â Chanllawiau Golygyddol y BBC	Gorfodi'r Cod newydd
Roedd yn rhaid i'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i'r BBC yn y lle cyntaf, cyn y gallai Ofcom ystyried cwyn ('BBC yn Gyntaf').	Rhaid i'r rheini sy'n cwyno gwblhau proses BBC yn Gyntaf cyn y gall Ofcom ystyried cwyn, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Nid yw proses BBC yn Gyntaf yn berthnasol i'r rheini sy'n cyflwyno cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd o dan Adran Saith neu Adran Wyth o'r Cod Darlledu, fel y mae wedi'i haddasu ar gyfer deunydd ar-lein y BBC.
Aseswyd cwynion yn erbyn Canllawiau Golygyddol y BBC.	Mae Ofcom yn asesu cwynion yn erbyn y Cod.
Asesodd Ofcom y gŵyn. Os cafodd ei derbyn, cyhoeddodd Ofcom farn nad yw'n rhwymo (gan gynnwys argymhellion y mae Ofcom yn credu sy'n briodol) ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth ei Ganllawiau Golygyddol.	Ofcom sy'n asesu'r gŵyn. Os bydd cwyn am safonau cynnwys yn codi materion sy'n cyfiawnhau ymchwiliad o dan adrannau 1-6 o'r Cod, bydd Ofcom yn lansio ymchwiliad. Gall ymchwiliadau arwain at ganfod achosion o 'dorri' amodau.

[187] Paragraff 3A(8), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[188] Fel yr amlinellwyd uchod, mae Cod Tegwch Ofcom wedi'i gynnwys yn Adran Saith (Tegwch) ac Adran Wyth (Preifatrwydd) o'r Cod Darlledu.

Goruchwyliaeth reoleiddiol blaenorol mewn perthynas â Chanllawiau Golygyddol y BBC	Gorfodi'r Cod newydd
	Mewn perthynas â chwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd o dan adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu, fel y'u haddaswyd ar gyfer deunydd ar-lein y BBC, bydd Ofcom yn cyhoeddi Penderfyniad i'w Ystyried, sy'n nodi a yw meini prawf penodol wedi cael eu bodloni er mwyn i Ofcom ymchwilio iddynt. Os bodlonir y meini prawf hyn, bydd Ofcom yn dod i ddyfarniad terfynol ynghylch a yw'r Cod wedi cael ei dorri.
Nid oedd safbwyntiau ac argymhellion yn rhwymol ac nid oedd gorfodi safonau drwy sancsiynau yn opsiwn.	Gall achosion difrifol, bwriadol, ailadroddus neu fyrbwyll o dorri'r rheolau arwain at sancsiynau.
Roedd y diffiniad/goruchwyliaeth o 'ddeunydd ar-lein' wedi'i gyfyngu i ddeunydd ar wefannau ac apiau'r BBC.	Mae diffinio/rheoleiddio deunydd ar-lein yn cynnwys deunydd ar wefannau, apiau a chynnwys brand y BBC ar wefannau, rhaglenni a rhyngwynebau trydydd parti (fel cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos).

Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys

Yr hyn roeddem yn ei gynnig

7.4 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad fod Cymal 57 y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan Gymal 4 y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) yn mynnu bod Ofcom yn "gosod ac yn cyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion perthnasol" a gyfeirir naill ai ar ôl cwblhau proses 'BBC yn Gyntaf' neu fel arall mewn amgylchiadau eithriadol, ac mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r gweithdrefnau ddarparu ar ei gyfer. Mae "cwynion perthnasol" yn gwynion nad yw'r BBC wedi cydymffurfio â gofyniad penodol.[189] Mae'r gofynion penodedig yn cynnwys unrhyw rai o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol yn atodlen 3 (ac eithrio paragraff 2 a 3A(1)).[190] Felly, mae'r un fframwaith craidd yn berthnasol i'r ffordd rydym yn delio â chwynion am safonau cynnwys mewn perthynas â'r Cod Darlledu â'r Cod drafft. Fodd bynnag, roedd y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith yn diwygio Cymal 57 er mwyn cynnwys darpariaethau ychwanegol ar gyfer gweithdrefnau cwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC. Mae hyn yn cynnwys gosod amserlenni ar gyfer cyflwyno cwynion i'r BBC ac i Ofcom mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC ac sy'n benodol i ddeunydd ar-lein.

7.5 Y teitl a gynigiwyd gennym ar gyfer y gweithdrefnau hyn oedd 'Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn Neunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU' ("Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC").

[189] Cymal 56(9) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[190] Cymal 59, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch Cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd

7.6 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad nad oes yn rhaid i gwynion ynghylch sut mae'r BBC yn cadw at y Cod Tegwch (i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC) ddilyn y broses 'BBC yn Gyntaf', felly nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn berthnasol i gwynion o'r fath.[191] Gan nad yw'r Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) yn darparu nac yn gosod gofynion gweithdrefnol ar Ofcom ynghylch delio â chwynion sy'n ymwneud â'r Cod Tegwch, rydym wedi drafftio gweithdrefnau ar wahân sy'n adlewyrchu'n agos weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried cwynion ynghylch y ffordd mae'r BBC yn cadw at y Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd sy'n cael ei ddarlledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alw.[192] Fodd bynnag, yn ein Hymgynghoriad gwnaethom egluro ein bod hefyd wedi ystyried y gofynion gweithdrefnol a nodir yng Nghymal 57 y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan Gymal 4 y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) sy'n ymwneud â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC gan y bydd yr un ystyriaethau sylfaenol ar gyfer y darpariaethau penodol sy'n ymwneud â chwynion safonau cynnwys am ddeunydd ar-lein y BBC hefyd yn berthnasol i gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y Cod Tegwch.

7.7 Y teitl a gynigiwyd gennym ar gyfer y gweithdrefnau hyn oedd 'Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd: Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU' ("Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC").

Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC

7.8 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad fod Cymal 57 y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan Gymal 4 y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) hefyd yn mynnu bod y gweithdrefnau safonau cynnwys hefyd yn rhoi canllawiau clir sy'n egluro'r atebion a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio.[193][194] Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn darparu gweithdrefnau ar gyfer sancsiynau ynghylch cwynion sy'n ymwneud â'r ffordd mae'r BBC yn cadw at y Cod Tegwch, gwnaethom gynnig diwygio'r Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw'r BBC i roi arweiniad clir sy'n egluro'r atebion a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio mewn perthynas â chwynion o dan y Cod.

7.9 Y teitl a gynigiwyd gennym ar gyfer y gweithdrefnau wedi'u diweddaru hyn oedd 'Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cosbau am dorri safonau cynnwys y BBC: Gwasanaethau darlledu'r BBC; gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC; deunydd ar-lein y BBC (y "Gweithdrefnau Cosbau")'.

---

[191] Cymal 55(5) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, sy'n nodi, o dan weithdrefnau cwyno'r BBC ei hun, nad oes yn rhaid i gwynion sy'n ymwneud â'r Cod Tegwch gael eu datrys fel arfer gan y BBC yn y lle cyntaf.
[192] Gweler y ddogfen ganlynol gan Ofcom: Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC.
[193] Cymal 59(3)(b)(ii), y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[194] Mae Erthygl 49 o Siarter y BBC yn rhoi pwerau gorfodi i Ofcom i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â "gofynion penodol", fel y'u diffinnir yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru neu'r Fframwaith Gweithredu.

Y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer deunydd ar-lein y BBC

Trosolwg

7.10 Mae Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC a gynigiwyd gennym yn nodi'r fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gyfer trin a datrys cwynion (neu gynnal ymchwiliadau Ofcom ei hun) am gydymffurfiad y BBC â'r safonau cynnwys sydd wedi'u gosod o dan adran 319 y Ddeddf, y gofynion sydd wedi'u gosod o dan adran 320 o'r Ddeddf, Siarter y BBC, y Cytundeb Fframwaith fel y'i diwygiwyd gan ddiweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith).

7.11 Mae Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC yn nodi, ymysg pethau eraill: y broses arfaethedig y byddai Ofcom yn ei dilyn i asesu ac ymchwilio i gwynion am safonau cynnwys; y gofyniad bod y sawl sy'n cwyno yn cyflwyno cwynion am safonau cynnwys yn uniongyrchol i'r BBC yn y lle cyntaf (proses 'BBC yn Gyntaf'); yr amgylchiadau lle gall Ofcom wyro oddi wrth y gweithdrefnau; ac enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol lle gall Ofcom gyflymu ei brosesau.

Dull gweithredu arfaethedig

Cysondeb â'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru

7.12 Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn gosod gofynion gweithdrefnol ar Ofcom, sef:

a) Rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod deunydd ar-lein y BBC wedi cael ei bostio ar ôl y dyddiad cychwyn. Diffinnir y dyddiad cychwyn fel y dyddiad y mae Ofcom yn cyhoeddi'r weithdrefn gyntaf (neu'r gweithdrefnau cyntaf) sy'n darparu ar gyfer trin a datrys cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC;
b) wrth benderfynu ar gŵyn a wneir am ddeunydd ar-lein y BBC a gafodd ei bostio ar ôl y dyddiad cychwyn, caiff Ofcom ystyried deunydd a gafodd ei bostio cyn y dyddiad hwnnw, os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny; a
c) rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod y gŵyn wedi cael ei chyflwyno i'r BBC i ddechrau cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.[195]

7.13 Felly cafodd ein Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC eu drafftio yn unol â'r gofynion hyn.

"Postiwyd am y tro cyntaf"

7.14 Gwnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein hystyriaethau ynglŷn â'r dyddiad pan fydd deunydd ar-lein y BBC yn cael ei "bostio am y tro cyntaf", sy'n pennu pryd mae'r "cloc" yn dechrau i berson gwyno. Gwnaethom gydnabod, yn wahanol i gynnwys darlledu, sy'n ymwneud â moment statig mewn amser (y pwynt darlledu), gellir diwygio, diweddaru ac ail-rannu deunydd ar-lein yn barhaus mewn gwahanol gyd-destunau.

7.15 Er mwyn mynd i'r afael â realiti rheoleiddio cynnwys mewn byd ar-lein, roedd ein gweithdrefnau arfaethedig yn nodi sut yr oeddem yn bwriadu asesu pryd cafodd deunydd

[195] Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd.

ar-lein y BBC ei "bostio am y tro cyntaf". Gwnaethom esbonio mai ein man cychwyn fyddai penderfynu ar y dyddiad y cyhoeddwyd y cynnwys perthnasol am y tro cyntaf ar lwyfan. Fodd bynnag, roedd ein gweithdrefnau arfaethedig yn cydnabod pan fydd ymyriad golygyddol arwyddocaol wedi bod, er enghraifft, pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau sylweddol i gynnwys a/neu amlygrwydd deunydd ar-lein y BBC ar ôl iddo gael ei bostio am y tro cyntaf, gall Ofcom ystyried mai'r dyddiad y gwnaed y newidiadau sylweddol yw'r dyddiad y cafodd y deunydd ei "bostio am y tro cyntaf".

7.16 Gwnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein cynnig y gallai newidiadau sylweddol i gynnwys deunydd ar-lein y BBC gynnwys, er enghraifft, newidiadau arwyddocaol i ddeunydd ar-lein, cyhoeddi cywiriad neu eglurhad, neu newidiadau i ddelweddau a/neu gynnwys fideo sy'n newid ystyr y deunydd ar-lein. Gwnaethom ddweud yn ein Hymgynghoriad na fyddem yn disgwyl i newidiadau, fel cywiro gwallau teipograffyddol, fod yn sylweddol, oni bai fod newidiadau o'r fath yn newid ystyr y deunydd ar-lein.

7.17 Gwnaethom hefyd gynnig y gallai newidiadau sylweddol i amlygrwydd deunydd ar-lein y BBC gynnwys symud y deunydd ar-lein i leoliad mwy gweladwy ar ryngwyneb ar-lein, neu ddod yn hygyrch drwy hyperddolen sydd wedi'i chynnwys mewn eitem arall o ddeunydd ar-lein. Gwnaethom ddweud y byddai newidiadau sylweddol i amlygrwydd deunydd ar-lein y BBC yn gofyn am ymyriad golygyddol ac felly ni fyddai'n cynnwys, er enghraifft, yr un erthygl yn ymddangos yn organig mewn lleoliad mwy gweladwy ar ryngwyneb ar-lein oherwydd diddordeb darllenwyr.

Proses "BBC yn Gyntaf"

7.18 Mae proses "BBC yn Gyntaf" yn egwyddor hirsefydlog sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac mae'n sail i'r prosesau y mae Ofcom yn eu defnyddio i ddelio â chwynion am safonau cynnwys Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw a darlledu'r BBC.

7.19 Mae Cymal 56(5)(a) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn darparu bod yn rhaid i'r BBC ddatrys pob cwyn am safonau cynnwys sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC yn y lle cyntaf. Fel y nodir uchod, mae'r Fframwaith wedi'i Ddiweddaru yn darparu'n benodol ar gyfer proses BBC yn Gyntaf yng nghyd-destun sut mae Ofcom yn ystyried cwynion am safonau cynnwys: "Rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod y gŵyn wedi cael ei chyflwyno i'r BBC i ddechrau cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol".

7.20 Mae Cymal 56(5) o'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn darparu eithriad i'r rheol gyffredinol hon o ran "cwynion sy'n ymwneud â'r Cod Tegwch". Nid oes rhaid i'r sawl sy'n cwyno ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd gwyno wrth y BBC yn y lle cyntaf a gall gyflwyno cwyn i Ofcom yn uniongyrchol. Mae rhagor o fanylion ar gael isod.

Cysondeb â Gweithdrefnau Safonau Cynnwys y Cod Darlledu

7.21 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad, pan nad yw'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn darparu ar gyfer gofynion gweithdrefnol ar Ofcom nac yn eu gosod, ein nod oedd bod yn gyson â Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Darlledu'r BBC. [196]

[196] Y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

7.22 Roeddem hefyd yn cydnabod y gall y sawl sy'n cwyno geisio cwyno o dan y Cod Darlledu am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar sianeli llinol y BBC neu ei lwytho i fyny ar wasanaeth rhaglenni ar-alw[2], ac ar yr un pryd, cwyno am yr un cynnwys neu gynnwys tebyg sy'n cael ei bostio yng nghyd-destun deunydd ar-lein y BBC. Felly, gwnaethom egluro mai ein bwriad oedd i'n gweithdrefnau fod mor gyson â phosibl, er mwyn cyflawni ein nod o gael gweithdrefnau sy'n hygyrch, yn dryloyw ac yn syml i'r BBC ac i achwynwyr.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

7.23 Roedd chwe ymatebydd wedi gwneud sylwadau ar y Gweithdrefnau arfaethedig hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cefnogi'r bwriad i sicrhau cysondeb â'r Gweithdrefnau ar gyfer safonau darlledu, a ddisgrifiwyd fel man cychwyn "rhesymol"[197] a "chyfarwydd a chymesur"[198], honiad sy'n "gwneud synnwyr"[199] ac yn "sylfaen gref".[200] Fodd bynnag, gwnaethant sylwadau manwl ar y broses gwyno arfaethedig, yn ogystal â chyflwyno safbwyntiau mwy cyffredinol ar system BBC yn gyntaf, y cynigion ynghylch dehongliad Ofcom o "bostio am y tro cyntaf", a'r cysyniad o gwynion thematig. Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n gryf â'r bwriad i gynnal cysondeb â'r Gweithdrefnau ar gyfer safonau darlledu.[201]

Y broses gwyno arfaethedig

7.24 Cafwyd sylwadau gan bedwar ymatebydd ar y broses gwyno arfaethedig. Awgrymodd y TACC y dylai Ofcom wneud cwynion yn haws eu defnyddio ac yn fwy effeithiol. Pwysleisiodd y dylai pobl ddeall sut i gwyno, beth sy'n digwydd nesaf, a sut y gall problemau difrifol neu broblemau sy'n codi dro ar ôl tro arwain at weithredu ehangach. [202] Yn benodol, nododd y dylai'r rheini sy'n cwyno: fel arfer, cael crynodeb heb fod yn gyfrinachol o ymateb sylweddol y BBC; gallu cywiro camddealltwriaethau sylweddol a chyflwyno tystiolaeth berthnasol; cael eu gwahodd i wneud sylwadau pan fydd Safbwynt Rhagarweiniol[203] Ofcom yn cyflwyno rhesymeg newydd (roedd CAMERA.org wedi ategu'r pwynt hwn hefyd, gan ddadlau dros "mwy o gydraddoldeb gweithdrefnol rhwng y BBC ac achwynwyr."[204]); a chael addasiadau rhesymol yn ogystal â rhesymau dros unrhyw benderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r mater. Ychwanegodd y dylai Ofcom anfon penderfyniadau a rhesymau cryno yn uniongyrchol at y rheini sy'n cwyno a chyhoeddi data cwynion a gorfodi strwythuredig gan ddiogelu manylion adnabod personol. Awgrymodd y TACC y dylai rheolau sy'n ymwneud â pheidio â datgelu ganiatáu cymorth cyfrinachol yn benodol gan gyfreithwyr, sefydliadau eiriolaeth, ymchwilwyr, gweithwyr cymorth a chynrychiolwyr.[205] Roedd hefyd wedi gwneud sylwadau ar y potensial i enw'r sawl sy'n cwyno gael ei rannu â'r BBC a dadleuodd y dylid sicrhau, mewn rhai achosion, mai "cyfrinachedd yw'r drefn ddiofyn oni bai fod angen datgelu

---

[197] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.13
[198] Ymateb Corvelo, D. t.19
[199] Ymateb CAMERA.org, t.16
[200] Ymateb Elliott, E. t.2
[201] Ymateb News-watch, t.1, t.6
[202] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.2
[203] Yn y Gweithdrefnau arfaethedig, nodwyd ym mharagraff 11.1, ar gyfer cwyn lle mae Ofcom wedi lansio ymchwiliad, y byddem yn paratoi ein Safbwynt Rhagarweiniol ar sylwedd y gŵyn, ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig y BBC pan fydd rhai wedi cael eu darparu. Dim ond dros dro fyddai'r Safbwynt Rhagarweiniol hwn ac fe allai newid yng ngoleuni deunydd/sylwadau dilynol a ddarperir gan y BBC.
[204] Ymateb CAMERA.org t.16
[205] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.14

manylion er mwyn sicrhau penderfyniad teg, a bod yr achwynydd wedi cael gwybod am hynny".[206]

7.25 Eglurodd unigolyn ei farn y dylai cwyn ac unrhyw Safbwynt Rhagarweiniol nodi'r eitem ar-lein, y fersiwn berthnasol, y gydran berthnasol, y lleoliad a'r amser yn fras y daethpwyd ar ei draws, gydag URL yn unig o bosibl yn "annigonol".[207] Dywedodd hefyd y dylai'r Gweithdrefnau ddarparu ar gyfer cyflymu cwyn "lle mae amlygrwydd parhaus yn creu risg ddifrifol y gellir ei hatal yn rhwydd ar yr un pryd â pharchu cyfle'r BBC i wneud sylwadau". Gwnaeth sylwadau manwl ar yr amserlenni trin arfaethedig, y rhesymeg sy'n ofynnol ar gyfer caniatáu estyniadau, a natur y canlyniadau cyhoeddedig.[208]

7.26 Roedd News-watch hefyd wedi gwneud sylwadau manwl, gan ddadlau y dylai Ofcom gyhoeddi nifer y cwynion ar-lein sy'n dod i law, y rhai a wrthodwyd yn weithdrefnol, y rhai a gafodd eu hasesu, eu hymchwilio a'u cadarnhau; y rhesymau a'r amser a aeth heibio; a'r nifer a oedd yn ymwneud â didueddrwydd neu honiadau cronnus. Dadleuodd y dylai cwynion sy'n seiliedig ar ymchwil fod yn gymwys ar gyfer estyniad lle nad oes modd nodi, casglu, trawsgrifio a dadansoddi corpws cynrychioliadol yn rhesymol o fewn 30 diwrnod gwaith.[209] Soniodd y TACC hefyd am y potensial i gael estyniad i'r cyfnod.[210]

"Postiwyd am y tro cyntaf"

7.27 Roedd dau unigolyn a pedwar sefydliad wedi ymateb i'r mater hwn.[211] Roedd y rhan fwyaf wedi gwneud awgrymiadau penodol ar gyfer y math o newidiadau sylweddol y dylai fod yn ofynnol i'r BBC gadw tystiolaeth amdanynt at ddibenion gweinyddu cwynion. Dywedodd un sefydliad y dylai "fod yn orfodol" i'r BBC gadw'r cofnod tystiolaeth, yn enwedig o ystyried natur newidiol barhaus deunydd ar-lein o'i gymharu â chynnwys sy'n cael ei ddarlledu.[212] Fodd bynnag, eglurodd un arall "na ddylai hyn ddod yn ddyletswydd i gadw pob golygiad technegol" ac y dylai'r dyddiad postio gwreiddiol "barhau i fod y manylyn diofyn."[213] Roedd traean yn dadlau bod yr ymadrodd "lle bo hynny'n briodol" ym mharagraff 8.3 y Gweithdrefnau arfaethedig[214] yn "rhy wan ar gyfer diwygiadau sylweddol."[215] Awgrymodd ymatebydd arall y dylai Ofcom lunio canllawiau pellach sy'n ei gwneud yn glir bod newid sylweddol o ran amlygrwydd yn bosibl:

> "o'r ystod lawn o benderfyniadau golygyddol bwriadol a ddefnyddir i wneud deunydd ar-lein y BBC yn weladwy neu'n llawer mwy gweladwy, hygyrch neu amlwg yn gyd-destunol, yn hytrach na dim ond drwy newidiadau i'r erthygl sylfaenol ei hun."

---

[206] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.14
[207] Ymateb Corvelo, D. t.19
[208] Ymateb Corvelo, D. t.19
[209] Ymateb News-watch, t.6
[210] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.14
[211] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, No Barss Ltd T/A DRIFT, CAMERA.org, Elliot, E, Corvelo, D.
[212] Ymateb CAMERA.org, T, 15-16
[213] Ymateb Corvelo, D. t.19
[214] Roedd paragraff 8.3 y Gweithdrefnau arfaethedig yn nodi "Mae disgwyl i'r BBC roi gwybod i Ofcom a oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i ddeunydd ar-lein y BBC ar ôl iddo gael ei bostio am y tro cyntaf, gan nodi beth yw'r newidiadau hynny, a darparu cofnod o'r newidiadau, lle bo hynny'n briodol."
[215] Ymateb Elliot, E t.2

7.28 Eglurodd yr sefydliad y dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i ddeunydd a bostiwyd yn wreiddiol cyn i'r Cod arfaethedig ddechrau, yn enwedig mewn perthynas â deunydd sy'n cynnwys gwybodaeth am unigolion adnabyddadwy.[216]

7.29 Darparodd y TACC sylwadau hefyd, gan awgrymu y dylai unrhyw asesiad ynghylch a yw newid ar ôl cyhoeddi yn un sylweddol ganolbwyntio ar effaith camau gweithredu'r BBC yn hytrach na maint technegol y newid, yn enwedig mewn perthynas ag a yw'r BBC wedi cyflwyno eitem bresennol i gynulleidfa newydd neu gynulleidfa fwy o lawer. Dadleuodd hefyd y dylai asesiad sylweddol "fod yn ansoddol", gan y gallai newidiadau bach (er enghraifft, sy'n ymwneud â phwy ydy rhywun) o bosibl gael effaith fwy sylweddol ar ystyr eitem na diweddariad ffeithiol llawer hirach. Yn olaf, dadleuodd y dylai Ofcom ddarparu arweiniad ar y ffactorau sy'n pennu perthnasedd.[217]

Proses "BBC yn Gyntaf"

7.30 Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau a oedd yn cyfeirio at baragraff 5.4 y Gweithdrefnau arfaethedig. Roedd y rhain yn ymwneud â'r amgylchiadau eithriadol lle caiff Ofcom gamu i mewn yn gynharach er mwyn delio â chwyn nad yw wedi cael ei datrys gan y BBC a'i datrys ei hun. Awgrymodd un ymatebydd y dylai amgylchiadau o'r fath gynnwys niwed seicolegol aciwt i oedolyn agored i niwed, aflonyddu cydlynol parhaus, trawma a phrofedigaeth.[218] Dadleuodd un arall y dylai amgylchiadau o'r fath gynnwys "rhwystrau go iawn i fynediad neu gyfathrebu, oedi cyn darganfod newid sylweddol [neu] analluogrwydd ac anallu rhesymol i gwblhau proses y BBC." Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd hwn yn glir na ddylai amgylchiadau o'r fath ddod yn ffordd arferol o osgoi BBC yn Gyntaf.[219]

7.31 Awgrymodd y TACC y dylai'r broses gyfeirio mewn perthynas â chŵyn fod yn gliriach. Roedd yn dadlau, pan fydd BBC yn Gyntaf yn berthnasol, y dylai cwyn a gyflwynir i Ofcom "fod yn drosglwyddadwy i'r BBC gyda chaniatâd" ac y dylai cwynion cymysg ynghylch tegwch a safonau cynnwys gael eu gwahanu a'u cyfeirio "heb ailgyflwyno na cholli'r dyddiad cyflwyno gwreiddiol."[220]

Cwynion thematig

7.32 Dywedodd pedwar ymatebydd y dylai Ofcom dderbyn cwynion thematig (yn ogystal â chwynion am eitemau ar-lein unigol neu gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol).[221] Cyfeiriodd CAMERA.org at y potensial ar gyfer "patrwm sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws nifer o eitemau o allbwn y BBC, hyd yn oed pan allai eitem sy'n cael ei hystyried ar ei phen ei hun beidio ag ymddangos yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad." Roedd yn dadlau bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cwynion am gywirdeb dyladwy a dideddrwydd dyladwy.[222] Awgrymodd un arall hefyd y dylai Ofcom ganiatáu cwynion am gyfres neu batrwm cysylltiedig, hyd yn oed pan nad oedd y BBC wedi labelu'r eitemau'n ffurfiol fel cyfres.[223]

---

[216] Ymateb No Bars Ltd T/A DRIFT tt.9-11
[217] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.15
[218] Ymateb Elliot, E t.6
[219] Ymateb Corvelo, D, t.19
[220] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.14
[221] Ymateb News-watch, t.6, Trans Advocacy & Complaints Collective, t.14, CAMERA.org, t.16, Elliott, E, t.6
[222] Ymateb CAMERA.org t.15
[223] Ymateb Elliot, E t.2

7.33 Yn yr un modd, roedd ymateb News-watch yn ystyried yr hyn a alwodd yn "batrwm cronnol".[224] Roedd yn dadlau nad yw'r Cod a'r Gweithdrefnau arfaethedig yn "darparu unrhyw lwybr ar gyfer dyfarnu patrwm sy'n seiliedig ar dystiolaeth briodol ar draws allbwn sydd wedi'i gomisiynu ar wahân ond sy'n gysylltiedig yn thematig".[225] Roedd hefyd yn dadlau y gallai'r broblem fod yn fwy difrifol yn yr amgylchedd ar-lein, wrth i "newyddiaduraeth ar-lein ddwysáu pŵer golygyddol cronnus". Awgrymodd fod "clip sy'n cael ei dynnu o raglen ddiduedd yn gallu creu effaith olygyddol benodol" a bod "amlygrwydd ac ailadrodd yn ffenomena cronnus; mae'n rhaid i'r Cod ddarparu uned asesu gronnus."[226] Aeth ymlaen i ddadlau y dylai'r Cod a'r Gweithdrefnau sefydlu "porth ar gyfer cwynion ailadroddus neu systemig", lle gall yr achwynydd nodi'r mater perthnasol, y cyfnod, y gwasanaethau neu'r cyfrifon, y corpws neu'r sampl, y dull dethol a'r math o anghydbwysedd honedig. Awgrymodd hefyd y dylai Ofcom asesu a yw'r gŵyn sy'n cael ei chyflwyno yn codi cwestiwn cronnus a allai fod yn sylweddol ac, os felly, ymchwilio i'r "corpws fel y'i cyflwynwyd", yn ogystal â chael data perthnasol sydd gan y BBC am gomisiynu, cysylltu, amlygrwydd, cyrhaeddiad a dosbarthiad.[227] Ategwyd y safbwynt hwn gan y TACC, a oedd yn dadlau y dylai'r Gweithdrefnau arfaethedig ddarparu ar gyfer materion cronnus a systemig drwy ganiatáu grwpiau diffiniedig o eitemau cysylltiedig, cyfuno cwynion sy'n ymwneud â'r un ymarfer, tystiolaeth patrwm gan sefydliadau cynrychioladol, ymchwiliadau thematig neu ar ei liwt ei hun, ac archwilio systemau golygyddol perthnasol.[228]

7.34 Roedd News-watch hefyd yn dadlau na ddylai proses BBC yn Gyntaf orfodi achwynydd sy'n honni patrwm cronnus "i gyflwyno a dilyn cwyn ar wahân ar gyfer pob eitem". Dadleuodd y dylai Ofcom dderbyn atgyfeiriad uniongyrchol neu gyflym "lle mae'r BBC eisoes wedi mabwysiadu safbwynt pendant ar y mater golygyddol llywodraethol, lle byddai dilyn pob eitem yn unigol yn anghymesur, lle mae'r dystiolaeth yn ymwneud â phatrwm parhaus, neu lle byddai oedi'n atal gwneud dyfarniad effeithiol".[229]

Ein penderfyniad

7.35 Mae Ofcom yn cydnabod y sylwadau a gafwyd am y broses gwyno arfaethedig, yn enwedig o ran ei thryloywder a'i heglurder. Fodd bynnag, fe wnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad y bwriad i gynnal cysondeb â'r Gweithdrefnau presennol ar gyfer safonau darlledu, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi hyn. Ar sail ein profiad presennol, rydym yn hyderus y bydd y Gweithdrefnau arfaethedig yn darparu digon o dryloywder ac eglurder ynghylch ein proses gwyno ar gyfer deunydd ar-lein y BBC. Fodd bynnag, byddant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd yn sgil rhoi'r drefn newydd ar waith ar gyfer deunydd ar-lein y BBC. Er hynny, rydym wedi gwneud dau ddiwygiad i Weithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC ers ein Hymgynghoriad er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir yr amserlenni a'r wybodaeth a nodir yn Fframwaith Cwynion y BBC ei hun.[230]

---

[224] Ymateb News-watch, t.6
[225] Ymateb News-watch, t.1
[226] Ymateb News-watch, t.4
[227] Ymateb News-watch, t.6
[228] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.14
[229] Ymateb News-watch, t.6
[230] Yn hyn o beth, rydym wedi newid y geiriad ym Mharagraff 7.6 o Weithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC i egluro yng Ngham 1b o'i broses gwyno mai "nod y BBC yw ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith i'r adeg y mae'r gŵyn yn dod i law, er ei fod hefyd yn egluro y bydd yn cymryd mwy o amser i ymchwilio

7.36 Mewn perthynas ag awgrym News-watch y dylai Ofcom gyhoeddi data am gwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC, gallwn gadarnhau y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC. Mewn ymateb i'w honiad y dylai cwynion sy'n seiliedig ar ymchwil fod yn gymwys i gael estyniad, nodwn fod Fframwaith Cwynion y BBC ei hun yn cynnwys terfynau amser ar gyfer cwyno ac mae'n tynnu sylw at y ffaith mai dim ond mewn amgylchiadau penodol y bydd yn ystyried cwynion sy'n dod i law y tu allan i'r terfynau amser hyn, gan gynnwys a yw'n "ymarferol ac yn gost-effeithiol ymchwilio iddynt a'u barnu'n deg".[231] Am yr un rheswm, nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol ymestyn amserlenni fel mater o drefn ar gyfer cwynion sy'n seiliedig ar ymchwil. Fodd bynnag, mae'r Gweithdrefnau arfaethedig yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith y bydd Ofcom yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol (gan gynnwys esboniad y sawl sy'n cwyno dros yr oedi cyn cyflwyno'r gŵyn) wrth benderfynu a ddylai Ofcom ymchwilio i'r gŵyn os yw'n cael ei chyflwyno y tu allan i'r amserlenni a nodwyd. Rydym yn ystyried bod hyn yn ddigonol.

7.37 Mewn perthynas â sylwadau am "bostio am y tro cyntaf", mae Ofcom wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r awgrymiadau penodol ar gyfer y mathau o newidiadau sylweddol y dylai fod yn ofynnol i'r BBC gadw tystiolaeth yn eu cylch. Fodd bynnag, yn ein tyb ni, mae'r geiriad yn ein Gweithdrefnau arfaethedig yn ddigon cynhwysfawr ar y pwynt hwn ac eisoes yn cynnwys digon o ganllawiau i'r BBC yn y maes hwn.

7.38 Mewn perthynas â'r awgrym y dylai'r BBC gadw hanes cyhoeddi a diwygio llawn at ddibenion delio â chwynion, yn ein barn ni roedd y Gweithdrefnau arfaethedig yn cynnwys cyfeiriad at y mater hwn, yn unol ag Erthygl 47 o'r Siarter lle gall Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw un arall yn darparu gwybodaeth fel bod Ofcom yn gallu cyflawni ei swyddogaethau. Felly, roedd y Gweithdrefnau arfaethedig yn cynnwys paragraff 8.3, fel a ganlyn:

> *"8.3 Gall Ofcom ofyn i'r BBC ddarparu copi o ddeunydd ar-lein perthnasol y BBC (er enghraifft, cofnod o gynnwys archif) cyn pen pum niwrnod gwaith. Mae disgwyl i'r BBC roi gwybod i Ofcom a oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i ddeunydd ar-lein y BBC ar ôl iddo gael ei bostio am y tro cyntaf, gan nodi beth yw'r newidiadau hynny, a darparu cofnod o'r newidiadau, lle bo hynny'n briodol."*

7.39 Rydym wedi penderfynu bod y geiriad hwn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r mater.

7.40 O ran y sylwadau am "BBC yn Gyntaf", fel uchod, ein bwriad oedd cynnal cysondeb â'r Gweithdrefnau presennol ar gyfer cynnwys darlledu. Am y rheswm hwnnw, rydym wedi penderfynu bod ein geiriad arfaethedig yn ddigonol ynghylch enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol lle caiff Ofcom gamu i mewn yn gynharach er mwyn delio â chwyn nad yw wedi cael ei datrys gan y BBC a'i datrys ei hun.

7.41 Yn olaf, mewn perthynas â chwynion thematig, rydym wedi ystyried honiad News-watch a'r TACC yn ofalus, sef y dylai'r Cod a'r gweithdrefnau sefydlu mecanwaith ar gyfer ystyried y rhain. Fodd bynnag, fel y nodir yn llawn yn ymateb News-watch i'r Ymgynghoriad, mae haeriad tebyg eisoes wedi bod yn destun dwy her adolygiad barnwrol gan News-watch o

---

i rai cwynion nag eraill". Mae hyn yn adlewyrchu'r geiriad presennol ar t.15 o Fframwaith Cwynion y BBC ac mae'n diwygio'r datganiad blaenorol sef "y bydd y BBC yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn anelu at ymateb ar Gam 1b o fewn 20 diwrnod gwaith, neu 35 diwrnod gwaith yn achos cwynion mwy cymhleth." Rydym hefyd wedi dileu'r datganiad y bydd "y BBC yn rhoi gwybod i achwynwyr ar y dechrau pa amserlen sy'n berthnasol", gan nad yw hyn wedi'i nodi yn Fframwaith Cwynion y BBC.

[231] Fframwaith Cwynion y BBC, t.13

ran rheoleiddio yn y maes hwn.[232] Roedd y ddau'n ymwneud ag awdurdodaeth gorfodi: y cyntaf mewn perthynas â'r BBC ac a oedd yn rhaid iddo fonitro cynnwys ei raglenni'n systemig; yr ail mewn perthynas ag Ofcom ac a oedd yn rhaid iddo ystyried cwynion darlledu thematig ynghylch diduedddrwydd dyladwy. Nid oedd y naill na'r llall yn llwyddiannus.

7.42 Rydym wedi penderfynu na fyddai'n briodol ystyried cwynion thematig o dan y Cod. Mae ein dull arfaethedig o beidio ag asesu diduedddrwydd dyladwy mewn deunydd ar-lein y BBC yn ehangach nag ar lefel "cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol" yn gyson â'r gofynion a osodir ar Ofcom o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, lle mae'n rhaid i Ofcom osod safonau sy'n ymddangos i ni fel y rhai gorau i sicrhau amcanion safonau diduedddrwydd dyladwy sydd yn adran 319(2)(c), gan gynnwys y gofynion diduedddrwydd arbennig yn adran 320 y Ddeddf. Mae ein dull gweithredu yn hyrwyddo eglurder, sicrwydd ac ymarferoldeb, ac mae hefyd yn darparu'r gallu i gyflawni ar lefel ymarferol mewn perthynas ag unigolyn sy'n cael cyfrifoldeb golygyddol dros eitem ar-lein neu gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol.

7.43 Rydym hefyd yn credu bod y dull hwn yn taro'r cydbwysedd priodol lle: ni all y sawl sy'n cwyno ddefnyddio mesur byd-eang i ddibynnu ar batrymau neu effeithiau cronnus i ddangos diffyg diduedddrwydd dyladwy ar draws deunydd ar-lein y BBC yn gyffredinol; ond lle nad yw'r BBC, yn yr un modd, yn gallu defnyddio mesur byd-eang i ddibynnu ar batrymau neu effeithiau cronnus i ddangos presenoldeb diduedddrwydd dyladwy ar draws deunydd ar-lein yn gyffredinol.

7.44 Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n dull o gynnal cysondeb â'r Cod Darlledu lle nad ydym wedi nodi unrhyw resymau a fyddai'n golygu bod yn rhaid i ni ddefnyddio dull gweithredu gwahanol mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Nodwn y rhesymau a awgrymwyd gan News-watch dros pam y gallai'r amgylchedd ar-lein olygu bod mwy o frys i ddiwygio. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno bod yr enghreifftiau a ddarparodd yn wahanol iawn i'r amgylchedd darlledu yn hyn o beth. Ym marn Ofcom, mae'r rhain i gyd yn enghreifftiau o ddewisiadau golygyddol i'r BBC, ac mae'n rhydd i'w defnyddio ar yr amod bod ei ddeunydd ar-lein yn parhau i fod yn ddigon diduedd, naill ai yn yr eitem unigol ar-lein neu yn y gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol, wedi'u cymryd gyda'i gilydd.

7.45 Felly, nid ydym yn credu ei bod yn ofynnol i ni dderbyn cwynion sy'n cyfeirio at ddeunydd ar-lein y BBC yn ehangach nag ar lefel "cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol".

7.46 Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â geiriad arfaethedig ein Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys. Mae'r rhain wedi'u hailadrodd yn Atodiad 4.

[232] Gweler: R (ar gais Keighley) v BBC [2019] EWHC 331 (Gweinyddol) (14 Tachwedd 2019); ac R (ar gais Keighley) v Y Swyddfa Gyfathrebiadau [2025] EWHC 416 (Gweinyddol) (27 Chwefror 2025).

Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd: Deunydd Cyhoeddus Ar-lein y BBC yn y DU

Trosolwg

7.47 Roedd Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC a nodwyd yn ein Hymgynghoriad yn amlinellu'r Gweithdrefnau i Ofcom ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a/neu Breifatrwydd mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Roedd y gweithdrefnau arfaethedig hyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y BBC â "Chod Tegwch" Ofcom, fel y nodir o dan adran 107(1) o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996"), Siarter y BBC, y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith).

7.48 Mae Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC yn nodi, ymysg pethau eraill: y broses y byddai Ofcom yn ei dilyn i ymchwilio i gwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd; eglurhad ynghylch pwy sy'n cael cyflwyno cwyn (sef 'y sawl yr effeithir arno'); eglurhad ynghylch sut byddai cwynion yn cael eu hasesu a'u hystyried gan Ofcom; y terfynau amser ar gyfer cyflwyno cwyn; a chyfrifoldebau achwynwyr a'r BBC yn ystod proses ddyfarnu Ofcom.

Dull gweithredu arfaethedig

Cysondeb â Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd y Cod Darlledu

7.49 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad fod ein dull o ddrafftio Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein newydd y BBC yn ymwneud, i raddau helaeth, ag adlewyrchu ac addasu'r gweithdrefnau cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd presennol ar gyfer delio â chwynion mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu darlledu ("Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Darlledu'r BBC").[233] Yn benodol, gwnaethom gynnig, yn unol â Chymal 56(5) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, na fyddai Gweithdrefnau Cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC yn mynnu bod y sawl sy'n cwyno yn dilyn proses "BBC yn Gyntaf".

7.50 Gwnaethom gynnig ystyried y dyletswyddau a'r meini prawf statudol sy'n ymwneud â chwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd Darlledu, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r gwaith o ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC. Felly, gwnaethom gynnig:

a) y byddai ein gweithdrefnau'n cydnabod bod gan Ofcom ddyletswydd dan adran 3(2)(f) o'r Ddeddf (ymysg pethau eraill) i sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath neu dresmasu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath;
b) byddai ein gweithdrefnau yn cydnabod bod yn rhaid i Ofcom, wrth gyflawni ei ddyletswydd, ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy'n rhoi'r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant: adran 3(4)(g) o'r Ddeddf;

[233] Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC.

c) byddai Ofcom yn gwneud Penderfyniad i'w Ystyried ar gyfer pob cwyn berthnasol: Adrannau 111 i 130 o Ddeddf 1996, sy'n darparu ar gyfer rhai meini prawf statudol penodol y mae'n rhaid eu diwallu cyn i Ofcom allu bwrw ymlaen i ystyried cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd (gweler Atodiad 1 o'r gweithdrefnau arfaethedig); a

d) byddai Ofcom yn penderfynu ai'r 'sawl yr effeithir arno' yw'r sawl sy'n cwyno cyn bwrw ymlaen i ystyried cwyn.

7.51 Gwnaethom gydnabod yn ein Hymgynghoriad y gall y 'sawl yr effeithir arno' geisio cwyno am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar sianeli llinol y BBC neu ei lwytho i fyny ar wasanaeth rhaglenni ar-alw, ac ar yr un pryd, cwyno am yr un cynnwys neu gynnwys tebyg sy'n cael ei bostio yng nghyd-destun deunydd ar-lein y BBC. Felly gwnaethom egluro ein bwriad i'n gweithdrefnau fod mor gyson â phosibl, er mwyn cyflawni ein nod o weithdrefnau sy'n hygyrch, yn dryloyw ac yn syml i'r BBC ac i achwynwyr.

Cysondeb â'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru a Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC

7.52 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 5.12, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn gosod rhai gofynion gweithdrefnol ar Ofcom, ac rydym wedi rhoi sylw iddynt wrth baratoi'r gweithdrefnau arfaethedig, er nad yw'r gofynion hyn yn berthnasol yn benodol i gwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd. Yn benodol, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn mynnu'r canlynol:

a) Rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod deunydd ar-lein y BBC wedi cael ei bostio ar ôl y Dyddiad Cychwyn. Diffinnir y Dyddiad Cychwyn fel y dyddiad y mae Ofcom yn cyhoeddi'r weithdrefn gyntaf (neu'r gweithdrefnau cyntaf) sy'n darparu ar gyfer trin a datrys cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC; ac

b) wrth benderfynu ar gŵyn a wneir am ddeunydd ar-lein y BBC a gafodd ei bostio ar ôl y Dyddiad Cychwyn, caiff Ofcom ystyried deunydd a gafodd ei bostio cyn y dyddiad hwnnw, os ydym yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

7.53 Mae Cymal 57(6)/(7) hefyd yn darparu, yn niffyg amgylchiadau eithriadol, na chaiff Ofcom dderbyn cwyn, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai ei bod wedi "cael ei gwneud i'r BBC am y tro cyntaf o fewn 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf". Gan nad yw proses "BBC yn Gyntaf" yn berthnasol i gwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd, rydym wedi cynnig cynnwys darpariaeth y gall Ofcom wrthod ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd ynghylch Deunydd Ar-lein y BBC os yw'n ymddangos na chafodd ei gwneud o fewn cyfnod rhesymol ar ôl i ddeunydd ar-lein y BBC gael ei bostio am y tro cyntaf. Yn unol â hynny, dylai'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i Ofcom cyn pen **30 diwrnod gwaith** i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf. Edrychwch ar baragraffau 5.14 i 5.17 uchod sy'n cyfeirio at sut bydd Ofcom yn dehongli pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei "bostio am y tro cyntaf".

7.54 Felly, cafodd ein Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd ar gyfer Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC eu drafftio yn unol â'r gofynion hyn.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

7.55 Roedd un ymatebydd yn cefnogi dull Ofcom i gyd-fynd â gweithdrefnau tegwch sefydledig, ond dywedodd y dylai Ofcom ddehongli "budd digon uniongyrchol" mor eang ag y mae'r

ddeddfwriaeth yn ei ganiatáu".[234] Dywedodd yr ymatebydd y dylai Ofcom "ganiatáu cwynion sy'n ymwneud â nifer o eitemau cysylltiedig, derbyn sylwadau ategol gan sefydliadau cynrychioladol, a nodi materion safonau cynnwys systemig sy'n cael eu codi mewn cwynion ynghylch tegwch".[235]

7.56 Gofynnodd dau ymatebydd am eglurhad ynghylch y dyddiad cychwyn ar gyfer cwynion o dan y Cod, gan nodi eu bod o'r farn bod yr Ymgynghoriad yn awgrymu mai'r "dyddiad dod i rym oedd 2 Gorffennaf 2026 er bod y Cod yn dal i fod yn destun ymgynghoriad". [236]

7.57 Dywedodd CAMERA.org ei fod yn cefnogi nod Ofcom ar gyfer cysondeb ac aliniad gweithdrefnol â'r dulliau sefydledig, ond dywedodd hefyd fod yn rhaid i'r agwedd at weithdrefnau "roi cyfrif am natur gyfnewidiol cyhoeddi ar-lein. Dylai Ofcom gadw ac ystyried y fersiwn o'r deunydd y cwynir amdano fel yr oedd yn ymddangos ar yr adeg dan sylw, ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau perthnasol dilynol. Ni ddylai diwygiad neu gywiriad dilynol ddiddymu cwyn am degwch sy'n gysylltiedig â deunydd a oedd eisoes wedi cael ei gyhoeddi a'i ddefnyddio gan gynulleidfa". [237]

Ein penderfyniad

7.58 Nodwn yr ymatebion a oedd yn cynnig awgrymiadau ynghylch pwy sy'n gallu cwyno wrth Ofcom fel 'y sawl yr effeithiwyd arno' a pha mor eang y dylai Ofcom ddehongli'r ddeddfwriaeth i ganiatáu'r diffiniad o berson sydd â "budd digon uniongyrchol". Fodd bynnag, ym marn Ofcom, dim ond fesul achos y gellir penderfynu ar y materion hyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

7.59 Mewn perthynas â'r sylw ar y dyddiad cychwyn priodol ar gyfer y gweithdrefnau hyn, fel y nodwyd uchod, mae hyn wedi'i ddiffinio fel y dyddiad y mae Ofcom yn cyhoeddi'r weithdrefn gyntaf (neu'r gweithdrefnau cyntaf) sy'n darparu ar gyfer trin a datrys cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC. Y dyddiad cyhoeddi a'r Dyddiad Cychwyn yw 19 Tachwedd 2026.

7.60 O ran y pwynt bod yn rhaid i Ofcom ystyried natur gyfnewidiol cyhoeddi ar-lein wrth gysoni ein dull gweithredu â gweithdrefnau sefydledig ar gyfer y Cod Tegwch, rydym o'r farn bod y geiriad yn ein Gweithdrefnau arfaethedig ynghylch "Postio am y tro cyntaf" yn ddigon cynhwysfawr ar newidiadau sylweddol mewn perthynas â'r amserlen gwyno ac eisoes yn cynnwys digon o ganllawiau i'r BBC yn y maes hwn.

7.61 Ar y sail hon, ac ar ôl ystyried yr ymatebion uchod, rydym wedi penderfynu cynnal ein safbwynt a bwrw ymlaen â'n geiriad ar gyfer y gweithdrefnau ar gyfer cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd.

7.62 Mae ein Gweithdrefnau terfynol ar gyfer ystyried a dyfarnu cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd wedi'u hailadrodd yn Atodiad 4.

[234] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.13
[235] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.16
[236] Ymateb Elliott, E. t.7; ymateb Corvelo D. t.21
[237] Ymateb CAMERA.org, t.16

Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried cosbau am dorri safonau cynnwys y BBC: Gwasanaethau darlledu'r BBC; gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC; deunydd ar-lein y BBC

Trosolwg

7.63 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad fod pwerau Ofcom i roi sancsiynau i'r BBC wedi'u nodi yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith (fel y'u diwygiwyd gan y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith). Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â gofyniad, gallwn gyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiad gan y BBC, i gymryd camau a fydd, yn ein barn ni:

- yn gwneud iawn am y methiant i gydymffurfio; ac
- yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i ofynion yn iawn yn y dyfodol.

7.64 Cawn hefyd roi dirwy o hyd at £250,000. Ni ddylai Ofcom ddefnyddio'r pwerau hyn oni bai ei fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC wneud sylwadau.[238]

7.65 O dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru (Cymal 57(4)(b)(ii)) mae'n rhaid i'r gweithdrefnau roi arweiniad clir sy'n egluro'r rhwymedïau a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio mewn perthynas â chwynion am safonau cynnwys. Felly, gwnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein barn y byddai hefyd yn briodol rhoi arweiniad clir sy'n egluro'r rhwymedïau a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio mewn perthynas â chwynion am degwch a/neu breifatrwydd.

Dull gweithredu arfaethedig

7.66 Ein dull gweithredu arfaethedig oedd diwygio'r gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC ("Gweithdrefnau Sancsiynau Cod Darlledu'r BBC").[239] Roedd ein diwygiadau arfaethedig yn darparu y byddai penderfyniad ar sancsiwn yn erbyn y BBC – ar ôl torri safonau cynnwys, neu'r Cod Tegwch – mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC yn cael ei ystyried yn unol â'n gweithdrefnau sancsiynau presennol.

7.67 O dan Weithdrefnau Sancsiynau Cod Darlledu presennol y BBC, mabwysiadodd Ofcom ddull gweithredu sy'n gyson â'r hyn sy'n berthnasol i ddarlledwyr a darparwyr gwasanaethau ar-alw eraill. O dan y gweithdrefnau presennol hyn, caiff Ofcom roi sancsiynau pan fydd yn credu bod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid.

7.68 Gwnaethom egluro yn ein Hymgynghoriad y byddai ein diwygiadau arfaethedig yn defnyddio'r un fframwaith lle mae'r Cod wedi cael ei dorri'n ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid. Roedd hyn yn golygu y byddai Ofcom yn dilyn yr un sancsiynau/gweithdrefnau ystyried ar gyfer torri'r Cod ag y mae ar hyn o bryd ar gyfer achosion lle mae'r BBC yn torri'r Cod Darlledu. Bwriad hyn oedd sicrhau cysondeb a chefnogi sicrwydd rheoleiddiol i'r BBC a defnyddwyr/cynulleidfaoedd.

[238] Erthygl 49 yn y Siarter.

[239] Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC

7.69 Gwnaethom hefyd gynnig diweddaru'r rhestr o enghreifftiau o sancsiynau y gall Ofcom eu rhoi (paragraff 3.2 o'r Gweithdrefnau Sancsiynau arfaethedig, wedi'u diwygio) drwy ychwanegu darpariaeth y gall Ofcom gyfarwyddo'r BBC i dynnu (neu ddiwygio) a pheidio â chynnwys eitem yn ei ddeunydd ar-lein ar unrhyw achlysur yn y dyfodol. Roedd yr ychwanegiad hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein diwygiadau arfaethedig i baragraff 3.5 y Gweithdrefnau Sancsiynau, a oedd yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol y gall Ofcom gyfarwyddo'r BBC i beidio ag ailddarlledu rhaglen: "Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC yn postio eitem o ddeunydd ar-lein y BBC yn golygu torri Cod Deunydd Ar-lein y BBC, caiff gyfarwyddo'r BBC i dynnu'r eitem honno a pheidio â'i chynnwys yn ei ddeunydd ar-lein ar unrhyw achlysur yn y dyfodol."

7.70 Gwnaed newidiadau arfaethedig i'r math o sancsiynau y gellir eu gosod yn erbyn y BBC, i gynnwys cyfeiriadau at ddeunydd ar-lein y BBC, sydd wedi'u nodi mewn print trwm yma:

- cyhoeddi cyfarwyddyd i gyfyngu ar fynediad at raglen ar wasanaeth rhaglenni ar-alw y BBC **a/neu ddeunydd ar-lein y BBC**;
- cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr cyn dewis rhaglen benodol ar wasanaeth rhaglenni ar-alw y BBC **a/neu ddeunydd ar-lein penodol y BBC**;
- cyhoeddi cyfarwyddyd i gynnwys cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, mewn geiriau ac mewn ffordd a bennir gan Ofcom, **neu ddolen i benderfyniad Ofcom ynghylch torri amodau (neu grynodeb ohono) (neu'r tri).**

7.71 Roeddem o'r farn y byddai'r addasiadau cyfyngedig ac wedi'u targedu hyn yn sicrhau cyfatebiaeth swyddogaethol o ran sut gellir defnyddio sancsiynau ar draws cyd-destunau ar-lein, ar-alw a darlledu.

7.72 Roeddem hefyd o'r farn y byddai'r opsiwn o gyfarwyddo'r BBC i gynnwys dolen i benderfyniad Ofcom ynghylch torri amodau (neu grynodeb ohono) yn arbennig o briodol yn yr amgylchedd ar-lein, lle gellir tynnu sylw defnyddwyr yn effeithiol at benderfyniad gorfodi Ofcom heb fod angen cynnwys crynodeb llawn yn y cynnwys ei hun.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

7.73 Nododd nifer o ymatebwyr gefnogaeth am ddull gweithredu cyffredinol ar gyfer sancsiynau rhwng y Cod a'r Cod Darlledu.[240] Ychwanegodd y TACC, mewn achosion lle gallai ateb tegwch neu breifatrwydd effeithio ar fuddiannau unigolyn, "dylid gwahodd yr unigolyn hwnnw i roi sylwadau ar ei eiriad arfaethedig, ei leoliad a'i amlygrwydd, tra bo Ofcom yn dal gafael ar reolaeth derfynol". [241] Ychwanegodd y dylai Ofcom gyhoeddi ei resymeg o ran "a gafodd achos o dorri amodau ei atgyfeirio ar gyfer sancsiwn, sut cafodd ymddygiad sy'n digwydd dro ar ôl tro neu ymddygiad cysylltiedig ei asesu, a pham fod y sancsiwn yn gymesur". Roedd hefyd yn cefnogi'r ystod arfaethedig o sancsiynau sydd ar gael i Ofcom wedi i'r Cod arfaethedig gael ei dorri, ond nododd y "dylai Ofcom allu mynnu cywiriad neu hysbysiad clir ar gyfer yr eitem, ynghyd â chywiro'r cyflwyniadau a'r negeseuon cymdeithasol cysylltiedig, a chymryd camau rhesymol i gyrraedd y gynulleidfa sydd wedi dod i gysylltiad â'r deunydd gwreiddiol." Roedd ymatebydd arall yn rhannu'r farn hon, ac awgrymodd, lle bo hynny'n ymarferol, y dylai cywiriad "gynnwys yr erthygl, yr hafan neu flaen yr adran, postiadau cymdeithasol y BBC, metadata chwilio, capsiynau, mân-luniau a

[240] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, Elliot. E, No Bars Ltd T/A DRIFT, Corvelo, D, CAMERA.org
[241] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.17

hysbysiad cywiro i'r rhai sydd wedi derbyn hysbysiad gwthio sy'n sylweddol gamarweiniol."[242]

7.74 Amlinellodd nifer o ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynnig i'r sancsiynau sydd ar gael i Ofcom fynd y tu hwnt i ddim ond dileu'r deunydd. Ychwanegodd un y dylid ystyried yr un dull hyblyg yng nghyd-destun "tegwch dros amser" – cysyniad a eglurwyd ganddynt drwy nodi y gallai fod "achosion lle nad yw parhad y newyddiaduraeth wreiddiol yn broblem ynddo'i hun." Yn hytrach, gall yr annhegwch godi oherwydd bod datblygiadau dilynol pwysig yn absennol, am fod deunydd hanesyddol wedi'i gyflwyno mewn cyd-destun newydd, neu am fod ymyriad golygyddol diweddarach wedi rhoi amlygrwydd o'r newydd iddo."[243] Yn hytrach na'i ddileu, awgrymodd yr ymatebydd hwn y gallai sancsiynau posibl gynnwys, er enghraifft, "darparu gwybodaeth ychwanegol am ddatblygiadau dilynol sylweddol", "cysylltu deunydd hanesyddol ag adroddiad perthnasol diweddarach" a "cyfyngu mynediad neu amlygrwydd lle mae ymyriad mwy cyfyngedig yn ddigon i unioni'r annhegwch a nodwyd." Dywedodd y byddai hyn yn sicrhau bod "digon o gyd-destun cyfoes yn cyd-fynd â'r cofnod hanesyddol i'w atal rhag cyflwyno darlun sy'n sylweddol anghyflawn neu'n annheg".

7.75 Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai cymesuredd fod yn rhan o ddull Ofcom o ddelio â sancsiynau. Dywedodd un ohonynt y "dylai Ofcom ddewis y mesur lleiaf ymwthiol sy'n debygol o fod yn effeithiol" ac, wrth wneud hynny, ystyried yr holl ffactorau cyd-destunol.[244] Roedd y TACC yn croesawu ein cynigion ynghylch sut byddai sancsiynau'n berthnasol i achosion o dorri'r Cod arfaethedig dro ar ôl tro, gan nodi, mewn achosion o'r fath, y "dylai Ofcom allu ystyried ymddygiad tebyg ar draws gwahanol eitemau, gwasanaethau, cyfrifon a thimau golygyddol, gan gynnwys ymddygiad sy'n deillio o arfer golygyddol cyffredin neu sy'n parhau ar ôl i'r BBC gael gwybod drwy gwynion".[245]

7.76 Roedd dau ymatebydd wedi cyfeirio at amlygrwydd unrhyw gamau cywiro a bennwyd gan sancsiwn, gydag un ohonynt yn nodi "pan fydd deunydd anghywir neu ddeunydd nad yw'n cydymffurfio fel arall wedi cael ei gyhoeddi'n amlwg a'i ddosbarthu'n eang, gallai cywiriad sy'n llawer llai amlwg na'r deunydd gwreiddiol fod yn ateb annigonol".[246]

Ein penderfyniad

7.77 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig i ddiwygio'r gweithdrefnau presennol sy'n berthnasol i dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu a rhaglenni ar-alw y BBC i'w wasanaethau ar-lein sy'n dod o fewn cwmpas y Cod. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ac yn cefnogi sicrwydd rheoleiddiol i'r BBC a defnyddwyr/cynulleidfaoedd.

7.78 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer y math o sancsiynau a all gael eu gosod mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Y rheswm am hyn yw bod Ofcom yn credu eu bod yn darparu amrywiaeth addas o fesurau teg, cymesur ac wedi'u targedu sy'n berthnasol i'r amgylchedd ar-lein, a gellir eu defnyddio lle bo angen.

---

[242] Ymateb Elliott, E t.7
[243] Ymateb No Bars Ltd T/A DRIFT t.14
[244] Ymateb Corvelo, D. tt.21-22
[245] Ymateb Trans Advocacy & Complaints Collective, t.17
[246] Ymateb CAMERA.org t.16

7.79 Awgrymodd rhai ymatebwyr fesurau ychwanegol a fyddai, pe baent wedi mynd rhagddynt, wedi mynd y tu hwnt i gwmpas ein cynigion o ran sancsiynau. Er enghraifft, mynnu bod mathau penodol o amlygrwydd yn ofynnol ar gyfer cywiriadau neu esboniadau; i gywiriadau ymddangos ar draws eitemau ar-lein, neu i hysbysiadau gael eu dosbarthu i ddefnyddwyr a oedd wedi gweld yr eitemau ar-lein gwreiddiol y byddai'r sancsiwn yn berthnasol iddynt. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer y mathau o sancsiynau y gellid eu gosod mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Y rheswm am hyn yw y byddai'r mesurau ychwanegol a awgrymwyd o bosibl yn camu i feysydd gwneud penderfyniadau golygyddol sy'n gyfrifoldeb llwyr i'r BBC, ac mewn rhai achosion ni fyddai modd eu cyflawni'n ymarferol nac yn dechnegol, o ystyried cyd-destun darniog yr amgylchedd ar-lein a'r amgylchiadau mae defnyddwyr yn dod o hyd i ddeunydd ar-lein y BBC ac yn ymgysylltu ag ef. Ni fyddai ychwanegu'r mesurau hyn yn gyson â'u dull o ddim ond gwneud addasiadau cyfyngedig ac wedi'u targedu i sicrhau cyfatebiaeth swyddogaethol o ran sut gellir defnyddio sancsiynau ar draws cyd-destunau ar-lein, ar-alw a darlledu.

7.80 Mae ein Gweithdrefnau terfynol ar gyfer ystyried a dyfarnu cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd wedi'u hailadrodd yn Atodiad 4.

A1. Fframwaith Statudol

Ofcom yn rheoleiddio'r BBC

A1.1 Mae rôl reoleiddio Ofcom dros y BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf")[247], sy'n rhoi pwerau a dyletswyddau o'r fath i Ofcom y gellir eu rhoi iddo gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y "Siarter")[248] a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y "Cytundeb Fframwaith").[249, 250]

A1.2 Mae Erthygl 49 o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom fynnu bod y BBC yn cydymffurfio â rhai "gofynion penodol" o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Mae'r rhain yn cynnwys y rhwymedigaethau rheoleiddio ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn Atodlen 3 (ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud â'r canllawiau golygyddol a'i gynlluniau a'i ganllawiau ar gyfer Deunydd Cyhoeddus Ar-lein y DU - gweler paragraffau 2 a 3A(1) o Atodlen 3).[251]

A1.3 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[252] Mae'r rhain yn cynnwys ei brif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[253] Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried, ymhlith pethau eraill, yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a'u bod dim ond yn targedu'r achosion hynny lle mae angen cymryd camau gweithredu[254]. Mae Adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys: (i) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ymddangos i Ofcom, yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt; a (ii) pa mor ddymunol yw atal troseddu ac anhrefn.[255]

A1.4 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried, fel sy'n briodol, pum diben cyhoeddus y BBC.[256] Rydym yn credu bod y canlynol yn arbennig o berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

- Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;
- Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed; a
- Diben Cyhoeddus 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

---

[247] Adran 198 y Ddeddf.
[248] Y Siarter.
[249] Y Cytundeb Fframwaith.
[250] Cafodd y Cytundeb Fframwaith ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2025 (y "diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith"). Rydym yn cyfeirio at hyn fel y "Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru".
[251] Cymal 59(c) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[252] Erthygl 45(1) yn y Siarter.
[253] Adran 3(1) y Ddeddf.
[254] Adran 3(3) y Ddeddf.
[255] Adran 3(4) y Ddeddf.
[256] Erthyglau 6 a 45(2) y Siarter.

Cod Ofcom ar gyfer deunydd ar-lein y BBC

A1.5 Mae rôl newydd Ofcom mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC wedi'i nodi ym mharagraff 3A(2) o Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod, ac o bryd i'w gilydd adolygu a diwygio, safonau ar gyfer cynnwys Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU (y cyfeirir ato fel "Deunydd Ar-lein y BBC"). Rhaid i'r safonau hyn sicrhau amcanion y safonau a nodir yn adran 319(2)(a), (b) ac (c) (gan gynnwys y gofynion didueddrwydd arbennig yn adran 320) a (d) i (f) o'r Ddeddf (y cyfeirir atynt fel "amcanion safonau perthnasol"):

a) bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu;
b) na fydd deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio;
c) y bydd newyddion sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, ac y cydymffurfir â'r gofynion o ran didueddrwydd yn adran 320;
d) y bydd newyddion sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaethau teledu a radio yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy;
e) bod y graddau priodol o gyfrifoldeb yn cael eu harfer mewn perthynas â chynnwys rhaglenni sy'n rhaglenni crefyddol; ac
f) y bydd safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at gynnwys gwasanaethau teledu a radio er mwyn darparu diogelwch digonol i'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol mewn gwasanaethau o'r fath.

A1.6 Rhaid cynnwys y safonau hynny mewn un neu ragor o godau.[257]

A1.7 Wrth osod safonau ar gyfer cynnwys deunydd ar-lein y BBC, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw penodol i bob un o'r materion sydd yn adran 319(4) o'r Ddeddf gydag unrhyw addasiad sy'n ymddangos yn briodol, i'r graddau y maent yn ymddangos yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau a restrir uchod.[258] Sef:

a) maint y niwed neu dramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu mewn rhaglenni o fath penodol;
b) maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl i raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio'n gyffredinol, neu mewn gwasanaethau teledu a radio o fath penodol;
c) disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a'r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau posibl y gynulleidfa;
d) y tebygolrwydd y bydd unigolion nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn dod yn agored yn anfwriadol, drwy eu gweithredoedd eu hunain, i'r cynnwys hwnnw;
e) pa mor ddymunol yw sicrhau bod cynnwys gwasanaethau'n adnabod pa bryd y ceir newid sy'n effeithio ar natur gwasanaeth y mae rhai'n ei wylio neu'n gwrando arno, ac yn benodol, newid sy'n berthnasol i gymhwyso'r safonau sydd wedi'u gosod dan yr adran hon; ac
f) y dymunoldeb o gadw annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglen.

A1.8 Mae'n rhaid i Ofcom hefyd roi sylw penodol i'r gofynion arbennig o ran didueddrwydd sydd yn adran 320 o'r Ddeddf, yn ogystal â gydag unrhyw addasiadau sy'n ymddangos yn briodol, i'r graddau y maent yn ymddangos yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau a

[257] Paragraff 3A(3), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[258] Paragraff 3A(4)(a), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

restrir uchod.[259] Mae'r rhain yn cynnwys cadw didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae gofyniad tebyg mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

A1.9 Yn olaf, rhaid i Ofcom roi sylw penodol i'r amcan y dylai'r safonau y mae Ofcom yn eu gosod mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC fod yn gyson â'r rheini sydd wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu (hynny yw, y Cod Darlledu) i'r graddau y mae Ofcom yn credu sy'n briodol.[260]

A1.10 Yn ogystal â dilyn y Cod, rhaid i'r BBC hefyd ddilyn Cod Tegwch Ofcom i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau yn y Cod Tegwch yn berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC. Yn unol â hynny, nid yw'r Cod arfaethedig yn cynnwys adrannau cyfatebol i Adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu. Fodd bynnag, rydym wedi nodi sut dylai Adrannau Saith ac Wyth fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Dangosir hyn yn Atodiad 3 sydd hefyd yn tynnu sylw at yr addasiadau y byddem yn eu mabwysiadu ac y bwriadwn eu cyhoeddi fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

Dyletswyddau Cyfraith Gyhoeddus

A1.11 Mae'r Cod drafft wedi cael ei ddrafftio yng ngoleuni Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Yn benodol, mae Ofcom wedi rhoi sylw dyledus i'r hawl i ryddid mynegiant, fel y nodir yn Erthygl 10 y Confensiwn, sy'n cwmpasu hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth, syniadau a deunydd creadigol heb ymyrraeth ond â chyfyngiadau sydd wedi'u rhagnodi dan y gyfraith, gan ddilyn nod dilys yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae Ofcom hefyd wedi cydnabod bod gwarchodaeth benodol yn cael ei rhoi yn y ddeddfwriaeth hon i araith wleidyddol ac ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae Erthygl 10, ynghyd ag Erthygl 8 ynghylch yr hawl i fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth unigolyn, ac Erthygl 9, yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau sy'n deillio o'r Cod yn cael eu rhagnodi yn y gyfraith, yn unol â nod dilys, yn gyfreithlon ac yn cael eu hystyried yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Bydd Ofcom yn ystyried y darpariaethau hyn yn ofalus wrth ddefnyddio a gorfodi'r Cod.

A1.12 Mae Ofcom wedi rhoi sylw dyladwy i'r materion a bennir yn adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus") ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

Trefn Gwyno

A1.13 O dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, bydd yn rhaid i Ofcom hefyd lunio a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â "chwynion perthnasol" a fydd yn ein cyrraedd ynghylch y BBC a'u datrys, pan fydd y sawl sy'n cwyno eisoes wedi cyflwyno cwyn i'r BBC.[261] Mae "cwynion perthnasol" yn gwynion bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â gofyniad penodol.[262] Mae'r gofynion penodedig yn cynnwys unrhyw rai o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol perthnasol yn Atodlen 3 (gweler paragraff A1.2 uchod i gael rhagor o

[259] Paragraff 3A(4)(a), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[260] Paragraff 3A(4)(b), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[261] Cymal 57, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[262] Cymal 56(9) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

fanylion).[263] Mae Cymal 57(6) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn cynnwys manylion y mae'n rhaid i Ofcom ddarparu ar eu cyfer yn y gweithdrefnau cwyno. Adlewyrchir y gofynion hyn yn y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn neunydd ar-lein y BBC ("Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC").

A1.14 Ymysg pethau eraill, rhaid i'r gweithdrefnau hefyd roi arweiniad clir ar y rhwymedïau a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio.[264]

[263] Cymal 59, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[264] Cymal 57(4)(b)(ii), y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

A2. Cod Deunydd Ar-lein y BBC

A2.1 Gweler Atodiad 2 sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen hon.

A3. Cymhwyso'r Cod Tegwch

Tegwch

Bwriad yr adran hon yw sicrhau bod y BBC yn osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg yn ei ddeunydd ar-lein.

A3.1 Mae'r adran hon a'r adran sy'n dilyn ar breifatrwydd yn wahanol i adrannau eraill y Cod Darlledu. Maent yn berthnasol i sut mae'r ~~darlledwr~~ BBC yn trin yr unigolion neu'r cyrff y mae ei ~~raglenni~~ ddeunydd ar-lein yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn hytrach nag i'r hyn y mae'r cynulleidfaoedd ~~yn ei weld/clywed fel gwylwyr~~ a gwrandawyr cyffredinol yn dod ar ei draws.

A3.2 Yn ogystal â chynnwys egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan y ~~darlledwr~~ BBC wrth ddelio ag unigolion neu gyrff sy'n cymryd rhan mewn ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein neu y mae'r deunydd a gyhoeddodd ar-lein yn effeithio arnynt fel arall. Ni fydd dilyn yr arferion hyn o reidrwydd yn osgoi torri'r ~~adran yma o'r cod~~ Cod Tegwch (a gymhwysir drwy Adran Saith (Tegwch) o'r Cod Darlledu) (Rheol 7.1). Fodd bynnag, ni fydd methiant i ddilyn yr arferion hyn ond yn groes i'r Cod os yw'n arwain at annhegwch ag unigolyn neu gorff yn y ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ~~Cod~~ adran hon yn gallu nac yn ceisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi triniaeth annheg.

A3.3 Mae'r darpariaethau canlynol yn yr adran nesaf ar breifatrwydd hefyd yn berthnasol i'r adran hon:

- yr esboniad o fudd cyhoeddus sy'n ymddangos yn ystyr "gyda chyfiawnhad" dan Reol 8.1 yn Adran Wyth (Preifatrwydd): ac
- ystyr "cael deunydd mewn modd dirgel" sy'n ymddangos o dan "arferion i'w dilyn" dan 8.13 yn Adran Wyth (Preifatrwydd).

Deddfwriaeth[265]

A3.4 Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd), Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol (ar gyfer gwasanaethau ECTT yn unig); Erthygl 28 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol, ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.

Egwyddor

A3.5 Sicrhau bod y ~~darlledwr~~ BBC yn osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg mewn ~~rhaglenni~~ Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU ("deunydd ar-lein").

[265] Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn dal fel y mae'n ymddangos yn Adran Saith o'r Cod Darlledu, ac y mae eisoes yn cyfeirio at Siarter a Chytundeb y BBC. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol a'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn berthnasol i ddeunydd ar-lein.

Rheol

7.1 Rhaid i'r ~~darlledwr~~ BBC osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg yn ei ~~rhaglenni~~ ddeunydd ar-lein.

Arferion i'w dilyn (7.2 i 7.15)

Delio'n deg â chyfranwyr a chael cydsyniad gwybodus

Arfer 7.2: Fel arfer dylai'r ~~darlledwr a gwneuthurwyr rhaglenni~~ BBC ddelio'n deg â chyfranwyr posibl i ~~raglenni~~ ddeunydd ar-lein oni bai fod cyfiawnhad dros wneud fel arall mewn achosion eithriadol.

Arfer 7.3: Os gwahoddir rhywun i gyfrannu at ~~raglenni~~ ddeunydd ar-lein (heblaw pan yw'r pwnc yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach) dylid gwneud y canlynol fel arfer ar adeg briodol:

- ei hysbysu am natur a phwrpas y ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein, beth sydd dan sylw yn y ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein a rhoi eglurhad clir iddo am y rheswm dros ofyn iddo gymryd rhan a pha bryd (os yw'n hysbys) ac ym mhle y mae'n debygol o gael ei ~~ddarlledu~~ gyhoeddi gyntaf;
- rhoi gwybod iddo am y math o gyfraniad a ddisgwylir ganddo, er enghraifft, un byw, wedi'i recordio ymlaen llaw, cyfweliad, trafodaeth, wedi'i olygu, heb ei olygu, ac ati;
- ei hysbysu am y meysydd y bydd y cwestiynau'n ymwneud â hwy ac, os yw'n bosibl, natur y cyfraniadau tebygol eraill;
- rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau pwysig yn y ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein wrth iddo ddatblygu a allai effeithio'n rhesymol ar ei gydsyniad gwreiddiol i gymryd rhan, ac a allai achosi annhegwch sylweddol;
- ei hysbysu am natur ei hawliau a'i rwymedigaethau contractiol a'r rheini sydd gan y ~~darlledwr a gwneuthurwyr rhaglenni~~ BBC mewn cysylltiad â'i gyfraniad;
- rhoi gwybodaeth glir iddo, os cynigir cyfle iddo weld y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein ymlaen llaw, ynghylch a fydd yn gallu peri unrhyw newidiadau yn y deunydd; ac
- ei hysbysu am risgiau posibl sy'n codi o'i gyfranogiad yn y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein, a allai effeithio ar ei les (i'r graddau y gellir rhagweld y rhain yn rhesymol ar y pryd) ac unrhyw gamau y mae'r ~~darlledwr a/neu gwneuthurwyr rhaglenni~~ BBC yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain.[~~266~~]

Drwy gymryd y camau hyn, mae'n debygol y bydd y cydsyniad a roddir yn 'gydsyniad gwybodus' (a elwir yn yr adran hon ac yng ngweddill y Cod yn "gydsyniad").

Gall fod yn deg dal y cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth hon yn ôl os oes cyfiawnhad dros wneud hynny er budd y cyhoedd neu o dan ddarpariaethau eraill yn yr adran hon o'r Cod.

Arfer 7.4: Os yw cyfrannwr dan un ar bymtheg oed, dylid cael cydsyniad fel arfer gan riant neu warcheidwad, neu gan rywun arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yn lle rhiant. Yn

~~[266] Mae'r mesur terfynol hwn yn berthnasol i raglenni a oedd wedi dechrau cael eu cynhyrchu ddydd Llun 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.~~

benodol, ni ddylid gofyn i rai dan un ar bymtheg oed am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath.

Arfer 7.5: Yn achos rhai dros un ar bymtheg oed nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad, dylai rhywun sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ei ofal roi cydsyniad ar eu rhan fel arfer. Yn benodol, ni ddylid gofyn i rai nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath.

Arfer 7.6: Os yw ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein wedi'i olygu, dylid cyfleu cyfraniadau'n deg.

Arfer 7.7: Fel arfer dylid anrhydeddu gwarantiadau a roddir i gyfranwyr, er enghraifft, ynghylch cynnwys ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein, cyfrinachedd neu anhysbysrwydd.

Arfer 7.8: Dylai'r ~~darlledwr~~ BBC sicrhau nad yw ailddefnyddio cynnwys, hynny yw, defnyddio cynnwys a gafwyd yn wreiddiol at un diben ac a ddefnyddiwyd wedyn ~~yn ei rhaglenni~~ gan y BBC at ddiben arall, neu a ddefnyddiwyd mewn cyhoeddiad diweddarach neu wahanol o ~~raglenni~~ ddeunydd ar-lein, yn creu annhegwch. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y ~~darlledwr~~ BBC ei hun.

Cyfle i gyfrannu ac ystyried ffeithiau'n briodol

Arfer 7.9: Cyn ~~darlledu~~ cyhoeddi ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein ffeithiol, gan gynnwys ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein sy'n edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol, dylai'r ~~darlledwr~~ BBC gymryd gofal rhesymol i fodloni ei hun:

- nad yw ffeithiau perthnasol wedi'u cyflwyno, eu diystyru neu eu gadael allan mewn modd sy'n annheg ag unigolyn neu gorff; a
- bod unrhyw un y byddai ei adael allan yn gallu bod yn annheg ag unigolyn neu gorff wedi cael cynnig cyfle i gyfrannu.

Arfer 7.10: Ni ddylai ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein – ~~fel dramâu a dramâu sy'n seiliedig ar ffeithiau~~ gan gynnwys, yn benodol, dramateiddiadau a dramateiddiadau sy'n seiliedig ar ffeithiau – bortreadu ffeithiau, digwyddiadau, unigolion neu gyrff mewn modd sy'n annheg ag unigolyn neu gorff.

Arfer 7.11: Os bydd ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein yn gwneud honiadau am ddrwgweithredu neu anghymhwyster neu'n gwneud honiadau sylweddol eraill, dylid fel arfer roi cyfle priodol ac amserol i ymateb i'r rhai dan sylw.

Arfer 7.12: Os bydd rhywun y cysylltwyd ag ef i ofyn iddo gyfrannu at ~~raglen~~ ddeunydd ar-lein yn dewis peidio â gwneud sylw neu'n gwrthod ~~gwneud ymweliad byw~~ cyfrannu, dylai'r ~~darlledwr~~ deunydd ar-lein egluro bod yr unigolyn dan sylw wedi dewis peidio â ~~ymddangos~~ chyfrannu a dylai roi ei eglurhad os byddai'n annheg peidio â gwneud hynny.

Arfer 7.13: Os yw'n briodol cyfleu barn person neu gorff nad yw'n cymryd rhan yn y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein nac yn cyfrannu ato, rhaid gwneud hynny mewn modd teg.

Defnyddio Twyll

Arfer 7.14: Fel arfer ni ddylai'r ~~darlledwr neu gwneuthurwyr rhaglenni~~ BBC gael neu geisio gwybodaeth, ~~sain, lluniau~~ deunydd neu gytundeb i gyfrannu drwy gamliwio neu dwyll. (Mae twyll yn cynnwys ~~ffilmio neu recordio~~ cael deunydd mewn modd dirgel). Fodd bynnag:

- mae'n bosibl y byddai cyfiawnhad dros ddefnyddio deunydd a gafwyd drwy gamliwio neu dwyll os yw er lles y cyhoedd ac os na ellir ei gael yn rhesymol fel arall;
- os nad oes cyfiawnhad digonol ar sail budd cyhoeddus, ~~er enghraifft, rhai galwadau digais sy'n ceisio twyllo'r derbynnydd er mwyn adloniant~~ dylid cael cydsyniad gan yr unigolyn a/neu gorff dan sylw cyn ~~darlledir~~ cyhoeddi'r deunydd ar-lein;
- os na ellir adnabod yr unigolyn a/neu gorff yn y ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein, ni fydd angen cael cydsyniad i ~~ddarlledu~~ gyhoeddi;
- gellir defnyddio deunydd sy'n cynnwys pobl enwog a'r rheini sydd yn llygad y cyhoedd heb gael cydsyniad i'w ~~darlledu~~ cynnwys yn y deunydd ar-lein, ond ni ddylid ei ddefnyddio heb fod cyfiawnhad ar sail budd cyhoeddus os yw'n debygol o'u gwneud yn destun gwawd cyhoeddus neu o beri gofid personol nad oes modd ei gyfiawnhau. (Fel arfer, felly, dylid recordio cyfraniadau o'r fath cyn eu darlledu).

Lles cyfranwyr

Arfer 7.15 ~~Dylai darlledwyr~~ Dylid cymryd gofal dyladwy dros les cyfrannwr a allai fod mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i ~~gymryd rhan mewn rhaglen~~ ymddangos mewn deunydd ar-lein, heblaw pan yw'r deunydd yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach.

Gellid ystyried bod cyfrannwr mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i'w gyfranogiad mewn ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein neu gyfrannu at ddeunydd o'r fath am resymau sy'n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- ei fod yn cael ei ystyried yn berson agored i niwed;
- nad yw wedi arfer bod yn llygad y cyhoedd;
- bod y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein yn golygu cael ei ffilmio neu ei recordio mewn amgylchedd artiffisial neu wneuthuredig;
- mae'r ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein yn debygol o ddenu lefel uchel o sylw gan y wasg, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol;
- mae elfennau golygyddol allweddol y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein yn cynnwys gwrthdaro posibl, anghydfod, sefyllfaoedd sy'n heriol yn emosiynol; neu
- mae'r ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein yn gofyn iddynt drafod, datgelu neu ymwneud ag agweddau sensitif sy'n newid eu bywydau neu agweddau preifat ar eu bywydau.[~~267~~]

Dylai'r ~~darlledwyr~~ BBC gynnal asesiad risg i ganfod unrhyw risg o niwed sylweddol i'r cyfrannwr, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Bydd lefel y gofal sy'n ddyledus i'r cyfrannwr yn gymesur â lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i gyfranogiad yn y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein neu ei gyfraniad at ddeunydd o'r fath.

~~[267] Mae'r Arfer i'w ddilyn yn berthnasol i raglenni a oedd wedi dechrau cael eu cynhyrchu ddydd Llun 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.~~

~~(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.3, 8.21 ac 8.22)~~

Ystyr "pobl ~~berson~~ agored i niwed"

~~I gael ystyr "agored i niwed", gweler Arferion 8.21 ac 8.22 mewn perthynas â "phobl agored i niwed".~~ Mae hyn yn amrywio, ond gallai gynnwys pobl sydd ag anawsterau dysgu, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n galaru, pobl a gafodd anaf i'w hymennydd neu sydd â mathau o ddementia, pobl sydd wedi dioddef trawma, pobl sy'n wael eu hiechyd neu sydd â salwch terfynol.

Preifatrwydd

Bwriad yr adran hon yw sicrhau bod y BBC yn osgoi unrhyw dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad yn ei ddeunydd ar-lein ac mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys yn ei ddeunydd ar-lein.

A3.6 Mae'r adran hon a'r adran flaenorol ar degwch yn wahanol i adrannau eraill y Cod Darlledu. Maent yn berthnasol i sut ~~darlledwr~~ mae'r BBC yn trin yr unigolion neu'r cyrff y mae ei ~~rhaglenni~~ ddeunydd ar-lein yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn hytrach nag i'r hyn y mae'r ~~cyhoedd yn ei weld a/neu'n ei glywed fel gwylwyr a gwrandawyr~~ cynulleidfaoedd cyffredinol yn dod ar ei draws.

A3.7 Yn ogystal â chynnwys egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan y ~~darlledwr~~ BBC wrth ddelio ag unigolion neu gyrff sy'n cymryd rhan mewn ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein neu y mae'r deunydd ar-lein yn effeithio arnynt fel arall, neu sy'n cynhyrchu ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein. Ni fydd dilyn yr arferion hyn o reidrwydd yn osgoi torri'r Cod Tegwch (a gymhwysir drwy Adran Wyth (Preifatrwydd) o'r Cod Darlledu) (Rheol 8.1). Fodd bynnag, ni fydd methiant i ddilyn yr arferion hyn ond yn groes i'r cod os yw'n arwain at dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ~~Cod~~ adran hon yn gallu nac yn ceisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

A3.8 Mae'r Siarter a'r Cytundeb Fframwaith yn mynnu bod Ofcom yn ystyried cwynion am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad mewn ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein o'r fath. Gallai hyn alw am rai penderfyniadau anodd yn y fan a'r lle ynghylch a dresmasir ar breifatrwydd heb gyfiawnhad drwy adrodd, yn enwedig wrth ~~ffilmio neu recordio~~ adrodd ar sefyllfaoedd o argyfwng ("arferion i'w dilyn" 8.5 i 8.8 ac 8.16 i 8.19). Rydym yn cydnabod y gallai fod budd cryf i'r cyhoedd mewn adrodd ar sefyllfa o argyfwng wrth iddo ddigwydd ac rydym yn deall y gallai fod pwysau ar ~~darlledwyr~~ y rheini sy'n gohebu o leoliad trychineb neu argyfwng a allai ei gwneud yn anodd barnu ar y pryd a yw ffilmio, recordio neu gael gafael ar ddeunydd arall yn golygu tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae'r rhain yn ffactorau y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth ddyfarnu ynghylch cwynion.

A3.9 Pan gyfeirir at gydsyniad yn Adran Wyth o'r Atodiad hwn, mae'n cyfeirio at gydsyniad gwybodus.

A3.10 Gweler "arfer i'w ddilyn" 7.3 yn Adran Saith (Tegwch) yr Atodiad hwn.

Deddfwriaeth[268]

A3.11 Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd), ac Erthyglau 8 a 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.

Egwyddor

Sicrhau bod y ~~darlledwr~~ BBC yn osgoi unrhyw dresmasu heb gyfiawnhad ar breifatrwydd mewn ~~rhaglenni~~ Deunydd Ar-lein Cyhoeddus yn y DU ("deunydd ar-lein"), ac mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunyddiau ~~mewn rhaglenni~~ sydd wedi'u cynnwys yn ei ddeunydd ar-lein.

Rheol

8.1 Rhaid cael cyfiawnhad dros unrhyw dresmasu ar breifatrwydd yn ~~rhaglenni~~ neunydd ar-lein y BBC, neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys ~~mewn rhaglenni~~ yn ei ddeunydd ar-lein.

Ystyr "cyfiawnhad"

Yn yr adran hon, mae ystyr penodol i'r term "cyfiawnhad". Mae hyn yn golygu, pan fydd ~~darlledwr~~ y BBC yn dymuno cyfiawnhau tresmasu ar breifatrwydd, y dylai allu dangos pam, yn amgylchiadau penodol yr achos, fod cyfiawnhad dros hynny. Os mai budd y cyhoedd yw'r rheswm dros hyn, dylai'r ~~darlledwr~~ BBC allu dangos bod budd y cyhoedd yn drech na'r hawl i breifatrwydd. Byddai enghreifftiau o fudd y cyhoedd yn cynnwys datgelu neu ganfod trosedd, diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, datgelu honiadau camarweiniol gan unigolion neu gyrff neu ddatgelu anghymhwysedd sy'n effeithio ar y cyhoedd.

Arferion i'w dilyn (8.2 i 8.22)

Bywydau preifat, mannau cyhoeddus a disgwyliad dilys o breifatrwydd

Ystyr "disgwyliad dilys o breifatrwydd"

Bydd disgwyliadau dilys o breifatrwydd yn amrywio yn ôl lle a natur yr wybodaeth, y gweithgaredd neu'r cyflwr dan sylw, i ba raddau y mae ar gael i'r cyhoedd (os o gwbl) ac a yw'r unigolyn dan sylw eisoes yn llygad y cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle gall pobl ddisgwyl preifatrwydd yn rhesymol hyd yn oed mewn man cyhoeddus. Gall rhai gweithgareddau ac amodau fod mor breifat fel y gallai ffilmio neu recordio, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, olygu tresmasu ar breifatrwydd. Mae pobl sy'n destun ymchwiliad neu sydd yn llygad y cyhoedd, a'u teulu a'u ffrindiau agos, yn cadw'r hawl i fywyd preifat, er y gall ymddygiad preifat arwain at ystyriaethau sydd o ddiddordeb dilys i'r cyhoedd.

Arfer 8.2: Ni ddylid datgelu gwybodaeth sy'n dangos lleoliad cartref rhywun neu gartref ei deulu heb ganiatâd, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

[268] Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn dal fel y mae'n ymddangos yn Adran Wyth o'r Cod Darlledu, ac y mae eisoes yn cyfeirio at Siarter a Chytundeb y BBC. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw adran 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i ddeunydd ar-lein.

Arfer 8.3: Pan fydd pobl yn cael eu dal mewn digwyddiadau sy'n cael sylw yn y newyddion, mae ganddynt hawl i breifatrwydd o hyd wrth greu a ~~darllediad o raglen~~ chyhoeddi deunydd ar-lein, oni bai bod cyfiawnhad dros dresmasu ar yr hawl honno. Mae hyn yn gymwys i adeg y digwyddiadau hyn ac i unrhyw ~~raglenni~~ gyhoeddiadau diweddarach sy'n rhoi sylw eto i'r digwyddiadau hynny.

Arfer 8.4: Dylai'r ~~darlledwr~~ BBC sicrhau nad yw ~~geiriau, delweddau neu weithredoedd wedi'u ffilmio neu eu recordio~~ gwybodaeth a/neu ddeunydd a geir mewn man cyhoeddus mor breifat fel bod angen cydsyniad ymlaen llaw gan yr unigolyn neu'r corff dan sylw cyn ei ~~ddarlledu~~ gyhoeddi, oni bai fod cyfiawnhad dros ei gyhoeddi heb gael cydsyniad.

Cydsyniad

Arfer 8.5: Os oes unrhyw dresmasu ar breifatrwydd wrth greu ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein, dylid cael cydsyniad gan yr unigolyn a/neu'r corff ar gyfer hynny neu dylai fod cyfiawnhad drosto fel arall.

Arfer 8.6: Os byddai ~~darlledu rhaglen~~ cyhoeddi'r deunydd ar-lein yn tresmasu ar breifatrwydd unigolyn neu gorff, dylid cael cydsyniad cyn ~~darlledu~~ cyhoeddi'r deunydd perthnasol, oni bai fod cyfiawnhad dros dresmasu ar breifatrwydd. ~~(Bernir bod rhai sy'n galw rhaglenni ffonio i mewn wedi rhoi cydsyniad i ddarlledu eu cyfraniad.)~~

Arfer 8.7: Os tresmasir ar breifatrwydd unigolyn neu gorff, a'i fod yn gofyn i'r ffilmio, recordio, ~~darllediad byw~~ ffrydio byw, cyfweld neu gael deunydd arall ddod i ben, dylai'r ~~darlledwr~~ BBC wneud hynny, oni bai fod cyfiawnhad dros barhau.

Arfer 8.8: Wrth ffilmio, recordio neu gael deunydd arall mewn sefydliadau, cyrff neu asiantaethau eraill, dylid cael caniatâd gan yr awdurdod neu reolwr perthnasol, oni bai fod cyfiawnhad dros ~~ffilmio neu recordio~~ gael y deunydd heb gael caniatâd. Fel arfer, ni fydd angen cael cydsyniad unigol gan weithwyr neu eraill sy'n ymddangos yn ddamweiniol neu lle maent i bob pwrpas yn aelodau dienw o'r cyhoedd.

Fodd bynnag, mewn mannau a allai fod yn sensitif fel ambiwlansiau, ysbytai, ysgolion, carchardai neu orsafoedd heddlu, dylid cael cydsyniad ar wahân fel arfer cyn ~~ffilmio neu recordio ac ar gyfer darlledu~~ cael gafael ar y deunydd gan y rheini sydd mewn sefyllfaoedd sensitif a chyn cyhoeddi'r deunydd ar-lein (oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â chael cydsyniad). Os na fydd modd adnabod yr unigolyn yn y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein, ni fydd angen cael cydsyniad ar wahân ar gyfer ~~darlledu~~ cyhoeddi.

Cael deunydd ac ailddefnyddio deunydd

Arfer 8.9: Rhaid i'r dull o gael deunydd fod yn gymesur yn yr holl amgylchiadau ac yn benodol i bwnc y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein.

Arfer 8.10: Dylai'r ~~darlledwyr~~ BBC sicrhau nad yw ailddefnyddio cynnwys, hynny yw, defnyddio cynnwys ~~wedi'i ffilmio neu ei recordio'n~~ a gafwyd yn wreiddiol at un diben ac a ddefnyddiwyd wedyn ~~mewn rhaglen~~ gan y BBC at ddiben arall, neu a ddefnyddiwyd mewn ~~rhaglen~~ cyhoeddiad diweddarach neu wahanol o ddeunydd ar-lein, yn arwain at dresmasu ar breifatrwydd. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y ~~darlledwr~~ BBC ei hun.

Arfer 8.11: Ni ddylid ffilmio neu recordio'n ddirybudd ar gyfer ~~rhaglenni~~ eitemau ar-lein ffeithiol oni bai fod cais am gyfweliad wedi'i wrthod neu nad yw wedi bod yn bosibl gwneud

cais am gyfweliad, neu fod rheswm da dros gredu y caiff ymchwiliad ei lesteirio os cysylltir â'r gwrthrych yn agored, a bod cyfiawnhad dros gyfweld yn ddirybudd. Fodd bynnag, fel arfer gall ~~darlledwr~~ y BBC gyfweld, ffilmio neu recordio pobl yn y newyddion heb rybudd ymlaen llaw pan fyddant mewn mannau cyhoeddus.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 8.15)

Ystyr "ffilmio neu recordio'n ddirybudd"

Mae ffilmio neu recordio'n ddirybudd yn cyfeirio at ffilmio neu recordio cyfweliad neu ymgais i gyfweld rhywun, neu gyhoeddi bod galwad yn cael ei ffilmio neu ei recordio at ddibenion ~~darlledu~~ cyhoeddi, heb unrhyw rybudd ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys barn y bobl neu 'vox-pops' (samplu barn aelodau'r cyhoedd ar hap).

Arfer 8.12: Gall y ~~darlledwr~~ BBC recordio galwadau ffôn rhwng y ~~darlledwr~~ BBC a'r parti arall os ydynt, ar ddechrau'r alwad, wedi dweud pwy ydynt, wedi egluro pwrpas yr alwad a bod yr alwad yn cael ei recordio a'i bod yn bosibl y caiff ei chynnwys mewn ~~darllediad~~ cyhoeddiad o ddeunydd ar-lein (os yw hynny'n wir) oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud un neu ragor o'r arferion hyn. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach y bydd galwad sydd wedi'i recordio'n cael ei ~~ddarlledu~~ chyhoeddi ar-lein (ond na chafodd hynny ei egluro i'r parti arall ar adeg yr alwad) yna rhaid i'r ~~darlledwr~~ BBC gael cydsyniad gan y parti arall cyn ei ~~ddarlledu~~ chyhoeddi, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14 ac 8.13 i 8.15)

Arfer 8.13: Dim ond os oes cyfiawnhad dros hynny y dylid ~~ffilmio neu recordio~~ cael deunydd mewn modd dirgel. Fel arfer, ni fydd cyfiawnhad dros hynny oni bai fod:

- tystiolaeth prima facie o stori sydd er budd y cyhoedd; a
- bod lle rhesymol i amau y gellid cael tystiolaeth berthnasol bellach; a
- bod hynny'n angenrheidiol er mwyn hygrededd a dilysrwydd y ~~rhagenni~~ deunydd ar-lein.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14, 8.12, 8.14 ac 8.15)

Ystyr "cael deunydd ~~ffilmio neu recordio~~ mewn modd dirgel"

Pan geir deunydd heb yn wybod i'r unigolyn dan sylw. ~~Mae ffilmio neu recordio cudd yn cynnwys~~ Er enghraifft, defnyddio lensys hir neu declynnau recordio, yn ogystal â gadael camera neu declyn recordio heb neb i ofalu amdano ar eiddo preifat heb gael cydsyniad llawn a gwybodus y preswylwyr neu eu hasiant. Gall hefyd gynnwys recordio neu dynnu sgrinlun o sgyrsiau ffôn, fideo neu destun yn ddiarwybod i'r parti arall, neu barhau â recordiad yn fwriadol pan fydd y parti arall yn meddwl ei fod wedi dod i ben.

Arfer 8.14: Dim ond pan fydd cyfiawnhad dros hynny y dylid ~~ffilmio a recordio~~ cyhoeddi deunydd a gafwyd mewn modd dirgel.

Arfer 8.15: Gellir cyfiawnhau cael deunydd mewn modd dirgel neu ~~ffilmio neu recordio'n~~ ddirybudd at ddibenion adloniant os yw'n rhan annatod o'r adloniant ac nad yw'n golygu tresmasu'n sylweddol ar breifatrwydd fel ei fod yn achosi annifyrrwch, gofid neu embaras sylweddol. Ni ddylid ~~darlledu~~ cyhoeddi'r deunydd a gafwyd o ganlyniad heb gael cydsyniad y rheini sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, os na ellir adnabod yr

unigolyn a/neu'r corff yn y ~~rhaglen~~ deunydd ar-lein, ni fydd angen cael cydsyniad ar gyfer cyhoeddi.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14 ac 8.11 i 8.14)

Dioddefaint a thrallod

Arfer 8.16: Ni ddylai'r ~~darlledwyr cymryd neu ddarlledu deunydd ffilm neu sain~~ BBC gael na chyhoeddi deunydd sy'n cynnwys pobl sydd wedi'u dal mewn argyfwng, rhai sydd wedi bod mewn damwain neu'r rhai sy'n dioddef trasiedi bersonol, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, os yw hynny'n arwain at dresmasu ar breifatrwydd, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny neu fod y bobl sy'n gysylltiedig wedi rhoi cydsyniad.

Arfer 8.17: Ni ddylid rhoi pwysau ar bobl sydd mewn trallod i gyfrannu ~~at rhaglen~~ ddeunydd ar-lein neu gymryd rhan mewn cyfweliadau, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

Arfer 8.18: Dylai'r ~~darlledwr~~ BBC ofalu nad yw'n datgelu pwy yw rhywun sydd wedi marw neu sydd wedi dioddef oherwydd damwain neu drosedd treisiol, oni bai a hyd nes ei bod yn amlwg bod y perthynas agosaf wedi cael gwybod am y digwyddiad neu oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

Arfer 8.19: Dylai'r ~~darlledwr~~ BBC geisio lleihau'r gofid posibl i ddioddefwyr a/neu berthnasau wrth wneud neu ~~darlledu rhaglenni~~ gyhoeddi deunydd ar-lein sydd â'r bwriad o archwilio digwyddiadau yn y gorffennol sy'n cynnwys trawma i unigolion (gan gynnwys troseddu) oni bai fod cyfiawnhad dros wneud fel arall. Mae hyn yn berthnasol i ail-greu dramatig a dramâu ffeithiol, yn ogystal â ~~raglenni~~ deunydd ffeithiol ar-lein.

Yn benodol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylai dioddefwyr byw a/neu deuluoedd agos y rheini y mae eu profiad i'w gynnwys yn r~~haglen~~ y deunydd ar-lein gael gwybod am y cynlluniau ar gyfer ~~rhaglen~~ y deunydd ar-lein a'r bwriad i'w ~~darlledu~~ gyhoeddi, hyd yn oed os yw'r digwyddiadau neu'r ~~darllediad~~ deunydd sydd i'w gyhoeddi wedi bod ar gael i'r cyhoedd yn y gorffennol.

Pobl dan un ar bymtheg oed a phobl sy'n agored i niwed

Arfer 8.20: Dylai'r ~~darlledwr~~ BBC roi sylw penodol i breifatrwydd pobl dan un ar bymtheg oed. Ni fyddant yn colli eu hawl i breifatrwydd oherwydd enwogrwydd neu enw drwg eu rhieni, er enghraifft, neu oherwydd digwyddiadau yn eu hysgolion.

Arfer 8.21: Pan fydd ~~rhaglenni~~ deunydd ar-lein yn cynnwys unigolyn dan un ar bymtheg oed neu unigolyn agored i niwed mewn ffordd sy'n tresmasu ar breifatrwydd, rhaid cael cydsyniad lle bo hynny'n briodol gan:

- lle bynnag y bo modd, yr unigolyn sydd dan sylw; a
- rhiant, gwarcheidwad neu unigolyn arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn in loco parentis (yn achos unigolion dan un ar bymtheg oed); neu
- unigolyn sydd â'r prif gyfrifoldeb am ei ofal (yn achos person agored i niwed nad yw'n gallu rhoi cydsyniad)

oni bai bod y cynnwys yn ddibwys neu'n annadleuol a bod y cyfranogiad yn fach, neu fod cyfiawnhad dros fwrw ymlaen heb gael cydsyniad.

Arfer 8.22: Ni ddylid holi pobl dan un ar bymtheg oed a phobl agored i niwed am faterion preifat heb gael cydsyniad rhiant, gwarcheidwad neu berson arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn in loco parentis (yn achos pobl dan un ar bymtheg oed), neu berson sydd â'r prif gyfrifoldeb am eu gofal (yn achos person agored i niwed), oni bai fod cyfiawnhad dros fwrw ymlaen heb gael cydsyniad.

Ystyr "pobl agored i niwed"

Mae hyn yn amrywio, ond gallai gynnwys pobl sydd ag anawsterau dysgu, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n galaru, pobl a gafodd anaf i'w hymennydd neu sydd â mathau o ddementia, pobl sydd wedi dioddef trawma, pobl sy'n wael eu hiechyd neu sydd â salwch terfynol.

A4. Gweithdrefnau

- Atodiad 4A: Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys;
- Atodiad 4B: Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC
- Atodiad 4C: Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd

A5. Asesiadau o'r effaith

Asesiad o'r effaith

Asesu effaith ein penderfyniadau

A5.1 Mae Ofcom yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maen nhw'n rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau.

A5.2 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall effeithiau penderfyniadau polisi rydym yn bwriadu eu gwneud ac i ystyried a fyddai'r penderfyniadau hynny'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.

A5.3 Mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi ac mae ganddo ddisgresiwn o ran sylwedd a ffurf pob asesiad effaith. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.[269]

A5.4 Fel y nodir ym mharagraff 3.6 o'n canllaw asesu effaith, bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen i ni gynnal asesiad effaith yn dibynnu ar natur y cynnig rydym yn ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol; a (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith. Enghraifft o senario lle na fydd angen asesiad effaith fel rheol yw pan fydd deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd (er y gallwn gynnal asesiad effaith lle mae gennym ddisgresiwn ynghylch yr union ffordd rydym yn ymyrryd). Mewn achosion lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rhan o ymgynghoriad, byddwn yn esbonio pam.

A5.5 Rydym wedi ystyried effeithiau ein bwriad i weithredu'r gofynion statudol drwy gydol ein Hymgynghoriad ac wrth baratoi'r Cod drafft a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

a) manteision tebygol a mesurau diogelu ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gyfrannu at effeithiolrwydd ein cynigion yn gyffredinol o ran cyflawni ein hamcanion; a
b) a yw effeithiau ein cynigion ar y BBC yn gymesur.

Yr hyn a ddywedon ni am yr effeithiau ar y BBC o ran cost a risg

A5.6 Fe wnaethom nodi yn ein Hymgynghoriad ein barn, sef er bod ein cylch gwaith rheoleiddio yng nghyswllt deunydd ar-lein y BBC yn newid, ni fyddai'r Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn rhoi baich sylweddol ar y BBC. Ni wnaeth y Cod arfaethedig gyflwyno safonau newydd nad yw'r BBC eisoes yn cydymffurfio â nhw yn ei ddeunydd ar-lein. Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn berthnasol ar hyn o bryd i'w gynnwys ar-lein; mae eisoes yn ystyried y Cod Darlledu, ac mewn rhai mannau maent yn fwy manwl ac yn fwy cyfyngedig. Ar ben hynny, roedd y Cod arfaethedig yn seiliedig ar yr un amcanion

[269] Ofcom, Canllawiau asesu effaith, 2023.

safonau â'r Cod Darlledu ac, fel yr amlinellwyd uchod, mae'n rhaid i ddefnydd Ofcom o'r cyntaf o'r rhain fod yn gyson â'r llall fel sy'n briodol.

A5.7 Y Cod arfaethedig oedd ymateb Ofcom i ofynion y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru 2025. O'r herwydd, fe wnaethom ddweud yn ein Hymgynghoriad y byddem yn ystyried y byddai unrhyw effeithiau posibl yn deillio o reoleiddio'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru hwnnw. Fe wnaethom ddarparu dadansoddiad yn ein Hymgynghoriad o rai costau a risgiau posibl i'r BBC, fel unrhyw gostau untro wrth ymgyfarwyddo â'r Cod a'i weithdrefnau; a fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau i Ganllawiau Golygyddol y BBC; a'r posibilrwydd am gynnydd mewn llwyth gwaith yn sgil mwy o gyswllt ag Ofcom. Yn gyffredinol, gwelsom na fyddai gorfodi'r Cod arfaethedig yn debygol o effeithio'n sylweddol ar y BBC ar draws unrhyw un o'r meysydd hyn.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am yr effeithiau ar y BBC o ran cost a risg

A5.8 Awgrymodd un ymatebydd y gallai Ofcom fod wedi tanamcangyfrif yr effaith ar y BBC ac Ofcom yn sgil gorfodi'r drefn newydd, gan nodi y gallai materion fel rheoli data, llywodraethu a chapasiti staffio ar gyfer y naill barti a'r llall fod yn fwy beichus na'r disgwyl. Roedd hefyd wedi cwestiynu a ellid defnyddio niferoedd cwynion hanesyddol o dan y trefniant ar-lein at ddibenion llunio rhagolygon dibynadwy o gwynion o dan y Cod. Awgrymodd y dylai Ofcom fonitro agweddau ar weithredu sy'n gysylltiedig â chostau yn ystod dwy flynedd gyntaf y drefn newydd o leiaf. Roedd hefyd wedi sôn am effeithiau anuniongyrchol posibl penderfyniadau golygyddol amddiffynnol oherwydd rheolau ansicr. Ychwanegodd y gallai canllawiau, yn ogystal â brysbennu effeithiol, liniaru unrhyw effeithiau anfwriadol neu anuniongyrchol yn sgil gorfodi'r Cod, fel rheolau ansicr sy'n annog dileu neu benderfyniadau golygyddol amddiffynnol, neu ddyletswyddau heb eu pennu'n ddigonol sy'n gadael defnyddwyr heb ateb effeithiol. [270]

A5.9 Roedd ymatebydd arall wedi cwestiynu "a oes gan Ofcom y gallu dadansoddol i ymchwilio i gorpws digidol sylweddol". [271]

Ein penderfyniad

A5.10 Mewn perthynas â'r ymatebwyr a fynegodd bryderon mewn perthynas ag asesiad Ofcom o effeithiau cost y Cod ar y BBC ac Ofcom, byddem yn ailadrodd y pwyntiau a rannwyd yn yr adran Costau a Risgiau uchod. Y rhain, yn bennaf, oedd: y byddai gorfodi'r Cod yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith y BBC wrth ymgysylltu ag Ofcom ynghylch cwynion, gan nad yw'n cyflwyno safonau newydd nad yw'r BBC eisoes yn cydymffurfio â nhw yn ei ddeunydd ar-lein; a bod Canllawiau Golygyddol y BBC ar hyn o bryd yn berthnasol i'w gynnwys ar-lein, eisoes yn ystyried y Cod Darlledu ac mewn rhai mannau yn fwy manwl a chyfyngol.

A5.11 Fodd bynnag, byddwn yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r BBC ynghylch ei brofiad o ryngweithio â'r Cod a, lle bo angen, byddwn yn mynd i'r afael ar y cyd ag unrhyw faterion a allai godi. Yn olaf, o ran costau, o safbwynt Ofcom, rydym wedi asesu effaith debygol cyflwyno'r Cod ar ein hadnoddau ein hunain ac nid oes gennym unrhyw bryderon sylweddol. Credwn fod y cwynion hanesyddol am ddeunydd ar-lein o dan y trefniant ar-lein yn sail resymol i ragweld cwynion yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein Hymgynghoriad, rydym yn cydnabod y gallai rhoi'r drefn newydd ar waith arwain at ragor o ymgysylltu ag Ofcom.

[270] Ymateb Corvelo D, t.22
[271] Ymateb News-watch, t.7

Serch hynny, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd y drefn newydd yn cynyddu ein llwyth gwaith yn sylweddol.

A5.12 Mewn perthynas â'r ymatebydd a gododd yr effeithiau anuniongyrchol posibl, fel y nodwyd yn gynharach yn y Datganiad hwn, mae cyfres helaeth o Ganllawiau wedi cael eu paratoi i helpu'r BBC i gyflawni'r Cod. Bwriad penodol hyn yw lliniaru unrhyw effeithiau anfwriadol neu anuniongyrchol sy'n deillio o orfodi a rhoi cyngor ymarferol mewn achosion lle gallai Rheolau unigol groestorri ag eraill.

Yr hyn a ddywedon ni am asesu hawliau

A5.13 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom nodi sut mae'n rhaid i Ofcom, fel awdurdod cyhoeddus, weithredu'n unol â'i ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus i weithredu'n gyfreithlon, yn rhesymol ac yn deg; a'i bod yn anghyfreithlon i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR").[272] Fe wnaethom egluro ein bod wedi cynnal asesiad hawliau o'n cynigion i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau perthnasol ar ddefnyddwyr, y BBC, ac unigolion eraill. Yn gyffredinol, roeddem o'r farn y byddai'r Egwyddorion a'r Rheolau a gynigiwyd yn y Cod arfaethedig, a'r dull arfaethedig rydym wedi'i gynnig i orfodi'r Cod Tegwch, yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng sicrhau gwarchodaeth ddigonol i gynulleidfaoedd, hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol cynulleidfaoedd a'r BBC, a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Yr hyn a ddywedon ni am ryddid mynegiant

A5.14 Nodwyd yn ein Hymgynghoriad bod Ofcom wedi rhoi ystyriaeth ofalus i effaith y Cod arfaethedig ar hawliau Erthygl 10 y BBC a chynulleidfaoedd. Roeddem o'r farn y byddai unrhyw ymyrraeth yn gyfyngedig, a bod ein cynigion yn bodloni gofynion Erthygl 10(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel sydd wedi'u rhagnodi gan y gyfraith, wrth fynd ar drywydd nod dilys a'u bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Y Ddeddf, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru a'r Cod arfaethedig fel y nodir yw'r gyfraith berthnasol at ddibenion Erthygl 10(2), sy'n golygu bod modd mynd ar drywydd nodau dilys, sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er budd diogelwch y cyhoedd, diogelu iechyd neu foesau, a diogelu hawliau pobl eraill. Gwnaethom ddweud y byddai'r nodau hyn yn cael eu cyflawni drwy sicrhau safonau deunydd ar-lein y BBC, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, sy'n diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol, sicrhau bod newyddion cywir a diduedd ar gael, a cheisio cynnal trafodaeth ddemocrataidd deg a chyfartal yn neunyddiau ar-lein y BBC er budd cymdeithas yn gyffredinol drwy fynnu bod gwylwyr yn cael amrywiaeth o safbwyntiau a fydd wedyn yn gallu cymryd rhan ar sail gwybodaeth mewn prosesau democrataidd.

A5.15 Gwnaethom roi sylw penodol i'r rhwymedigaeth benodol yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru bod yn rhaid i Ofcom, wrth baratoi'r Cod, "…ystyried, yn benodol, y canlynol: (a) pob un o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 319(4) o Ddeddf Cyfathrebu 2003…", sy'n cynnwys rhoi sylw "yn benodol ac i'r graddau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau, i […] (f) y dymunoldeb o gynnal annibyniaeth rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglenni". Gwnaethom hefyd roi sylw i'r Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau cysylltiedig sydd â rôl o ran cadw ymddiriedaeth yn y BBC, yn enwedig mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy. Gan ystyried hyn oll, daeth Ofcom i'r casgliad dros dro y byddai unrhyw ymyrraeth â rhyddid mynegiant o'n Cod

[272] Adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

arfaethedig yn gymesur â'r nod dilys a ddilynir, sy'n cyfateb i angen cymdeithasol dybryd ac yn gyffredinol yn gyfiawn.

Yr hyn a ddywedon ni am ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd

A5.16 Wrth baratoi'r Cod arfaethedig, roeddem wedi ystyried yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, ac roeddem o'r farn y byddai unrhyw ymyrraeth â'r hawl hon yn gyfyngedig, yn gymesur, a bod ein cynigion yn bodloni gofynion Erthygl 9(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel rhai sy'n cael eu rhagnodi gan y gyfraith, ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd ac er mwyn diogelu trefn gyhoeddus, iechyd neu foesau. Gwnaethom ystyried effaith rhai rheolau drafft ar gynnwys crefyddol o dan ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (paragraffau A5.35 isod).

Yr hyn a ddywedon ni am breifatrwydd

A5.17 Yn ein Hymgynghoriad, nodwyd bod Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi'r hawl i barchu bywyd preifat a theuluol unigolyn. Fe wnaethom amlinellu nad oeddem yn cynnig unrhyw newidiadau i'r wybodaeth rydym yn ei chasglu gan achwynwyr mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC ac, o ganlyniad, nid oedd ein cynigion yn gofyn am unrhyw asesiad manwl pellach mewn perthynas â phreifatrwydd.

A5.18 Gwnaethom amlinellu sut roedd y Cod Tegwch yn cydbwyso hawliau Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i bobl dan ddeunaw oed ac unigolion neu sefydliadau eraill sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC neu y mae deunydd ar-lein y BBC yn effeithio arnynt yn uniongyrchol â hawliau Erthygl 10 y BBC a chynulleidfaoedd i dderbyn a rhannu gwybodaeth heb ymyrraeth ddiangen. Gan fod Canllawiau Golygyddol y BBC, sy'n rhoi cyfrif am yr egwyddorion, y rheolau a'r arferion perthnasol sydd i'w dilyn o dan y Cod Tegwch, eisoes yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC, roeddem o'r farn nad oedd ein dyletswydd o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru i gymhwyso'r Cod Tegwch i ddeunydd ar-lein y BBC (i'r graddau rydym yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol) yn golygu bod angen unrhyw asesiad manwl pellach mewn perthynas â phreifatrwydd.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am ein hasesiad hawliau

A5.19 Roedd un sefydliad wedi gwahodd Ofcom i ystyried "cyfnod amhenodol posibl, hygyrchedd ac effaith gyfoes newidiol deunydd sy'n ymwneud ag unigolion adnabyddadwy" yn ei asesiad hawliau. Roedd yn awgrymu bod Ofcom yn ystyried mabwysiadu dull ehangach o "asesu effeithiau rheoleiddio deunydd ar-lein sydd ar gael yn barhaol [a ddylai] gydnabod adsefydlu, newid mewn amgylchiadau a threigl amser fel ffactorau a allai fod yn berthnasol mewn fframwaith hawliau sydd â chydbwysedd priodol". Cyfeiriodd yr sefydliad hwn at Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (parch at fywyd preifat a theuluol) ac Erthygl 10 (rhyddid mynegiant).[273]

A5.20 Fel y nodir ym mharagraff 4.114 uchod, dywedodd ymatebydd arall y dylid darllen y rheolau yn Adran Pedwar ochr yn ochr ag Erthyglau 9 a 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol oherwydd "gallant ddiogelu cynulleidfaoedd rhag camfanteisio amhriodol a thriniaeth ddifrïol heb ynysu credoau neu sefydliadau rhag beirniadaeth, dychan, newyddiaduraeth ymchwiliol neu drafodaeth ar bolisi".[274] Ychwanegodd efallai na fyddai tramgwydd "ynddo'i hun yn brawf o driniaeth ddifrïol neu gamfanteisio amhriodol". Roedd

[273] Ymateb No Bars Ltd T/A DRIFT, t.14
[274] Ymateb Corvelo, D. t.12-13.

hefyd yn cynghori, mewn achosion lle mae Adran Pedwar yn gorgyffwrdd ag Adran Dau (Niwed a Thramgwydd) ac Adran Tri (Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamddefnyddio'r Cod), y dylid adlewyrchu achosion amryfal o dorri amodau yn null rheoleiddio Ofcom o dan y Cod.[275]

A5.21 Awgrymodd yr ymatebydd hefyd y dylai ein hasesiad hawliau ystyried yn benodol effeithiau'r sancsiynau mwyaf ymwthiol sydd ar gael o dan ein gweithdrefnau ar yr hawl i ryddid mynegiant, fel y nodir yn Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn ogystal â'u cymhwyso o dan adran 3(4)(g) o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw i'r angen i ddefnyddio safonau yn y ffordd orau i warantu lefel briodol o ryddid mynegiant. [276]

Ein penderfyniad

A5.22 Rydym yn nodi'r ymatebydd a gododd hygyrchedd parhaol deunydd ar-lein a threigl amser fel ffactorau perthnasol i'w hystyried yn ein fframwaith hawliau. Er bod cyfyngiad amser ar y ffenestr i gwyno wrth y BBC, ac wedyn Ofcom, am ddeunydd ar-lein penodol, ym marn Ofcom, bydd profiad y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd o gynnwys yn y byd go iawn yn cael ei siapio gan natur barhaol deunydd ar-lein. Felly, rydym wedi ystyried sut gallai natur barhaol deunydd ar-lein fod yn berthnasol i gymhwyso'r Cod yn ein Canllawiau. Mae ein gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd hefyd yn darparu bod Ofcom yn gallu ymyrryd, mewn amgylchiadau eithriadol, i ddelio â chwyn na chafodd ei chyflwyno i'r BBC i ddechrau a'i datrys cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf, a bydd Ofcom yn ystyried Erthygl 8 wrth feddwl am a ddylid ystyried cwyn.

A5.23 Mewn ymateb i'r pwynt a wnaed gan yr ymatebydd y dylid darllen y Rheolau yn Adran Pedwar ochr yn ochr ag Erthyglau 9 a 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Cod wedi cael ei ddrafftio yng ngoleuni'r hawliau hyn, sy'n cael ei egluro'n fanylach ym mharagraff 4.119 (uchod). Yn benodol mewn perthynas ag Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fel y nodir isod ym mharagraff A5.35 rydym wedi ystyried effaith wahaniaethol bosibl Rheolau 1.2, 2.1 a 2.2 ar ymlyniadau rhai credoau a/neu grefyddau. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod y gallai'r rheolau yn Adran Pedwar o'r Cod o bosibl fod yn gwahaniaethu yn erbyn dilynwyr rhai credoau a/neu grefyddau. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod unrhyw ymyrraeth gan y rheolau hyn â hawliau o dan Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gyfyngedig ac yn gymesur. Ar ben hynny, rydym o'r farn eu bod yn bodloni gofynion Erthygl 9(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel rhai sy'n cael eu rhagnodi gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol i gadw trefn gyhoeddus, iechyd neu foesau.

A5.24 Mewn perthynas â'r ymateb a oedd yn awgrymu ein bod yn ystyried yn benodol effeithiau ein pwerau adfer ar yr hawl i ryddid mynegiant, fel sy'n cael ei egluro yn ein Hymgynghoriad, bydd Ofcom yn ystyried Erthygl 10 yn ofalus wrth ddefnyddio a gorfodi'r Cod. Mae ein gweithdrefnau sancsiynau hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i Ofcom ystyried ein dyletswyddau o dan adran 3(4)(g) o dan y Ddeddf.

[275] Ymateb Corvelo, D. t.12-13.
[276] Ymateb Corvelo, D, t.23-24.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym am effeithiolrwydd y drefn

A5.25 Dywedodd un ymatebydd fod materion tryloywder yn berthnasol i asesiad effaith Ofcom ar gyfer y Cod arfaethedig, gan nodi:

> "[y] prif risg rheoleiddiol yw y bydd Ofcom yn ychwanegu sancsiynau gorfodadwy at broses [gwyno] nad yw'n cyrraedd y cam ymchwilio'n aml ac nad yw'n gallu llunio'r methiant honedig. Nid oes fawr o werth i bŵer sancsiynu pan fo'r llwybr tystiolaethol at benderfyniad yn parhau i fod ar gau." [277]

A5.26 Roedd yr ymatebydd hefyd yn cwestiynu "a fydd Senedd y Deyrnas Unedig a'r cyhoedd yn cael digon o wybodaeth i farnu effeithiolrwydd y drefn". [278]

A5.27 Dywedodd ymatebydd arall y byddai sicrwydd cyfreithiol yn dibynnu ar y berthynas rhwng y Cod arfaethedig, y canllawiau a'r gweithdrefnau cysylltiedig ac y dylai gweithrediad ac effaith bosibl pob un fod yn rhan o'n hasesiad hawliau.[279]

Ein penderfyniad

A5.28 Mewn ymateb i'r ymatebydd a gododd bryderon ynghylch tryloywder a'r cwestiwn a fydd Senedd y Deyrnas Unedig a'r cyhoedd yn cael digon o wybodaeth i farnu effeithiolrwydd y drefn, rydym yn nodi, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 7.36 (uchod), y bydd data am gwynion yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC.

A5.29 Mewn perthynas â'r pwynt a wnaed gan un ymatebydd ynghylch sicrwydd cyfreithiol yn dibynnu ar y berthynas rhwng y Cod, y Canllawiau a'r gweithdrefnau cysylltiedig, mae pob un o'r tri ased wedi cael eu dylunio i ategu ei gilydd ac wedi cael eu hystyried yn ofalus o safbwynt cyfreithiol.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Yr hyn a ddywedon ni

A5.30 Roedd ein Hymgynghoriad yn nodi'r cyd-destun cyfreithiol o ran yr effaith ar gydraddoldeb, gan amlinellu'r gofynion o dan Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010")[280] ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998").[281] Gwnaethom ddisgrifio

---

[277] Ymateb News-watch, t.7
[278] Ymateb News-watch, t.7
[279] Ymateb Corvelo, t.23-24
[280] Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.
[281] Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hybu cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae adran 75(2) o Ddeddf 1998 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw i ba mor ddymunol yw hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol neu grŵp hil. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

ein bod yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A5.31 Nodwyd bod ein hagwedd at gydraddoldeb yn ystyried yr effeithiau posibl yn ehangach ac nid dim ond mewn perthynas â grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb.[282] Fe wnaethom nodi ymhellach fod adran 3(4) o Ddeddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel sy'n ymddangos i ni yn berthnasol yn yr amgylchiadau, fel pa mor agored i niwed yw plant ac eraill y mae'n ymddangos i ni fod eu hamgylchiadau angen gwarchodaeth arbennig; anghenion pobl ag anableddau, pobl hŷn a phobl ar incwm isel; buddiannau gwahanol pobl yn y gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A5.32 Wrth gynnal ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, roeddem o'r farn ein bod yn bwriadu archwilio'r effaith bosibl y byddai ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol, ac y gall dull gweithredu o'r fath ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, beth bynnag fo'u cefndir a'u hunaniaeth.

A5.33 Fe wnaethom nodi'r effeithiau cadarnhaol canlynol:

- Byddai'r Cod arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i ddiogelu defnyddwyr deunydd ar-lein y BBC rhag niwed drwy newid ein cylch gwaith dros ddeunydd ar-lein y BBC o oruchwylio cydymffurfiad y BBC â'i Ganllawiau Golygyddol i orfodi safonau, drwy'r Cod arfaethedig ac o dan y Cod Tegwch.
- Byddai'r Cod arfaethedig yn cynyddu'r cymhelliant i'r BBC barhau i gynnal a chadw a bodloni ei safonau a darparu llwybr ychwanegol ar gyfer gwneud iawn i'r rheini y mae deunydd ar-lein y BBC yn effeithio'n negyddol arnynt.

A5.34 Fe wnaethom nodi'r effeithiau niwtral canlynol:

- Byddai mesurau diogelu presennol yn ein gweithdrefnau cwyno presennol yn cael eu cynnal ar gyfer unigolion sy'n dymuno cwyno i ni am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y drefn reoleiddio newydd.
- Ar ôl asesu'n ofalus, nid oeddem wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar grwpiau penodol o bobl yng Ngogledd Iwerddon a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio mewn ffordd wahanol i weddill y DU.

A5.35 Fe wnaethom nodi'r effeithiau negyddol canlynol.

- Gallai cymhwyso Rheolau 1.2, 2.1 a 2.2 yn y Cod arfaethedig fod yn wahaniaethol i'r rhai sy'n glynu wrth gredoau a/neu grefyddau penodol, o ganlyniad i sut mae'r mesurau diogelu roeddent yn eu cynnig rhag niwed mewn rheolau cyfatebol yn y Cod Darlledu (Rheol 1.27, Rheol 2.6 a Rheol 2.8) sy'n gosod cyfyngiadau ar arddangosiadau o ddadreibio, arferion yr ocwlt a'r goruwchnaturiol (sy'n ymddangos yn real). Fodd bynnag, rydym yn datgan ein barn y byddai unrhyw effaith niweidiol neu ymyrraeth ag Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) a achosir drwy ddehongli rheolau

[282] Ofcom, Canllawiau asesu effaith, 2023. Gweler paragraff 7.

o'r fath yn bodloni gofynion Erthygl 9(2) fel rhai a ragnodir gan y gyfraith, er mwyn cyflawni nod dilys ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd.

- Byddai cydymffurfio â'r Cod arfaethedig yn debygol o gynyddu costau rheoleiddio'r BBC (gweler uchod). Fodd bynnag, rydym yn nodi ein barn y byddai unrhyw gostau o'r fath yn aros yn fach ac na fyddent yn cael eu trosglwyddo'n anghymesur i gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol a/neu'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Y rheswm am hyn yw bod y BBC eisoes yn cydymffurfio â'i Ganllawiau Golygyddol ei hun sy'n fwy manwl mewn mannau na'r Cod arfaethedig, ac sydd eisoes yn rhoi cyfrif am yr amcanion safonau perthnasol roedd y Cod arfaethedig yn ceisio eu cyflawni. Nid oeddem chwaith (fel yr amlinellir uchod) yn rhagweld y byddai'r newid yn rôl reoleiddio Ofcom dros ddeunyddiau ar-lein y BBC yn debygol o effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith y BBC.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym

A5.36 Roedd un sefydliad yn cwestiynu a oedd asesiad Ofcom o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Cod arfaethedig yn mynd i'r afael yn ddigonol â hyd, hygyrchedd ac effaith gyfoes bosibl deunydd ar-lein sy'n ymwneud ag unigolion y gellir eu hadnabod.[283] Gwnaethom sôn am adsefydlu troseddwyr fel enghraifft, gan nodi, er nad yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ystyried bod cael cofnod troseddol yn nodwedd warchodedig, y gallai dull ehangach Ofcom, fel y nodir yn ein Hymgynghoriad ym mharagraff A5.29, gynnig dehongliad o'r fath.

A5.37 Amlinellodd ymatebydd arall y dylai Ofcom gryfhau ei asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb drwy fynd i'r afael â meysydd lle roedd yn credu nad yw'n cyrraedd y nod mewn perthynas ag unigolion sy'n "destun sylw, dewis straeon ar sail hil, anabledd, croestoriadedd, dod i gysylltiad cronnus neu'r rhwystrau sy'n wynebu achwynwyr sydd wedi dioddef trawma".[284] Roedd hefyd yn awgrymu bod angen archwilio Ofcom o dan y meini prawf hyn. Roedd hefyd yn annog Ofcom i ymgynghori'n uniongyrchol â'r BBC a'r bobl y mae cynnwys eitemau ar-lein yn effeithio fwyaf arnynt, fel "teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth, cymunedau Du, pobl awtistig ac anabl, arbenigwyr iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, newyddiadurwyr sy'n gweithio a sefydliadau rhyddid mynegiant".[285]

A5.38 Cyfeiriodd ymatebydd at fynediad a'r hawl i adolygu fel rhwystrau posibl. Er enghraifft, roedd yn cwestiynu "a all unigolion a sefydliadau bach ddefnyddio'r broses". Ychwanegodd y dylai Ofcom "fynd i'r afael â'r anghymesuredd mewn adnoddau rhwng darlledwr mawr sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd a'r sawl sy'n cwyno'n allanol sydd ddim ond yn gallu gweld y deunydd cyhoeddus".[286]

A5.39 Roedd ymatebydd arall hefyd yn annog Ofcom i ystyried sut gallai cymhwyso'r rheolau arfaethedig yn ymarferol i ddiogelu rhag niwed penodol groestorri ag eraill; er enghraifft:

> "Gall diogelu pobl dan ddeunaw oed ryngweithio ag anabledd, preifatrwydd, allgáu digidol a mynediad at wybodaeth er budd y cyhoedd. Gall sicrwydd oedran neu ddylunio rhybuddion gael effeithau gwahanol ar bobl heb ddogfennau adnabod confensiynol, sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol neu'n rhannu dyfeisiau."[287]

---

[283] Ymateb No Bars Ltd T/A DRIFT t.15
[284] Ymateb Elliott, E t.7
[285] Ymateb Elliot, E t.7
[286] Ymateb News-watch, t.7
[287] Ymateb Corvelo, D, t.24

A5.40 Roedd hefyd yn dweud y dylai pobl anabl allu defnyddio systemau adrodd Ofcom a bod y systemau hyn yn annog cymorth iaith neu gyfathrebu, gan gynghori y dylai Ofcom gyhoeddi manylion ychwanegol ynghylch sut mae'n gweithredu ac yn monitro mesurau hygyrchedd. Yn olaf, nodwyd hefyd y dylid profi'r Canllawiau ar gyfer Adrannau Dau a Phedwar i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i wahanol gredoau, crefyddau a grwpiau hiliol.

Ein penderfyniadau

A5.41 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a gawsom ar y materion hyn ac wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau cysylltiedig fel y'u drafftiwyd. Fel yr amlinellir yn Adran Effeithiau'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb, mae'r Cod a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn bwriadu cael cydbwysedd teg rhwng sicrhau mesurau diogelu digonol i gynulleidfaoedd, hawliau dynol cynulleidfaoedd a'r BBC a phartïon eraill sydd â diddordeb. Fodd bynnag, rydym wedi amlinellu isod ein casgliadau mewn perthynas â rhai o'r pwyntiau ychwanegol a godwyd gan ymatebwyr.

Effaith ar unigolion ag euogfarnau troseddol

A5.42 Mewn perthynas â'r awgrym gan ymatebydd y dylem ystyried effaith deunydd ar-lein ar unigolion y gellir eu hadnabod, gan gynnwys y rheini sydd ag euogfarnau troseddol yn benodol, mae Ofcom yn nodi, er nad yw statws unigolyn fel un sydd ag euogfarn droseddol (fel y nodwyd gan yr ymatebydd) yn cael ei gydnabod ar hyn o bryd fel nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n bosibl y byddwn yn dal i ystyried yr effaith ar y grŵp hwnnw. Pe bai gan unigolyn reswm dros geisio gweithredu drwy'r Cod am fod yn destun tor-amod posibl gan y BBC ar sail bod gan yr unigolyn hwnnw gofnod troseddol, yna byddem yn sylwi y dylai'r Cod fel y'i nodir ar draws ei adrannau amrywiol ganiatáu i'w gŵyn gael ei hystyried.

Ymgynghori â grwpiau yr effeithir arnynt

A5.43 Mewn perthynas â'r ymatebydd a awgrymodd y dylai Ofcom, wrth baratoi ein Canllawiau, ymgynghori'n uniongyrchol â'r bobl y mae cynnwys eitemau ar-lein yn effeithio fwyaf arnynt, yn ogystal â'r BBC, rydym yn sylwi nad yw'r Cytundeb Fframwaith wedi'i addasu yn mynnu bod Ofcom yn ymgysylltu fel hyn. Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod Ofcom yn ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau ar draws cymdeithas fel y bo'n briodol ac yn cynnal ymchwil i sicrhau bod amcanion ein safonau ar draws ein cylch gwaith yn adlewyrchu disgwyliadau cymdeithasol presennol.

Effaith sicrwydd oedran

7.81 Mewn perthynas â'r ymatebydd a nododd y gallai sicrwydd oedran gael effeithiau gwahanol ar bobl sydd heb ddogfennau adnabod confensiynol, sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol neu ddyfeisiau rhannu, rydym yn nodi bod sicrwydd oedran yn cael ei nodi fel term nad yw'n rhagnodol sy'n cwmpasu sbectrwm o fesurau. Nid yw ychwaith yn ofyniad o dan y Cod, ond yn hytrach mae'n enghraifft o fesur a allai fod yn briodol i amddiffyn pobl dan ddeunaw oed. Mae hefyd yn berthnasol, fel rhan o feini prawf diogelwch ar-lein Ofcom ar gyfer sicrwydd oedran effeithiol iawn, ein bod yn datgan y dylai dulliau fod yn deg ac na ddylent arwain at ganlyniadau sy'n rhagfarnllyd neu'n wahaniaethol i ddefnyddwyr.

Effaith ar y rheini sydd ag anableddau neu ofynion hygyrchedd

7.82 Mewn perthynas ag ymatebwyr a gododd yr effaith bosibl ar y rheini sydd ag anableddau neu ofynion hygyrchedd, ar hyn o bryd rydym yn gwneud darpariaeth i bobl ag anableddau a gofynion hygyrchedd allu cyflwyno cwynion i ni am safonau cynnwys. Mae gennym nifer o lwybrau ar gyfer gwneud hynny (gan gynnwys canolfan alwadau ar gyfer y rheini sy'n cael

trafferth cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig). Mae'r llwybrau hyn eisoes yn gallu cael eu defnyddio gan bobl sydd eisiau cwyno wrthym am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y drefn oruchwylio bresennol a bydd hyn yn parhau o dan y drefn orfodi newydd. Felly, yn yr Ymgynghoriad roeddem wedi amcangyfrif na fyddai ein cynigion yn cael llawer o effaith ar bobl ag anableddau.

Effaith ar unigolion a sefydliadau bach

7.83 Mynegodd un ymatebydd bryderon am yr effaith bosibl ar unigolion a sefydliadau bach o ran eu gallu i ddefnyddio'r broses gwyno, yn ogystal â'r anghymesuredd posibl rhwng darlledwr mawr sy'n cael arian cyhoeddus ac achwynydd allanol sy'n gallu gweld deunydd cyhoeddus yn unig. Mewn perthynas â hyn, rydym yn nodi, fel sy'n cael ei egluro yn ein gweithdrefnau, bod pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw'r BBC yn methu cydymffurfio â'r Cod. Byddwn wedi cyhoeddi gweithdrefnau sy'n nodi'n glir sut caiff achwynwyr gwyno am ddeunydd ar-lein y BBC a sut bydd Ofcom yn ystyried y gŵyn honno. Mewn perthynas â'r anghymesuredd yn benodol, mae cwynion o dan y drefn yn ymwneud â deunydd ar-lein y BBC sydd wedi cael ei bostio ar-lein yn unig. Fel y nodir yn y gweithdrefnau, caiff Ofcom ofyn i'r BBC ddarparu unrhyw dystiolaeth neu ddeunydd cefndir a allai, yn ein barn ni, fod yn berthnasol i'n hasesiad o'r gŵyn.

Effaith cymhwyso'r Cod ar wahanol grwpiau

7.84 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch sut gallai defnyddio'r Cod a gweithdrefnau cwyno effeithio ar wahanol grwpiau, gan gynnwys: y rheini sydd ag anableddau; y rheini o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol; y rheini sydd â gofynion hygyrchedd; y rheini sydd â gwahanol gredoau; y rheini sydd â gwahanol grefyddau; gwahanol grwpiau hiliol; unigolion a nodwyd sy'n destun sylw mewn deunydd ar-lein gan gynnwys y rheini sydd ag euogfarnau troseddol; achwynwyr sydd wedi dioddef trawma; teuluoedd mewn profedigaeth; y rheini sydd â chyflyrau iechyd meddwl; a sefydliadau bach. Fel y dywedasom yn yr Ymgynghoriad, roeddem o'r farn y byddai'r prosiect hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn erbyn unrhyw un o'r grwpiau hyn drwy symud ein cylch gwaith dros ddeunydd ar-lein y BBC o *oruchwylio* cydymffurfiad y BBC â'i Ganllawiau Golygyddol i *orfodi* safonau, drwy'r Cod. Mae'r safonau hyn yn cael eu mynegi mewn rheolau sy'n diogelu defnyddwyr rhag iaith casineb a deunydd difrïol sydd wedi'i anelu at grwpiau neu gymunedau, yn ogystal â rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus (gan gynnwys deunydd sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig).

7.85 Roeddem hefyd wedi dweud, er na fyddai'r newid hwn yn cynyddu'r safonau y mae'r BBC eisoes yn dal ei hun iddynt drwy ei Ganllawiau Golygyddol, sy'n ymdrin â'r un cysyniadau â'r Cod, y byddai'n rhoi mwy o gymhelliant i'r BBC barhau i gynnal a bodloni ei safonau. Byddai hefyd yn cynnig llwybr ychwanegol ar gyfer gwneud iawn i'r rheini y gallai deunydd ar-lein y BBC effeithio'n negyddol arnynt.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Yr hyn a ddywedon ni

A5.44 Yn ein Hymgynghoriad, fe wnaethom amlinellu cyd-destun cyfreithiol ein hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg a nodi dyletswydd Ofcom, fel corff cyhoeddus, i gydnabod statws y Gymraeg fel iaith sy'n cael ei chydnabod yn swyddogol yng Nghymru. Gwnaethom hefyd gydnabod ein dyletswydd i ystyried sut dylid llunio'r Cod arfaethedig er mwyn iddo gael

neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol yn hyn o beth.

A5.45 Gwnaethom nodi ein hystyriaethau na fyddai ein cynigion yn cael unrhyw effeithiau niweidiol hysbys ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac nid oeddent ychwaith yn ystyried y byddent yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar gyfer siaradwyr Cymraeg, roeddem yn disgwyl y byddai ein cylch gwaith ehangach dros ddeunydd ar-lein y BBC o fudd drwy ddal y BBC yn annibynnol i safonau penodol ar gyfer ei ddeunydd ar-lein, gan gynnwys ar ran defnyddwyr Cymraeg ei ddeunydd ar-lein Cymraeg, fel BBC Cymru Fyw.

A5.46 Bydd y Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan roi cyfle cyfartal i ddefnyddwyr Cymraeg ei ddefnyddio a'i ddeall.

A5.47 Ar hyn o bryd, gall defnyddwyr Cymraeg wneud cwyn i Ofcom yn Gymraeg am ddeunydd ar-lein y BBC (fel y gallant i'r BBC). Gwnaethom ddweud y byddai'r cyfle cyfartal hwn yn parhau o dan ein cylch gwaith estynedig, yn ogystal â'n dull o ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyhoeddi canlyniadau ymchwiliadau sydd ynddynt eu hunain yn berthnasol i Gymru.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym

A5.48 Cawsom un ymateb[288] mewn perthynas â'r adran hon o'n Hymgynghoriad, lle dywedodd yr ymatebydd y dylai'r ffordd rydym yn cyflawni ac yn ymdrin â'r Cod arfaethedig "ymrwymo i broses gyfatebol, amseroldeb, hygyrchedd a chynsail, nid dim ond cyhoeddi'r Gymraeg yn gyfartal".

Ein hymateb

A5.49 Rydym wedi ystyried yr ymateb hwn ac wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd yn ein Hymgynghoriad ac fel yr ailadroddir uchod: bydd y Cod a'r gweithdrefnau cysylltiedig i gyd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg; bydd aelodau o'r gynulleidfa sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gallu cwyno wrth Ofcom yn Gymraeg am ddeunydd ar-lein y BBC; a byddwn yn defnyddio'r Gymraeg wrth gyhoeddi canlyniadau ymchwiliadau yng Nghymru ac sy'n berthnasol i Gymru. Yn ein barn ni, bydd hyn yn helpu i sicrhau hygyrchedd a phroses gyfatebol. Byddwn hefyd yn ystyried cwynion Cymraeg yn erbyn y Cod ar yr un sail â chwynion Saesneg. Mae amserlenni Ofcom ar gyfer ystyried cwynion o dan y gweithdrefnau yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg.

[288] Ymateb Corvelo, D, t.25